



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2012  
Wednesday, 7 November 2012**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |                                                                                                                                                                                                     |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Questions to the Minister for Education and Skills                                                                                                     |
| 21  | Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Questions to the Minister for Local Government and Communities                                                                            |
| 42  | Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)<br>Statement: Introduction of a Member Proposed Bill—the Regulated Mobile Home Sites (Wales) (Bill) |
| 57  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Lluoedd Arfog<br>Welsh Conservatives Debate: The Armed Forces                                                                                                          |
| 84  | Dadl Plaid Cymru: Gwella Ysgolion<br>Plaid Cymru Debate: School Improvement                                                                                                                         |
| 111 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyllideb Gwasanaeth Ambiwylans Cymru<br>Welsh Liberal Democrats Debate: The Welsh Ambulance Service Budget                                                     |
| 137 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time                                                                                                                                                                   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Questions to the Minister for Education and Skills**

### **Darpariaeth Addysg Bellach**

**1. Mark Drakeford:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn darpariaeth addysg bellach yn ardal Caerdydd. OAQ(4)0197(ESK)*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** The Welsh Government has agreed in principle with the development of a new city-centre campus at a cost of £40 million, with the Welsh Government contributing 50% of the overall cost. This investment is subject to approval of the necessary business case in line with the Treasury five-case model.

**Mark Drakeford:** I was a member of the South Glamorgan education committee in the 1980s when Coleg Glan Hafren was established as the first further education college in Cardiff.

**Ann Jones:** You were a mere boy. [*Laughter.*]

**Simon Thomas:** You are not old enough, Mark. [*Laughter.*]

**Mark Drakeford:** I welcome the additional £10 million that the Deputy Minister announced recently as a boost to a new post-16 further education campus in Cardiff city centre. Do you agree that this represents a step-change in the nature of the offer that will be made to young people in Cardiff looking for further education, and that the Welsh Government investment has been pivotal in bringing that about?

**Leighton Andrews:** I think that the Member

### **Further Education Provision**

**1. Mark Drakeford:** *Will the Minister make a statement on investment in further education provision in the Cardiff area. OAQ(4)0197(ESK)*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor â chynnig i ddatblygu campws newydd yng nghanol y ddinas ar gost o £40 miliwn, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 50% o gyfanswm y gost. Mae'r buddsoddiad hwn yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes angenrheidiol yn unol â model pum achos y Trysorlys.

**Mark Drakeford:** Roeddwn yn aelod o bwyllgor addysg De Morgannwg yn yr 1980au pan sefydlwyd Coleg Glan Hafren fel y coleg addysg bellach cyntaf yng Nghaerdydd.

**Ann Jones:** Megis bachgen ifanc oeddech bryd hynny. [*Chwerthin.*]

**Simon Thomas:** Nid ydych yn ddigon hen, Mark. [*Chwerthin.*]

**Mark Drakeford:** Croesawaf y £10 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog fel hwb i gampws addysg bellach ôl-16 newydd yng nghanol dinas Caerdydd. A gytunwch fod hyn yn newid sylweddol yn natur yr hyn a gynigir i bobl ifanc yng Nghaerdydd sy'n chwilio am addysg bellach, a bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi bod yn greiddiol yn hynny o beth?

**Leighton Andrews:** Credaf fod yr Aelod

for Cardiff West has shocked other colleagues by admitting to such high office in his teens. [*Laughter.*]

The investment is very good news for the capital city. There has been a feeling for many years that there has been something of a hole at the centre of further education provision in Cardiff. This will add to the quality of provision available to young people post 16 and it is a good development if considered alongside investments that I am sure will be made over time in the post-16 provision in the Cardiff school system.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** The Member for Cardiff West touched on the offer for post-16 education in FE colleges in Cardiff. Across South Wales Central, it is important that there is an offer and a genuine choice. Do you support sixth-form provision in our secondary schools in the form of A-levels, so that when students make their choice, they can do so based on the information provided to them and the possibility within their catchment area of staying in their secondary school or going to an FE college to study for their A-levels?

**Leighton Andrews:** It is important that young people have available the post-16 provision that is relevant to their needs. That may well be through further education colleges or it may well be through sixth forms. That will vary, I suspect, depending on the provision available in different institutions. If what you are seeking is a commitment in terms of sixth forms, while we believe that local authorities must work with further education colleges to ensure that there is no unnecessary duplication, we have no central plans to eliminate sixth forms.

**Julie Morgan:** A few weeks ago, I was delighted to attend the annual awards of the Cardiff and Vale College, which was an exciting occasion. Is there anything that the Minister could do about the stereotyping of subjects that takes place in all further

dros Orllewin Caerdydd wedi dychryn cyd-Aelodau eraill drwy gyfaddef ei fod mewn swydd mor uchel yn ystod ei ardeggau. [*Chwerthin.*]

Mae'r buddsoddiad yn newyddion da iawn i'r brifddinas. Bu teimlad ers sawl blwyddyn bod rhywfaint o fwlch yng nghanol y ddarpariaeth addysg bellach yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn ychwanegu at ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc ôl-16 ac mae'n ddatblygiad da o'i ystyried ochr yn ochr â buddsoddiadau a gaiff eu gwneud, rwy'n siŵr, dros gyfnod o amser yn narpariaeth ôl-16 system ysgolion Caerdydd.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Crybwyllodd yr Aelod dros Orllewin Caerdydd y cynnig o ran addysg ôl-16 mewn colegau AB yng Nghaerdydd. Ledled Canol De Cymru, mae'n bwysig bod cynnig a dewis go iawn. A ydych o blaid darpariaeth chweched dosbarth yn ein hysgolion uwchradd ar ffurf cymwysterau Safon Uwch, er mwyn sicrhau pan fydd myfyrwyr yn gwneud eu dewis, y gallant wneud hynny yn seiliedig ar y wybodaeth a roddir iddynt a'r posibilrwydd o fewn eu dalgylch o aros yn eu hysgol uwchradd neu fynd i goleg AB i astudio ar gyfer eu cymwysterau Safon Uwch?

**Leighton Andrews:** Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth ôl-16 sy'n berthnasol i'w hanghenion ar gael i bobl ifanc. Gallai hynny fod drwy golegau addysg bellach neu gallai fod drwy ddarpariaeth chweched dosbarth. Bydd hynny'n amrywio, fe dybiaf, yn ôl y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau gwahanol. Os ydych am gael ymrwymiad o ran darpariaeth chweched dosbarth, er ein bod o'r farn bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda cholegau addysg bellach i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen, nid oes gennym unrhyw gynlluniau canolog i ddileu'r ddarpariaeth chweched dosbarth.

**Julie Morgan:** Ychydig wythnosau yn ôl, roedd yn bleser gennyf fynd i ddigwyddiad gwobrwyo blynyddol Coleg Caerdydd a'r Fro, a oedd yn achlysur cyffrous. A oes unrhyw beth y gallai'r Gweinidog ei wneud am y ffordd y caiff pynciau eu stereoteipio

education colleges, in particular regarding apprenticeships, where men do engineering and women do hairdressing, which leads to a pattern throughout life?

**Leighton Andrews:** The point you make is a very good one. My colleague the Deputy Minister for Skills has been able to highlight a number of examples where young women have been involved in construction or engineering, and given clear signals that there are strong role models in these fields; it is clear that we want to develop those opportunities. In the context of the new facilities that will be available in Cardiff, with proper co-operation with the secondary schools, there is good scope for expanding the awareness of what can be achieved on a non-gender-specific basis.

### Addysg Uwch

**2. Mohammad Asghar:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ad-drefnu Addysg Uwch yn ne ddwyrain Cymru. OAQ(4)0191(ESK)*

**Leighton Andrews:** I made a statement yesterday on higher education reconfiguration in south-east Wales.

**Mohammad Asghar:** In view of your statement yesterday, backing down on plans to enforce the merger of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport with Cardiff Metropolitan University—for the time being, at least—will the Minister now publish the costed business case in support of the original three-way merger, which Barbara Wilding believes was legally and financially flawed?

**Leighton Andrews:** I am delighted with the progress that is being made by the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport in their merger talks. This is excellent news for the staff and students at those institutions, and for future students of those institutions. In respect of the business case, we were developing a business case on the basis of the Treasury five-case model. That involved, in the first stage, the publication of a strategic outline case, which we published. I am sorry that the chair of Cardiff Metropolitan University has not

ymhob coleg addysg bellach, yn arbennig o ran prentisiaethau, lle mae dynion yn gwneud peirianeg a menywod yn trin gwallt, sy'n arwain at batrwm gydol oes?

**Leighton Andrews:** Mae eich pwynt yn un da iawn. Llwyddodd fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Sgiliau i dynnu sylw at nifer o enghreifftiau lle mae merched ifanc wedi bod yn ymwneud ag adeiladu neu beirianeg, ac wedi cael arwyddion clir bod modelau rôl cryf yn y meysydd hyn; mae'n amlwg ein bod am ddatblygu'r cyfleoedd hynny. Yng nghyd-destun y cyfleusterau newydd a fydd ar gael yng Nghaerdydd, gan gydweithredu'n briodol â'r ysgolion uwchradd, mae cyfle da i wella'r ymwbyddiaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni ar sail nad yw'n rhyw-benodol.

### Higher Education

**2. Mohammad Asghar:** *Will the Minister provide an update on plans to reconfigure Higher Education in south east Wales. OAQ(4)0191(ESK)*

**Leighton Andrews:** Gwneuthum ddatganiad ddoe ar ad-drefnu addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru.

**Mohammad Asghar:** O ystyried eich datganiad ddoe, a oedd yn cefnu ar gynlluniau i orfodi Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd i uno â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd—am y tro, o leiaf—a wnaiff y Gweinidog yn awr gyhoeddi'r achos busnes wedi'i gostio a oedd yn ategu'r cynnig gwreiddiol i uno'r tri sefydliad, a oedd, ym marn Barbara Wilding, yn ddiffygiol yn gyfreithiol ac yn ariannol?

**Leighton Andrews:** Rwy'n falch iawn gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd yn eu trafodaethau uno. Mae hyn yn newyddion gwych i staff a myfyrwyr y sefydliadau hynny, ac i fyfyrwyr y sefydliadau hynny yn y dyfodol. O ran yr achos busnes, rydym yn datblygu achos busnes ar sail model pump achos y Trysorlys. Roedd hynny, yn ystod y cam cyntaf, yn cynnwys cyhoeddi achos amlinellol strategol, a gyhoeddwyd gennym. Mae'n ddrwg gennyf nad yw cadeirydd Prifysgol Fetropolitan

understood the process.

**Julie Morgan:** Following the announcement yesterday, and the welcome go ahead for a business plan to be made between Newport and Glamorgan universities, concern has been expressed about the financial future for Cardiff Met. As many of the students come from my constituency of Cardiff North—and I must declare an interest, as my granddaughter attends Cardiff Met—what reassurance can the Minister give to those students that the decisions that have been made by the governing body will not jeopardise their educational chances?

**Leighton Andrews:** Questions about the decisions taken by the governing body of Cardiff Metropolitan University should be addressed to the governing body of Cardiff Metropolitan University. Cardiff Metropolitan University is now largely marginal to the Welsh Government's higher education strategy. We will not be wasting time, energy and resources on institutions that are marginal to our higher education strategy.

**Jocelyn Davies:** I would like to put on record that my daughter is currently a student at Cardiff Met. Following your July announcement on the future of HE funding post 2015, and your statement yesterday, as well as what you have just said, will you clarify whether Cardiff Met will still be able to access funding from the Higher Education Funding Council for Wales into the future?

**Leighton Andrews:** Decisions on funding by the Higher Education Funding Council for Wales are a matter for HEFCW itself.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(4)0195(ESK), is withdrawn.

#### Adeiladau Ysgolion

**4. Peter Black:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i fuddsoddi mewn uwchraddio a gwella adeiladau ysgolion. OAQ(4)0196(ESK)*

Caerdydd wedi deall y broses.

**Julie Morgan:** Yn dilyn y cyhoeddiad ddoe, a'r caniatâd a roddwyd ac a groesawyd i brifysgolion Casnewydd a Morgannwg lunio cynllun busnes ar y cyd, mynegwyd pryder am ddyfodol ariannol Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Gan fod llawer o'r myfyrwyr yn dod o'm hetholaeth, sef Gogledd Caerdydd—a rhaid imi ddatgan buddiant, gan fod fy wyres yn mynd i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd—pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i'r myfyrwyr hynny na fydd y penderfyniadau a wnaed gan y corff llywodraethu yn rhoi eu cyfleoedd addysgol yn y fantol?

**Leighton Andrews:** Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am y penderfyniadau a wnaed gan gorff llywodraethu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd at gorff llywodraethu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn awr i raddau helaeth ar gyrion strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru. Ni fyddwn yn gwastraffu amser, egni nac adnoddau ar sefydliadau sydd ar gyrion ein strategaeth addysg uwch.

**Jocelyn Davies:** Hoffwn gofnodi bod fy merch ar hyn o bryd yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Yn dilyn eich cyhoeddiad ym mis Gorffennaf ar ddyfodol cyllido AU ar ôl 2015, a'ch datganiad ddoe, yn ogystal â'r hyn rydych newydd ei ddweud, a wnewch chi egluro a fydd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn parhau i allu cael cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn y dyfodol?

**Leighton Andrews:** Mater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei hun yw penderfyniadau ar gyllido gan CCAUC.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(4)0195(ESK), yn ôl.

#### School Buildings

**4. Peter Black:** *Will the Minister provide an update on his plans to invest in upgrading and improving school buildings. OAQ(4)0196(ESK)*

**Leighton Andrews:** In December 2011, I announced an investment of £700 million over the next seven years to support the delivery of the twenty-first century schools programme. A further £15 million of investment for the programme has been secured through the Welsh infrastructure investment plan, which will allow the acceleration of priority projects.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. As you know, there is a fairly big controversy about asbestos in schools. Could you give an update on the current situation, with regard to your own investigations into that matter and how it impacts on this programme?

**Leighton Andrews:** We have received responses from all local authorities in respect of asbestos. Rather than trying to give a complex answer here as to the position across Wales, I will seek to publish a written statement on the basis of those responses that we have received. I will be happy to take further questions from Members on that.

**Mike Hedges:** Does the Minister share my concern about the way some school buildings, such as Manselton Primary School in my constituency, have been left to deteriorate under the neglect of the previous City and County of Swansea council administration? Furthermore, does he agree with me that, where it is economically feasible, nineteenth century schools should be renovated, rather than just left?

**Leighton Andrews:** As the Member for Swansea East will understand, last December we announced approval of Swansea's first wave of £51 million of investment in its schools. As part of the first wave of investment in my twenty-first century schools programme, I understand that replacement schools have been identified already, with some priority projects. In addition to the £15 million that was recently announced by the Minister for Finance to support early priority projects, I want to deploy my own capital budget next year to support other priority projects where capital investment is much needed to address the poor condition of school buildings. Therefore, I would

**Leighton Andrews:** Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddais fuddsoddiad o £700 miliwn dros y saith mlynedd nesaf i ategu'r broses o roi rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ar waith. Llwyddwyd i sicrhau buddsoddiad o £15 miliwn ychwanegol ar gyfer y rhaglen drwy gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a fydd yn caniatáu i brosiectau blaenoriaeth gael eu rhoi ar waith yn gyflymach.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae asbestos mewn ysgolion yn bwnc llosg. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol, o ran eich ymchwiliadau eich hun i'r mater hwnnw a sut y mae'n effeithio ar y rhaglen hon?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cael ymatebion gan bob awdurdod lleol mewn perthynas ag asbestos. Yn hytrach na cheisio rhoi ateb cymhleth o ran y sefyllfa ledled Cymru, anelaf at gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar sail yr ymatebion hynny a gawsom. Byddaf yn fwy na pharod i dderbyn cwestiynau pellach gan Aelodau ar hynny.

**Mike Hedges:** A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder o ran y ffordd y mae adeiladau rhai ysgolion, megis Ysgol Gynradd Manselton yn fy etholaeth, wedi cael eu gadael i ddirywio o dan esgeulustod gweinyddiaeth cyngor blaenorol Dinas a Sir Abertawe? At hynny, a yw'n cytuno â mi, lle y bo'n economaidd ddichonadwy, y dylid adnewyddu ysgolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn hytrach na'u gadael?

**Leighton Andrews:** Fel y bydd yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe yn deall, fis Rhagfyr diwethaf cymeradwywyd ton gyntaf buddsoddiad gwerth £51 miliwn gan Abertawe yn ei ysgolion. Fel rhan o don gyntaf y buddsoddiad yn fy rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, rwyf ar ddeall bod ysgolion newydd eisoes wedi'u nodi, gyda rhai prosiectau blaenoriaeth. Yn ychwanegol at y £15 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog Cyllid i gefnogi prosiectau blaenoriaeth cynnar, rwyf am ddefnyddio fy nghyllideb gyfalaf fy hun y flwyddyn nesaf i gefnogi prosiectau blaenoriaeth eraill lle mae angen dirfawr am

welcome further conversations with the Member to discuss projects in his own constituency in that context.

**Russell George:** Minister, the standard of school toilets has been a long-term problem in Welsh schools. The Children's Commissioner for Wales, Keith Towler, has repeatedly raised this issue. Earlier this year, we saw the publication of best practice non-statutory guidance for school toilets in primary and secondary schools, and that was a welcome step. Can you provide us with an update on what you are doing, working with local authorities, school governors and headteachers, to ensure the widespread implementation of that guidance? I am sure that you will agree that good access and well-maintained school toilets is a very important issue.

**Leighton Andrews:** It is an important issue and it is often one of the biggest issues that young people themselves raise through their school council meetings, whether in primary or secondary schools. The Member is right to say that the children's commissioner has highlighted this issue. We publish the guidance, and it is now down to local authorities to ensure that they are compliant in following that guidance and implementing whatever changes may be necessary.

**Christine Chapman:** I recently attended the topping out ceremony of the new £11.5 million Abercynon Community Primary School, which is a very welcome investment in the future education of children from the local community. Do you agree that it is critical that we provide our children with inspirational and aspirational learning environments? That being the case, will you continue to invest in our Welsh schools, which is an approach that stands in sharp contrast to the short-sightedness of the UK Government?

**Leighton Andrews:** As my colleague the Member for Cynon Valley will be well aware, the UK Government has cut our own

fuddsoddiad cyfalaf i ymdrin â chyflwr gwael adeiladau ysgolion. Felly, byddwn yn croesawu sgysiau pellach gyda'r Aelod i drafod prosiectau yn ei etholaeth ei hun yn y cyd-destun hwnnw.

**Russell George:** Weinidog, mae safon toiledau mewn ysgolion wedi bod yn broblem hirdymor yn ysgolion Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, wedi codi'r mater hwn droeon. Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd canllawiau arfer gorau anstatudol ar gyfer toiledau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac roedd hynny i'w groesawu. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr hyn rydych yn ei wneud, gan weithio gydag awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid, i sicrhau bod y canllawiau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol? Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod mynediad da a sicrhau bod toiledau mewn ysgolion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol yn fater pwysig iawn.

**Leighton Andrews:** Mae'n fater pwysig ac mae'n aml yn un o'r materion mwyaf a godir gan bobl ifanc eu hunain drwy gyfarfodydd cyngor yr ysgol, boed hynny mewn ysgolion cynradd neu uwchradd. Mae'r Aelod yn llygad ei le wrth ddweud bod y comisiynydd plant wedi tynnu sylw at y mater hwn. Ni sy'n cyhoeddi'r canllawiau, a chyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio drwy ddilyn y canllawiau hynny a rhoi pa bynnag newidiadau sydd eu hangen ar waith.

**Christine Chapman:** Yn ddiweddar, euthum i seremoni cwblhau Ysgol Gynradd Gymunedol newydd Abercynon, a oedd yn brosiect gwerth £11.5 miliwn, sy'n fuddsoddiad i'w groesawu'n fawr yn addysg plant o'r gymuned leol yn y dyfodol. A gytunwch ei bod yn hanfodol ein bod yn darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig ac uchelgeisiol i'n plant? Os felly, a fyddwch yn parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion yng Nghymru, sy'n ymagwedd gwbl groes i ddiffyg gweledigaeth Llywodraeth y DU?

**Leighton Andrews:** Fel y bydd fy nghyd-Aelod dros Gwm Cynon yn ymwybodol, mae Llywodraeth y DU wedi torri ein cyllidebau



capital budgets very significantly, by around 40% over the period of this comprehensive spending review. However, there has been no stopping of investment in schools here in Wales. We have ensured that all funding commitments have been honoured, such as the investment in Abercynon, and we have provided surety of a long-term capital programme for the first wave of investment in twenty-first century schools, which I announced last December. That means that all 22 local authorities will receive a portion of Welsh Government grant support of some £700 million in that first wave of investment. I have asked my officials to work closely with local authorities to identify projects that can be accelerated earlier than planned and, as a result, funding of some additional £15 million has been secured to support priority projects a year earlier than the original programme start date.

cyfalaf yn sylweddol iawn, o tua 40% dros gyfnod yr adolygiad cynhwysfawr hwn o wariant. Fodd bynnag, ni fu terfyn ar fuddsoddi mewn ysgolion yma yng Nghymru. Rydym wedi sicrhau yr anrhydeddwyd yr holl ymrwymadau cyllido, megis y buddsoddiad yn Abercynon, ac rydym wedi rhoi sicrwydd drwy raglen gyfalaf hirdymor ar gyfer y don gyntaf o fuddsoddiad mewn ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a gyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf. Mae hynny'n golygu y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cael cyfran o gymorth grant Llywodraeth Cymru, sy'n werth tua £700 miliwn fel rhan o'r don gyntaf honno o fuddsoddiad. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio'n agos ag awdurdodau lleol i nodi prosiectau y gellir eu rhoi ar waith yn gynt na'r disgwyl ac, o ganlyniad, sicrhawyd tua £15 miliwn ychwanegol i gefnogi prosiectau blaenoriaeth flwyddyn yn gynharach na dyddiad dechrau gwreiddiol y rhaglen.

### Blaenoriaethau

**5. Paul Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0189(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn wedi eu nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Paul Davies:** Rwy'n siŵr mai un o flaenoriaethau'r Gweinidog yw sicrhau bod y rhaglenni a'r cyrsiau cywir yn cael eu darparu yn ein hystafelloedd dosbarth. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o adroddiad diweddar Ymgyrch Tarian a ddaeth i'r casgliad bod cyffuriau hamdden fel mephedrone yn fwy na dwywaith mor gyffredin yng Nghymru o'i gymharu â 12 mis yn ôl, er enghraifft. Yn ddiweddar, cysylltodd etholwr â mi sy'n edrych i gyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth cyffuriau i ysgolion yn sir Benfro, ond yn anffodus ni all wneud hynny oherwydd diffyg ariannu. A all y Gweinidog ddweud wrthym ba raglenni ymwybyddiaeth cyffuriau sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno i ysgolion ledled Cymru er mwyn addysgu disgyblion am beryglon a risgiau cymryd cyffuriau?

### Priorities

**5. Paul Davies:** *Will the Minister make a statement on his priorities for the remainder of the Fourth Assembly. OAQ(4)0189(ESK)*

**Leighton Andrews:** My priorities for the remainder of this Assembly term are set out in the programme for government.

**Paul Davies:** I am sure that one of the Minister's priorities is to ensure that the correct programmes and courses are provided in our classrooms. The Minister will be aware of the recent report by Operation Tarian that came to the conclusion that recreational drugs such as mephedrone are more than twice as common in Wales as they were 12 months ago, for example. Recently, I was contacted by a constituent who is looking to introduce a drug awareness programme in schools in Pembrokeshire, but unfortunately he cannot do that because of a lack of funding. Can the Minister tell us which drug awareness programmes are currently being introduced in schools across Wales in order to educate pupils about the dangers and risks of taking drugs?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cefnogi rhaglenni gyda'r heddlu yng Nghymru, i gyfeirio at y pwynt sy'n cael ei wneud gan yr Aelod. Os oes problemau ganddo yn sir Benfro, rwy'n awgrymu ei fod yn ysgrifennu ataf a byddaf yn hapus i ystyried y pwnc.

**Rhodri Glyn Thomas:** A fydddech yn barod, o ran eich blaenoriaethau, i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg fel ail iaith fel pwnc o fewn y cwricwlwm? A ydych yn cytuno ei bod yn annerbyniol bod disgyblion yn gallu mynd drwy'r ysgol uwchradd yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith heb sefyll arholiad, heb ennill unrhyw gymhwyster, a heb feithrin fawr o sgiliau yn yr iaith neu fagu unrhyw hyder i'w defnyddio? A wnewch ystyried ei gosod fel pwnc craidd o fewn y cwricwlwm fel bod y buddsoddiad hwnnw yn sicrhau bod disgyblion yn meddu sgiliau o ran y ddwy iaith yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** Rwyf yn barod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried pwnc y Gymraeg fel ail iaith. Rwy'n disgwyl derbyn ei adroddiad y flwyddyn nesaf.

**Leighton Andrews:** We have supported programmes with the police in Wales, to refer to the point being made by the Member. If he has encountered any problems in Pembrokeshire, I suggest that he writes to me and I will be happy to consider the point.

**Rhodri Glyn Thomas:** Would you be willing, as regards your priorities, to consider the position of Welsh as a second language as a subject within the curriculum? Do you agree that it is unacceptable that pupils are able to go through secondary school studying Welsh as a second language without having to sit an exam, without gaining a qualification and without developing language skills or any confidence in using the language? Will you consider making it a core subject within the curriculum so that that investment ensures that pupils possess skills in both languages in Wales?

**Leighton Andrews:** I have already established a task and finish group to consider the issue of Welsh as a second language. I expect to receive its report next year.

1.45 p.m.

**Aled Roberts:** Minister, during your evidence to the Children and Young People Committee on 18 October, you outlined concerns that you had about the quality of spending plans that have been handed into the department by local authorities and schools with regard to the pupil deprivation grant; you referred to them as being 'weak'. Have the regional consortia carried out any quality assurance of the plans prior to their submission and are you now satisfied with the standards of plans that have been received by your department?

**Leighton Andrews:** The Member is aware that we were not satisfied with the plans that were first submitted to us. I am not sure that I necessarily see it as a role for the regional consortia to get into the detail of the spending plans for the pupil deprivation grant. I would expect local authorities to develop coherently, with their local schools, precisely how that money will be spent. As a local Assembly Member, I have written to all the schools in my constituency to ask how they

**Aled Roberts:** Weinidog, yn ystod eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 18 Hydref, gwnaethoch amlinellu pryderon a oedd gennych o ran ansawdd y cynlluniau gwariant a gyflwynwyd i'r adran gan awdurdodau lleol ac ysgolion o ran y grant amddifadedd disgyblion; nodwyd gennych eu bod yn 'wan'. A yw'r consortia rhanbarthol wedi ymgymryd ag unrhyw waith i sicrhau ansawdd y cynlluniau cyn eu cyflwyno ac a ydych yn awr yn fodlon ar safon y cynlluniau y mae eich adran wedi'u derbyn?

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod yn ymwybodol nad oeddem yn fodlon ar y cynlluniau a gyflwynwyd inni gyntaf. Nid wyf o reidrwydd yn cytuno mai rôl y consortia rhanbarthol yw ystyried manylion y cynlluniau gwariant ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol ddatblygu sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei wario mewn ffordd gydlynus, gyda'u hysgolion lleol. Fel Aelod Cynulliad lleol, rwyf wedi ysgrifennu at bob

are now putting that money into operation. I know that other Members have also done so, including my colleague the Member for the Vale of Clwyd, I think. So, I would encourage Members to follow through directly with schools to see how that money is being spent, but we will obviously monitor the plans from local authorities.

**Aled Roberts:** You will be aware of the article in the *Times Educational Supplement* last week regarding problems and we have a debate scheduled this afternoon on the regional consortia. Are you satisfied with the progress that has been made, given that they were supposed to be effective from September and that it is quite clear that a number of posts within each consortium remain unfilled?

**Leighton Andrews:** I am satisfied up to a point. However, these are consortia of local authorities and it is for them to get it right.

**Angela Burns:** Minister, you were talking about your future priorities and I know that you are looking at a Masters programme and at reviewing teacher training qualifications. Can you give us an idea as to whether you are looking in anyway now at how we might encourage more business people or people from other backgrounds into the teaching profession to bring their strengths to the existing strengths in the profession, or will you leave thoughts on that until a Masters programme has been looked at?

**Leighton Andrews:** The Masters programme has been highly successful. There has been huge enthusiasm for it. We have seen that from newly qualified teachers. We are seeing mentors coming through to support them as well, and that is an important element. We have also consulted on the qualifications around literacy and numeracy for new teachers and we are reviewing initial teacher training provision. We would certainly want to encourage people from all kinds of backgrounds into teaching, including people from business, but also people from the armed forces and others who may wish to make career changes. We are open to

ysgol yn fy etholaeth i ofyn sut y maent yn awr yn rhoi'r arian hwnnw ar waith. Gwn fod Aelodau eraill hefyd wedi gwneud hynny, gan gynnwys fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, credaf. Felly, byddwn yn annog Aelodau i gysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion i weld sut mae'r arian hwnnw yn cael ei wario, ond byddwn yn amlwg yn monitro'r cynlluniau gan awdurdodau lleol.

**Aled Roberts:** Byddwch yn ymwybodol o'r erthygl yn y *Times Educational Supplement* yr wythnos diwethaf ynghylch problemau ac rydym wedi trefnu dadl y prynhawn yma ar y consortia rhanbarthol. A ydych yn fodlon ar y cynnydd a wnaed, o ystyried bod disgwyl iddynt fod yn weithredol o fis Medi a'i bod yn gwbl amlwg bod nifer o swyddi o fewn pob consortiwm yn parhau heb eu llenwi?

**Leighton Andrews:** Rwy'n fodlon i ryw raddau. Fodd bynnag, consortia o awdurdodau lleol ydynt a'u cyfrifoldeb hwy yw gwneud pethau'n iawn.

**Angela Burns:** Weinidog, roeddech yn sôn am eich blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a gwn eich bod yn ystyried rhaglen Meistr a'r posibilrwydd o adolygu cymwysterau hyfforddi athrawon. A allwch roi syniad inni o ran pa un a ydych wrthi'n ystyried mewn unrhyw ffordd sut y gallwn annog mwy o bobl fusnes neu bobl o gefndiroedd eraill i ymuno â'r proffesiwn addysgu er mwyn cyfuno eu cryfderau hwy â chryfderau presennol y proffesiwn, neu a fyddwch yn gadael y mater hwnnw hyd nes y byddwch wedi ystyried rhaglen Meistr?

**Leighton Andrews:** Mae'r rhaglen Meistr wedi bod yn hynod lwyddiannus. Bu brwdfrydedd mawr tuag ati. Rydym wedi gweld hynny gan athrawon newydd gymhwyso. Rydym yn gweld mentoriaid yn dod i'w cefnogi hefyd, ac mae hynny'n elfen bwysig. Rydym hefyd wedi ymgynghori ar y cymwysterau sy'n seiliedig ar lythrennedd a rhifedd i athrawon newydd ac rydym yn adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon. Byddem yn sicr am annog pobl o bob math o gefndiroedd i ymuno â'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys pobl o fyd busnes, ond hefyd pobl o'r lluoedd arfog a phobl eraill a allai fod yn awyddus i

discussions on any suggestions Members might have as to how we do that.

**Angela Burns:** Staying with the Masters programme, do you have any views or have you asked officials to look at what element or weight might be given in the Masters programme to ensuring that people who undertake it have more experience in psychology, sociology, the managing of classrooms and the ability to draw the best out of children and students? An awful lot of people who go into teacher training are very young and, when they get to the Masters programme, one of the big benefits would be to give them the strength and certainty that they can control and encourage children in great numbers.

**Leighton Andrews:** I have explained in the past that the elements within the Masters programme are very much focused on practical experience. They include such things as literacy and numeracy, behaviour management and identification of additional learning needs, which will include those pupils who are more gifted and talented. So, all of those things to which the Member referred are addressed in the curriculum of the Masters programme.

### Consortia Addysg

**6. Lindsay Whittle:** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am gonsortia addysg yn ne ddwyrain Cymru. OAQ(4)0194(ESK)*

**Leighton Andrews:** My officials and I continue to engage with each consortium regularly on their plans to work collaboratively to raise education standards. Progress is reported to me via my regular meetings with the Welsh Local Government Association and its education spokesperson.

**Lindsay Whittle:** Minister, there have been some problems with regard to proposed education consortia, particularly with universities in the south-east perhaps, but recently problems have come to light at the local authority level too. What actions have

newid gyrfa. Rydym yn ddigon parod i ni drafod unrhyw awgrymiadau a allai fod gan yr Aelodau ynglŷn â sut y gellid gwneud hynny.

**Angela Burns:** Gan aros gyda'r rhaglen Meistr, a oes gennych unrhyw farn neu a ydych wedi gofyn i swyddogion edrych ar ba elfen neu bwysau y gellid eu rhoi, fel rhan o'r rhaglen Meistr, ar sicrhau bod gan bobl sy'n ei dilyn fwy o brofiad ym maes seicoleg, cymdeithaseg, rheoli ystafelloedd dosbarth a'r gallu i gael y gorau allan o blant a myfyrwyr? Mae cyfran helaeth o'r bobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant athrawon yn ifanc iawn a, phan fyddant ar y rhaglen Meistr, un o'r buddiannau pennaf fyddai rhoi'r cryfder a'r sicrwydd iddynt y gallant reoli ac annog plant mewn niferoedd mawr.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi egluro yn y gorffennol bod yr elfennau o fewn y rhaglen Meistr yn canolbwyntio i raddau helaeth ar brofiad ymarferol. Maent yn cynnwys pethau megis llythrennedd a rhifedd, rheoli ymddygiad a nodi anghenion dysgu ychwanegol, a fydd yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n fwy abl a thalentog. Felly, ymdrinnir â phob un o'r pethau hynny y cyfeiriodd yr Aelod atynt yng nghwricwlwm y rhaglen Meistr.

### Education Consortia

**6. Lindsay Whittle:** *What discussions has the Minister had with regard to education consortia in south east Wales. OAQ(4)0194(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae fy swyddogion a minnau'n parhau i ymgysylltu â phob consortiwm yn rheolaidd ar eu cynlluniau i gydweithredu er mwyn gwella safonau addysg. Caf adroddiadau ar gynnydd drwy fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i llefarydd addysg.

**Lindsay Whittle:** Weinidog, bu rhai problemau o ran y consortia addysg arfaethedig, yn enwedig gyda phrifysgolion yn y de-ddwyrain o bosibl, ond yn ddiweddar daeth problemau i'r amlwg ar lefel awdurdodau lleol hefyd. Pa gamau a

you taken to try to rectify the problem of 2,400 laptops sitting unused at a significant cost to the taxpayer? Why did you agree to part-fund the purchase of those laptops for schools in the south-east when there were clearly not enough local authorities on board to participate?

**Leighton Andrews:** I do not think that the Member has quite got the situation right. An initial proposal for funding was brought to us in June 2010. The plan was eventually approved in January 2011, with approval given to Torfaen in February. The original plan involved three local authorities, I think, but we were advised in August 2011 by Torfaen that Newport had withdrawn from the project. There was an attempt subsequently to engage another local authority in that project. Those negotiations were quite advanced until a couple of months ago when the authority in question withdrew. We are now engaging actively with Torfaen in trying to ensure that those laptops are put to good use for young people.

**William Graham:** The Minister will be well aware that the 2009 Programme for International Student Assessment results showed education in Wales in a very poor light. Estyn has yet to find an excellent authority in Wales. The first six reports identified four authorities as satisfactory and placed two in special measures. How can the Minister assure us that the new consortia are doing their best to ensure that secondary schools are kept out of the lowest tier of his own Government's banding system?

**Leighton Andrews:** We invested in schools in bands 4 and 5 and we are currently looking at the summer results to see what the impact of that investment has been. Early indications are that there has been progress among a significant proportion of schools in bands 4 and 5 in relation to their results.

gymerwyd gennych i geisio datrys y broblem bod 2,400 o liniaduron yn eistedd yn segur ar gost sylweddol i'r trethdalwr? Pam y gwnaethoch gytuno i ran-ariannu cost prynu'r gliniaduron hynny i ysgolion yn y de-ddwyrain pan oedd yn amlwg nad oedd digon o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gymryd rhan?

**Leighton Andrews:** Ni chredaf fod yr Aelod wedi llawn ddeall y sefyllfa. Cyflwynwyd cynnig cychwynnol am arian ger ein bron ym mis Mehefin 2010. Cymeradwywyd y cynllun yn y pen draw ym mis Ionawr 2011, a rhoddwyd cymeradwyaeth i Dor-faen ym mis Chwefror. Roedd y cynllun gwreiddiol yn cynnwys tri awdurdod lleol, credaf, ond fe'n hysbyswyd ym mis Awst 2011 gan Dorfaen fod Casnewydd wedi tynnu'n ôl o'r prosiect. Ymdrechwyd wedi hynny i gynnwys awdurdod lleol arall yn y prosiect hwnnw. Roedd y trafodaethau hynny ar gam cymharol ddatblygedig tan ychydig fisoedd yn ôl pan dynnodd yr awdurdod dan sylw yn ôl. Rydym bellach wrthi'n ymgysylltu â Thor-faen i geisio sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o'r gliniaduron ar gyfer pobl ifanc.

**William Graham:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn bod canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2009 yn rhoi argraff wael iawn o addysg yng Nghymru. Nid yw Estyn wedi llwyddo hyd yma i ddod o hyd i awdurdod ardderchog yng Nghymru. Nododd y chwe adroddiad cyntaf fod pedwar awdurdod yn foddhaol a gwnaed dau ohonynt yn destun mesurau arbennig. Sut y gall y Gweinidog ein sicrhau bod y consortia newydd yn gwneud eu gorau i sicrhau na fydd ysgolion uwchradd yn cael eu rhoi yn haen isaf system fandiio ei Lywodraeth ef ei hun?

**Leighton Andrews:** Rydym yn buddsoddi mewn ysgolion sydd ym mandiau 4 a 5 ac rydym yn ystyried canlyniadau'r haf ar hyn o bryd er mwyn canfod effaith y buddsoddiad hwnnw. Dengys arwyddion cynnar y bu cynnydd ymhlith cyfran sylweddol o ysgolion ym mandiau 4 a 5 mewn perthynas â'u canlyniadau.

**Hyfforddi Llywodraethwyr Ysgol**

**School Governor Training**

**7. Lindsay Whittle:** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch hyfforddi llywodraethwyr ysgol yn Nhorfaen. OAQ(4)0193(ESK)*

**Leighton Andrews:** We have established stakeholder groups to discuss the scope and content of the new mandatory training provisions I am bringing into force. The governor support officer from Torfaen was a member of one of the groups.

**Lindsay Whittle:** The consultation on the compulsory training of school governors closed on 10 July. Certain training is now mandatory and the Party of Wales welcomes the Welsh Government's proposals because the training will give school governors in Torfaen the skills, knowledge and confidence that they need to carry out this very important job. It is stated on the Welsh Government website that:

'Subject to the outcome of the consultation it is proposed that the regulations will come into force in October 2012.'

Minister, when will you be publishing the outcome of the consultation?

**Leighton Andrews:** The Member will be aware that during the course of the One Wales Government we put the Education (Wales) Measure 2011 through, which allowed us to introduce the regulations for mandatory training for governors on certain topics. Several local authorities already operate a process of providing training for governors, but I will ensure that the full results of the consultation are available to Members.

**Mohammad Asghar:** Minister, I think that you have already partly answered my question. However, with regard to Fairwater High School in Cwmbran, Torfaen County Borough Council initially applied to remove the school governing body and subsequently withdrew the application, which demonstrates the importance of training to provide governors with a clear understanding of their role and responsibilities. What is the Minister doing to ensure that high standards of training for school governors are

**7. Lindsay Whittle:** *What discussions has the Minister had regarding the training of school governors in Torfaen. OAQ(4)0193(ESK)*

**Leighton Andrews:** Rydym wedi sefydlu grwpiau rhanddeiliaid i drafod cwmpas a chynnwys y darpariaethau hyfforddiant gorfodol newydd yr wyf yn eu rhoi ar waith. Roedd swyddog cymorth i lywodraethwyr Tor-faen yn aelod o un o'r grwpiau.

**Lindsay Whittle:** Daeth yr ymgynghoriad ar hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr ysgol i ben ar 10 Gorffennaf. Mae elfennau hyfforddiant penodol bellach yn orfodol ac mae Plaid Cymru yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru gan y bydd yr hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar lywodraethwyr ysgol yn Nhor-faen i gyflawni'r gwaith pwysig iawn hwn. Nodir ar wefan Llywodraeth Cymru:

'Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, y gobaith yw y daw'r rheoliadau i rym ym mis Hydref 2012.'

Weinidog, pryd y byddwch yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad?

**Leighton Andrews:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol inni gyflwyno Mesur Addysg (Cymru) 2011 fel rhan o Lywodraeth Cymru'n Un, a oedd yn caniatáu inni gyflwyno'r rheoliadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr ar bynciau penodol. Mae gan sawl awdurdod lleol broses ar waith eisoes lle y darperir hyfforddiant i lywodraethwyr, ond byddaf yn sicrhau bod canlyniadau llawn yr ymgynghoriad ar gael i'r Aelodau.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, credaf eich bod eisoes wedi ateb fy nghwestiwn yn rhannol. Fodd bynnag, o ran Ysgol Uwchradd Fairwater yng Nghwmbbrân, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen gais yn wreiddiol i ddiddymu corff llywodraethu'r ysgol ond tynnwyd y cais hwnnw yn ôl, sy'n dangos pwysigrwydd hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gan lywodraethwyr dealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau y caiff safonau uchel eu cynnal o ran hyfforddiant i

maintained across local authorities in Wales to deliver consistent, efficient and effective school governance?

**Leighton Andrews:** Llywydd, I answered that question in my previous answer.

### Rheoleiddwyr Arholiadau

**8. Simon Thomas:** *Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda rheoleiddwyr arholiadau. OAQ(4)0200(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag Ofqual, Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Aseu, ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban—y rheoleiddwyr arholiadau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r trafodaethau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chymwysterau.

**Simon Thomas:** Minister, on 29 August 2012 your director of education wrote to the exam regulator in England, Ofqual, stating explicitly that it was agreed that, for GCSE English and English language only, WJEC would report against the key stage 2 predictors. This decision is the decision you described in a statement to this Chamber as failing the pupils of Wales. If, in a letter on 29 August, your director can admit that this decision was initially taken by your Government, why can you not admit it to the Chamber?

**Leighton Andrews:** The Member, I am afraid, is taking that out of context. We published a full report, I would remind him, on this issue on 10 September, and we adopted an approach of the regrading of GCSE English language, which he supported. I will be giving evidence in full on this subject tomorrow to a committee of the National Assembly, and I will give the full background to the entire issue.

**Simon Thomas:** I thank the Minister for his reply. He will know that the e-mail trail and the responses to freedom of information

lywodraethwyr ysgol ymhob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau y caiff ysgolion eu llywodraethu mewn ffordd gyson, effeithlon ac effeithiol?

**Leighton Andrews:** Lywydd, atebais y cwestiwn hwnnw yn fy ateb blaenorol.

### Exam Regulators

**8. Simon Thomas:** *What recent discussions has the Welsh Government had with exam regulators. OAQ(4)0200(ESK)*

**Leighton Andrews:** Welsh Government officials have regular discussions with Ofqual, the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment, and the Scottish Qualifications Authority—the examinations regulators in England, Northern Ireland and Scotland. Discussions cover a range of qualifications issues.

**Simon Thomas:** Weinidog, ar 29 Awst 2012, ysgrifennodd eich cyfarwyddwr addysg at y rheoleiddiwr arholiadau yn Lloegr, Ofqual, gan ddatgan yn eglur, ar gyfer TGAU Saesneg a Saesneg iaith yn unig, y cytunwyd y byddai CBAC yn adrodd yn erbyn rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2. Dyma'r penderfyniad a ddisgrifiwyd gennych mewn datganiad i'r Siambr hon fel penderfyniad a oedd yn methu disgyblion Cymru. Os gall eich cyfarwyddwr, mewn llythyr ar 29 Awst, gyfaddef mai eich Llywodraeth chi a wnaeth y penderfyniad hwn i ddechrau, pam na allwch chi gyfaddef hynny i'r Siambr?

**Leighton Andrews:** Mae arnaf ofn fod yr Aelod yn tynnu hynny allan o gyd-destun. Hoffwn ei atgoffa ein bod wedi cyhoeddi adroddiad llawn ar y mater hwn ar 10 Medi, gan fabwysiadu dull gweithredu o ailraddio TGAU Saesneg iaith, a gefnogwyd ganddo. Byddaf yn rhoi tystiolaeth llawn ar y pwnc hwn yfory i un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, a byddaf yn nodi cefndir llawn y mater cyfan.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod bod y llwybr e-bost a'r ymatebion i'r ceisiadau rhyddid

requests that I have received show clearly that his Government was in agreement with Ofqual's take on the GCSE up until it decided to revise that decision. I support that, but I do not support the initial decision by his department to agree with using key stage 2 predictors. Further to that, where does this leave the qualifications system in Wales? On 7 September the head of WJEC wrote to the Minister's department saying that implementing changes for Wales alone would create a split standard for WJEC's qualification that would seriously damage the integrity of the qualification. As we now have that split standard, what is his view of the integrity of the qualification in Wales?

**Leighton Andrews:** I regard the GCSE qualification in Wales as having considerable integrity and I am glad that my colleague the Minister for education in Northern Ireland regards GCSEs as having considerable integrity and quality as well. I dispute the conclusion of the Member and tomorrow at the committee I will give a full account, including the content of e-mails between my department and Ofqual, of what was actually agreed. I am afraid the Member will have to wait until then, but he may be rather surprised by the outcome, because it will challenge to a degree what he has just said.

In respect of qualifications overall, he is well aware that we have a qualifications review under way that is due to report at the end of this month, and, when we receive that report, we will decide how to take matters forward.

### Cymraeg fel Ail Iaith

**9. Simon Thomas:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysgu Cymraeg fel ail iaith. OAQ(4)0192(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae angen gwella safonau dysgu ac addysgu Cymraeg ail iaith. Yn ddiweddar, cyhoeddais gynllun i wella safonau Cymraeg ail iaith ac mae'r cynllun eisoes yn cael ei weithredu. Ymhlith camau

gwybodaeth a gefais yn dangos yn glir bod ei Lywodraeth wedi cytuno â safbwynt Ofqual o ran y TGAU hyd nes iddi benderfynu newid y penderfyniad hwnnw. Rwy'n cefnogi hynny, ond nid wyf yn cefnogi'r penderfyniad cychwynnol gan ei adran i gytuno i ddefnyddio rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2. At hynny, beth mae hyn yn ei olygu i'r system cymwysterau yng Nghymru? Ar 7 Medi, ysgrifennodd pennaeth CBAC at adran y Gweinidog yn dweud y byddai rhoi newidiadau ar waith i Gymru yn unig yn creu safon ddeuran i gymhwyster CBAC a fyddai'n cael effaith andwyol ddifrifol ar uniondeb y cymhwyster. Gan fod y safon ddeuran honno bellach ar waith, beth yw ei farn am uniondeb y cymhwyster yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** Rwyf o'r farn fod gan y cymhwyster TGAU yng Nghymru gryn uniondeb ac rwy'n falch fod fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Addysg yng Ngogledd Iwerddon, o'r farn bod gan gymwysterau TGAU gryn uniondeb ac ansawdd hefyd. Rwy'n anghytuno â chasgliad yr Aelod ac yfory yn y pwyllgor, byddaf yn rhoi adroddiad llawn, gan gynnwys yr hyn a nodwyd mewn negeseuon e-bost rhwng fy adran ac Ofqual, o ran yr hyn y cytunwyd arno mewn gwirionedd. Yn anffodus, bydd yn rhaid i'r Aelod aros tan hynny, ond efallai y caiff ei synnu braidd gan y canlyniad, gan y bydd yn herio i raddau yr hyn y mae newydd ei ddweud.

O ran cymwysterau yn gyffredinol, mae'n ymwybodol iawn bod adolygiad cymwysterau yn mynd rhagddo ac y disgwylir i'r adolygiad hwnnw gyflwyno adroddiad ddiweddedd y mis, a, phan ddaw'r adroddiad hwnnw i law, byddwn yn penderfynu sut i weithredu.

### Welsh as a Second Language

**9. Simon Thomas:** *Will the Minister make a statement on the teaching of Welsh as a second language. OAQ(4)0192(ESK)*

**Leighton Andrews:** Standards of teaching and learning in Welsh second language need to improve. I recently announced a plan to improve standards in Welsh as a second language and the plan is being implemented.



gweithredu eraill, mae'r cynllun yn cynnwys adolygiad allanol o Gymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Fel rhywun sydd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith—a chithau, Weinidog, yn croesi'r bont o ran dysgu Cymraeg fel ail iaith—rwy'n croesawu'r tasglu rydych wedi ei sefydlu a chylch gorchwyl y tasglu hwnnw. Beth bynnag, fel dywedodd fy nghyfaill Rhodri Glyn Thomas yn gynharach, mae cymaint o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg fel ail iaith nad ydynt llwyddo magu sgiliau yn yr iaith o gwbl. A allech chi roi eich bys ar y broblem yn y system ac esbonio pam rydym yn gwario cymaint o amser ac arian yn addysgu Cymraeg fel ail iaith gyda chyn lleied o gynnydd ymysg disgyblion Cymru?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi sefydlu grŵp i edrych ar y mater. Y bore yma, roeddwn yng nghyfarfod cyntaf y grŵp sy'n fy nghynghori fel Gweinidog ar y strategaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwy'n hapus i ddweud wrth Aelodau bod y trafodaethau wedi dechrau'n dda iawn, ac rwy'n hapus i gwrdd â'r aelodau. Rwy'n gobeithio y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn gwneud argymhellion i wella'r sefyllfa yn y dyfodol agos.

**Suzy Davies:** Like my colleagues, Minister, I have received concerns from a number of sources about the effectiveness of the teaching of Welsh as a second language, and in particular the short GCSE. We could be more ambitious for Welsh second language teaching if language learning could be brought into children's comfort zone at a much earlier age. Do you agree that primary schools could reproduce for all children the advantage that children from multilingual households, and not necessarily Welsh-speaking households, already have?

2.00 p.m.

**Leighton Andrews:** I have said before in the Chamber that the issue that must be considered is this: to expand the range of foreign-language qualifications into primary schools, you would have to tell me which

Among other actions, the plan includes an external review of Welsh as a second language at key stages 3 and 4.

**Simon Thomas:** I would like to thank the Minister for his statement. As someone who has learned Welsh as a second language—and you, Minister, are crossing the bridge in terms of learning Welsh as a second language—I welcome the taskforce that you have established and the remit of that taskforce. However, as my colleague Rhodri Glyn Thomas said a little earlier, there are so many pupils learning Welsh as a second language who do not develop any skills in the language whatsoever. Can you put your finger on the problem here and explain to us why we are spending so much time and money teaching Welsh as a second language with such little progress among Welsh pupils?

**Leighton Andrews:** We have established a group to look at the matter. This morning, I attended the first meeting of the group that is advising me as Minister on the Welsh-medium education strategy, and I am happy to tell Members that the discussions started very well, and I am happy to meet with the members. I hope that the task and finish group will make recommendations to improve the situation in the near future.

**Suzy Davies:** Fel fy nghyd-Aelodau, Weinidog, rwyf wedi derbyn pryderon gan nifer o ffynonellau am effeithiolrwydd y broses o addysgu Cymraeg fel ail iaith, ac yn arbennig y cymwysterau TGAU byr. Gallem fod yn fwy uchelgeisiol o ran addysgu Cymraeg ail iaith pe gellid cyflwyno'r broses o ddysgu iaith i blant ar oedran iau o lawer gan sicrhau eu bod yn gyfforddus â'r broses honno. A gytunwch y gallai ysgolion cynradd atgynhyrchu'r budd sydd eisoes gan blant o gartrefi amlieithog, ac nid o reidrwydd aelwydydd Cymraeg, i bob plentyn?

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr bod yn rhaid ystyried y mater canlynol: er mwyn ehangu'r amrywiaeth o gymwysterau ieithoedd tramor i ysgolion cynradd, byddai'n rhaid ichi

priority languages you would seek to determine. It seems to me that the real issue would be the capacity to teach a wider range of languages in primary school, and that would require prioritisation.

**The Presiding Officer:** Question 10, OAQ(4)0199(ESK), has been transferred for written answer.

### Asbestos mewn Adeiladau Ysgolion

**11. William Graham:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel yr asbestos mewn adeiladau ysgol. OAQ(4)0198(ESK)*

**Leighton Andrews:** I have asked all authorities to undertake a review of their plans and submit their updated asbestos management plans to me. Responses show that local authorities are undertaking their statutory duties appropriately and that there are robust procedures in place for the management of asbestos in school buildings.

**William Graham:** Thank you for your reassuring answer, Minister. Will you join me in calling on the Welsh Government to support the Right to Know: Asbestos in Schools Wales campaign, which is calling for the establishment of a voluntary online school asbestos database for Wales?

**Leighton Andrews:** What we first need to do is review in detail the responses received from local authorities. There are some authorities that we feel we need to revisit to seek further information. We know that each authority has an asbestos management plan in place and, as far as we can tell from the evidence so far submitted, there are appropriate procedures in place in line with current legislation. The plans also confirm that there are strict guidelines in place to ensure adherence to existing legislation, especially in relation to building repair and maintenance works, and that appropriate training is in place. As I said in answer to the Liberal Democrat Member for South Wales West, I will be happy to publish a further written statement to Members and to take further question in due course.

ddweud wrthyf pa ieithoedd blaenoriaeth y byddech am eu cyflwyno. Ymddengys i mi mai'r broblem wirioneddol fyddai'r capasiti i addysgu amrywiaeth ehangach o ieithoedd mewn ysgolion cynradd, a byddai angen blaenoriaethu hynny.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 10, OAQ(4)0199(ESK), i'w ateb yn ysgrifenedig.

### Asbestos in School Buildings

**11. William Graham:** *Will the Minister make a statement on the level of asbestos in school buildings. OAQ(4)0198(ESK)*

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi gofyn i bob awdurdod gynnal adolygiad o'u cynlluniau a chyflwyno eu cynlluniau rheoli asbestos diweddaraf imi. Dengys yr ymatebion fod awdurdodau lleol yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn briodol a bod gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer rheoli asbestos mewn adeiladau ysgolion.

**William Graham:** Diolch ichi am yr ateb calonogol hwnnw, Weinidog. A ymunwch â mi i alw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ymgyrch Right to Know: Asbestos in Schools Wales, sy'n galw am sefydlu cronfa ddata wirfoddol ar-lein i Gymru mewn perthynas ag asbestos mewn ysgolion?

**Leighton Andrews:** Yr hyn sydd angen inni ei wneud yn gyntaf yw cynnal adolygiad manwl o'r ymatebion a gafwyd gan awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau o'r farn bod angen inni ofyn am ragor o wybodaeth. Gwyddom fod gan bob awdurdod gynllun rheoli asbestos ar waith a, hyd y gallwn ddweud o'r dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma, mae gweithdrefnau priodol ar waith yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Mae'r cynlluniau hefyd yn cadarnhau bod canllawiau caeth ar waith i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth bresennol, yn enwedig o ran gwaith atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau, a bod hyfforddiant priodol ar waith. Fel y dywedais wrth ateb yr Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol dros Orllewin De Cymru, byddwn yn fwy na pharod i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i Aelodau ac i ymateb i gwestiynau pellach maes o law.

**Mick Antoniw:** The key issue that rises out of the asbestos regulations is really that of information and awareness. Will you make a statement at some stage on how that information and awareness will be dealt with by the Welsh Government?

**Leighton Andrews:** As my colleague, the Member for Pontypridd, will appreciate, what is important is that the information be provided in context. As Members will appreciate, this is a subject that can raise considerable concern at a local level, and it is important that people understand that, managed safely, asbestos is not, in context, necessarily a threat to health. The issue is what happens in the context of repairs and maintenance work, for example. We are willing to take further steps with regard to this issue, but we need to be careful about the way in which we communicate these issues publicly.

**William Powell:** Given the revelation that Caerphilly County Borough Council had been conducting only visual surveys of asbestos in its school buildings rather than full invasive surveys, how confident are you that local authorities across Wales are complying with the obligations of the Control of Asbestos at Work Regulations 2002, which require such thorough surveys?

**Leighton Andrews:** As I said in answer to an earlier question, we have had the material back and we are broadly confident—no, let me put that a bit better: we are satisfied—that local authorities are compliant. There are areas on which we would like to receive further information from one or two authorities. We will follow up on that and, as I said, I will make a further statement to Members.

#### Prentisiaethau (Gorllewin Cymru)

**12. Paul Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at brentisiaethau yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0190(ESK)*

**Mick Antoniw:** Y mater allweddol sy'n deillio o'r rheoliadau asbestos mewn gwirionedd yw gwybodaeth ac ymwybyddiaeth. A wnewch ddatganiad rywbryd ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r mater hwnnw o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth?

**Leighton Andrews:** Fel y bydd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, yn gwerthfawrogi, yr hyn sy'n bwysig yw bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn ei gyddestun. Fel y bydd yr Aelodau yn gwerthfawrogi, gall y pwnc hwn beri cryn bryder ar lefel leol, ac mae'n bwysig bod pobl yn deall nad yw asbestos, mewn cyddestun, o'i reoli yn ddiogel, o reidrwydd yn fygythiad i iechyd. Y broblem yw beth sy'n digwydd yng nghyd-destun gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, er enghraifft. Rydym yn barod i gymryd camau pellach mewn perthynas â'r mater hwn, ond mae angen inni fod yn ofalus o ran sut y caiff y materion hyn eu cyfleu i'r cyhoedd.

**William Powell:** O ystyried y datguddiad mai dim ond arolygon gweledol o asbestos roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn eu cynnal yn adeiladau ei ysgolion yn hytrach nag arolygon mewnol llawn, pa mor hyderus ydych chi fod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygon trylwyr o'r fath?

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn cynharach, rydym wedi cael y deunydd yn ôl ac rydym yn gymharol hyderus—na, gadewch imi gyfleu hynny ychydig yn well: rydym yn fodlon—bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio. Mae meysydd lle yr hoffem gael rhagor o wybodaeth gan un neu ddau awdurdod. Byddwn yn mynd ar drywydd hynny ac, fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiad arall i Aelodau.

#### Apprenticeships (West Wales)

**12. Paul Davies:** *Will the Minister make a statement on access to apprenticeships in west Wales. OAQ(4)0190(ESK)*

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** Thank you for that question. We invest approximately £90 million a year to support Welsh businesses to take on apprentices as part of our all-age programme. West Wales has two work-based learning consortia, delivering 150 apprenticeship frameworks: Pathways to Apprenticeships is running in nine sectors, supporting 446 learners; and 29% of the Young Recruits programme support is in this region.

**Paul Davies:** I am grateful to the Deputy Minister for that answer. I am sure that he agrees with me that it is important that apprenticeships be tailored to the needs of local industries. Given that Pembrokeshire is now recognised as the energy capital of the UK, it is vital for local apprenticeships to be available to equip young adults in the area with the necessary skills to enter that workforce. Will the Deputy Minister outline what the Welsh Government is doing specifically to encourage local businesses to offer apprenticeships, and what practical work is being undertaken with small businesses in particular in Pembrokeshire to deliver more apprenticeships on the ground?

**Jeff Cuthbert:** I agree with your basic scenario of the importance of apprenticeships, both to the young person involved and certainly to businesses. To support smaller businesses, we provide the Young Recruits programme, which provides a wage subsidy of £50 per week to businesses that can take on additional apprentices, and we also have the shared apprenticeship scheme, which enables smaller businesses to collaborate in order to offer the full framework to young people.

On the more general points, we will certainly be working with particular sector skills councils, such as Semta in engineering and Cogent in energy and life sciences, to ensure that our offer in any particular part of Wales is as relevant as it can be to the local economy.

**Rebecca Evans:** The Enterprise and

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Rydym yn buddsoddi tua £90 miliwn y flwyddyn i helpu busnesau yng Nghymru i gyflogi prentisiaid fel rhan o'n rhaglen pob oed. Mae dau gonsortiw dysgu seiliedig ar waith yng Ngorllewin Cymru, lle mae 150 o fframweithiau prentisiaeth ar waith: mae Llwybrau at Brentisiaethau ar waith mewn naw sector, gan gefnogi 446 o ddysgwyr; ac mae 29% o gymorth y rhaglen Recriwtiaid Ifanc wedi'i fuddsoddi yn y rhanbarth hwn.

**Paul Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr ei fod yn cytuno â mi ei bod yn bwysig bod prentisiaethau yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion diwydiannau lleol. O ystyried bod Sir Benfro bellach yn cael ei chydnabod fel prifddinas ynni'r DU, mae'n hanfodol bod prentisiaethau lleol ar gael i sicrhau bod oedolion ifanc yn yr ardal yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymuno â'r gweithlu hwnnw. A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn benodol i annog busnesau lleol i gynnig prentisiaethau, a pha waith ymarferol sy'n mynd rhagddo gyda busnesau bach yn arbennig yn Sir Benfro i ddarparu rhagor o brentisiaethau ar lawr gwlad?

**Jeff Cuthbert:** Cytunaf â'ch senario sylfaenol o ran pwysigrwydd prentisiaethau, i'r person ifanc dan sylw ac yn sicr i fusnesau. Er mwyn cefnogi busnesau llai, rydym yn cynnig y rhaglen Recriwtiaid Ifanc, sy'n rhoi cymhorthdal cyflog o £50 yr wythnos i fusnesau a all gyflogi prentisiaid ychwanegol, ac rydym hefyd yn cynnig y cynllun rhannu prentisiaeth, sy'n galluogi busnesau llai i gydweithio er mwyn cynnig y fframwaith llawn i bobl ifanc.

O ran y pwyntiau mwy cyffredinol, byddwn yn sicr yn gweithio gyda chynghorau sector sgiliau penodol, fel Semta mewn peirianeg a Cogent yn y gwyddorau ynni a bywyd, i sicrhau bod yr hyn a gynnigir gennym mewn unrhyw ran benodol o Gymru mor berthnasol â phosibl i'r economi leol.

**Rebecca Evans:** Clywodd y Pwyllgor

Business Committee heard evidence from young people in Haverfordwest who said that the cost, availability and timing of transport were barriers to their accessing apprenticeships. Will you undertake to explore with the Minister for transport how these barriers can be addressed?

**Jeff Cuthbert:** All apprentices should have employed status, so transport should not be a barrier to their being recruited into an apprenticeship. However, if there are problems delivering the apprenticeship framework, where transport is an issue, we would certainly take that up. If you are aware of specific instances, it would be very helpful if you would write to me with those.

Menter a Busnes dystiolaeth gan bobl ifanc yn Hwlfordd a ddywedodd fod cost, argaeledd ac amseroedd trafndiaeth yn eu hatal rhag ymgymryd â phrentisiaethau. A ymrwymwch i ystyried sut y gellir ymdrin â'r rhwystrau hyn gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth?

**Jeff Cuthbert:** Dylai fod gan bob prentis statws cyflogedig, felly ni ddylai trafndiaeth eu hatal rhag cael eu recriwtio i brentisiaeth. Fodd bynnag, os oes problemau o ran cynnig y fframwaith prentisiaethau, a bod trafndiaeth yn broblem, byddem yn sicr yn ymchwilio i hynny. Os ydych yn ymwybodol o achosion penodol, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ysgrifennu ataf gyda'r rheini.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Questions to the Minister for Local Government and Communities**

**The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(4)0196(LGC), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0196(LGC), yn ôl.

#### **Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf**

#### **Communities First Clusters**

**2. Mike Hedges:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am greu clystyrau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Abertawe. OAQ(4)0198(LGC)*

**2. Mike Hedges:** *Will the Minister provide an update on the creation of Communities First programme clusters in the Swansea area. OAQ(4)0198(LGC)*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank the Member for Swansea East for his question. The City and County of Swansea submitted applications for five Communities First clusters. The applications are currently being assessed and I hope to take decisions shortly.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am ei gwestiwn. Cyflwynodd Dinas a Sir Abertawe geisiadau am bum clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ceisiadau wrthi'n cael eu hasesu ar hyn o bryd a'r gobraith yw y gallaf wneud penderfyniadau yn fuan.

**Mike Hedges:** Thank you for your response, Minister. I would like to echo my support for the creation of Communities First clusters. It is a direction that will improve Communities First provision in the Swansea area as, I am sure, in the rest of Wales.

**Mike Hedges:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Hoffwn adleisio fy nghefnogaeth o blaid creu clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n gyfeiriad a fydd yn gwella'r ddarpariaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Abertawe, felly hefyd, rwy'n siŵr, yng ngweddill Cymru.

There are a number of people currently employed who are under redundancy notices. What assurances can I give them, or what assurances can be given to them, that they will know shortly whether they will be able

Mae nifer o bobl sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd sydd o dan hysbysiadau diswyddo. Pa sicrwydd y gallaf ei roi iddynt, neu pa sicrwydd y gellir ei roi iddynt, y byddant yn gwybod yn fuan pa un a fyddant yn gallu

to continue in employment?

**Carl Sargeant:** The applications have to be considered very carefully, and I have already approved some funding streams for clusters across Wales. I will consider the question that you raise. The most important part of the Communities First organisation is its staff. I recognise that, and I will take that into consideration in making my decisions for the future.

### Bil Teithio Llesol

**3. Suzy Davies:** *Beth yw ymateb y Gweinidog i'r sylwadau a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru i'r ymgynghoriad ar Fil Teithio Llesol (Cymru). OAQ(4)0199(LGC)*

**Carl Sargeant:** All submissions in relation to the active travel White Paper have been analysed and the Welsh Government's response is available on the website.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer, because that response is also immediately relevant to the safety of routes to school. Minister, local authorities are devising safe walking routes, based on new standard guidelines that still cite case law from the 1950s, but which fail to take into account the UN Convention on the Rights of the Child and the Learner Travel (Wales) Measure 2008. Will you undertake to have a look at that, please, to ensure that both those documents are taken into account, putting child protection at the heart of safe routes to school?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Julie Morgan:** It is encouraging that there has been a significant increase in Cardiff in the number of children who cycle to school. As part of the Cardiff Cycle Festival, organised in June by Sustrans and Cardiff Council, there was a cycling to school challenge, and Gabalfa Primary School in my constituency of Cardiff North gained the top results, with 23% of students cycling to school every day during the festival.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her positive comment. I also wish to congratulate

parhau i weithio?

**Carl Sargeant:** Mae'n rhaid ystyried y ceisiadau yn ofalus iawn, ac rwyf eisoes wedi cymeradwyo rhai ffrydiau cyllid ar gyfer clystyrau ledled Cymru. Ystyriaf y cwestiwn a godwyd gennych. Rhan bwysicaf y sefydliad Cymunedau yn Gyntaf yw ei staff. Rwy'n cydnabod hynny, ac fe ystyriaf hynny wrth wneud fy mhenderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

### Active Travel Bill

**3. Suzy Davies:** *What is the Minister's response to the Children's Commissioner for Wales' submission to the Active Travel (Wales) Bill consultation. OAQ(4)0199(LGC)*

**Carl Sargeant:** Dadansoddwyd yr holl gyflwyniadau mewn perthynas â'r Papur Gwyn ar deithio llesol ac mae ymateb Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

**Suzy Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, oherwydd mae hefyd yn uniongyrchol berthnasol i ddiogelwch llwybrau i'r ysgol. Weinidog, mae awdurdodau lleol yn llunio llwybrau cerdded diogel, yn seiliedig ar ganllawiau safonol newydd sy'n dal i ddyfynnu cyfraith achosion o'r 1950au, ond sy'n methu ag ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. A ymrwymwch i fwrw golwg ar hynny, os gwelwch yn dda, er mwyn sicrhau y caiff y ddwy ddogfen honno eu hystyried, gan sicrhau bod amddiffyn plant wrth wraidd llwybrau diogel i'r ysgol?

**Carl Sargeant:** Gwnaf.

**Julie Morgan:** Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n beicio i'r ysgol yng Nghaerdydd yn galonogol. Fel rhan o Wyl Beicio Caerdydd, a drefnwyd ym mis Mehefin gan Sustrans a Chyngor Caerdydd, cynhaliwyd her beicio i'r ysgol, gydag Ysgol Gynradd Gabalfa yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, yn fuddugol, gyda 23% o'r disgyblion yn beicio i'r ysgol bob dydd yn ystod yr ŵyl.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei sylw cadarnhaol. Hoffwn hefyd longyfarch Cyngor

Cardiff Council and the other organisations involved in that project. I have been out with young people across Cardiff on the Bike It scheme and on the walk-to-school events. I thoroughly enjoyed it and would encourage more authorities across Wales to contribute to this active travel debate.

**Rebecca Evans:** In his response, the Children's Commissioner for Wales calls for the suitability of routes through communities and to places of education and recreation to be subject to an assessment by children and young people to ensure that they feel comfortable and safe on the route. Minister, what is your vision for the role of children and young people in the development of safe walking and cycling routes?

**Carl Sargeant:** Of course, new routes are designed and developed by people who build roads, footpaths and cycle paths. It is really important to have community engagement in these processes to enable those who we want to use the routes to do so because they are of the correct design and correspond to what people want. Young people's views on this are extremely important to me, and I will be working with the department for education and skills to ensure that we can embrace opportunities to improve interaction for young people in relation to the development of Welsh Government policy.

#### Blaenoriaethau

**4. Elin Jones:** *Beth yw blaenoriaethau eich adran am y chwe mis nesaf. OAQ(4)0193(LGC)*

**Carl Sargeant:** My priorities are to deliver on our programme for government commitments to reduce poverty, to make our communities safer, and to support the delivery of effective and efficient public services in Wales.

**Elin Jones:** Weinidog, nid wyf yn disgwyl ichi adeiladu ac ailagor rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth yn y chwe mis nesaf, ond gan fod deiseb wedi'i chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno gweld ailagor y rheilffordd hon, ac rwy'n sicr yn

Caerdydd a'r sefydliadau eraill a fu'n ymwneud â'r prosiect hwnnw. Rwyf wedi bod allan gyda phobl ifanc ledled Caerdydd fel rhan o'r cynllun Beiciwch Hi ac ar y digwyddiadau cerdded i'r ysgol. Gwneuthum fwynhau'n arw a byddem yn annog mwy o awdurdodau ledled Cymru i gyfrannu at y ddadl teithio llesol hon.

**Rebecca Evans:** Yn ei ymateb, mae Comisiynydd Plant Cymru yn galw am asesiad o addasrwydd llwybrau drwy gymunedau ac i leoedd addysg a hamdden gan blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel ar y llwybr. Weinidog, beth yw eich gweledigaeth ar gyfer rôl plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu llwybrau cerdded a beicio diogel?

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, caiff llwybrau newydd eu cynllunio a'u datblygu gan bobl sy'n adeiladu ffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio. Mae'n bwysig iawn ymgysylltu â chymunedau fel rhan o'r prosesau hyn er mwyn galluogi'r rhai sydd am ddefnyddio'r llwybrau i wneud hynny gan eu bod wedi'u cynllunio'n briodol ac yn cyfateb i'r hyn y mae pobl am ei gael. Mae barn pobl ifanc yn hyn o beth yn hynod bwysig imi, a byddaf yn gweithio gyda'r adran addysg a sgiliau i sicrhau y gallwn fanteisio ar gyfleoedd i wella trefniadau rhyngweithio i bobl ifanc mewn perthynas â datblygu polisi Llywodraeth Cymru.

#### Priorities

**4. Elin Jones:** *What are your department's priorities for the next six months. OAQ(4)0193(LGC)*

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau yw cyflawni ein hymrwymadau o ran y rhaglen lywodraethu sef lleihau tlodi, gwneud ein cymunedau yn fwy diogel, a helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon yng Nghymru.

**Elin Jones:** Minister, I do not expect you to build and reopen the railway line between Carmarthen and Aberystwyth in the next six months, but given that a petition has been submitted to the National Assembly seeking the reopening of this railway line, and I

cefnogi hynny gan ei bod yn rheilffordd a gafodd ei chau yn y 1960au, a wnewch chi ofyn i'ch swyddogion edrych ar sut y gellid astudio ac asesu dichonoldeb yn y tymor rhagweladwy ailagor rheilffordd o'r math er mwyn gwella trafndiaeth gynaliadwy yn y gorllewin?

**Carl Sargeant:** I welcome the Member's question given its importance to her local community. However, I refer the Member to the priorities within the national transport plan. I will note her question and ask my officials to look at that appropriately.

**Mick Antoniw:** Minister, as local authorities increasingly raise the issue of a living wage, will you give an indication of how many workers in Wales earn less than the current living wage? What are the Government's priorities with regard to this issue?

**Carl Sargeant:** The Welsh Government has made a commitment on the living wage, and I refer the Member to the statement that we made some time ago. I will be updating that this week. As you will be aware, there has been a lot of interest in the national agenda on the living wage, and many political statements have been made this week. I am very supportive of the living wage, but it has to be based on evidence. The working group that we have established in Wales, which works with the Welsh Government and partners, will give us some more information regarding whether and how we can develop that further.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, Bridgend County Borough Council was recently criticised after it emerged that one councillor pocketed over £9,500 of taxpayers' money for being the chairperson of a committee that existed in name only. It has also emerged since that a further four councils have yet to fulfil the requirements of the Local Government (Wales) Measure 2011 that you brought in. As the driver of that Measure, will you tell us how many of the 22 local authorities in Wales have fulfilled its requirements by setting up a democracy committee?

certainly support that as it is a railway line that was closed in the 1960s, will you ask your officials to consider how the feasibility of reopening a railway line of this type in the foreseeable term can be studied and assessed in order to improve sustainable transport in west Wales?

**Carl Sargeant:** Rwy'n croesawu cwestiwn yr Aelod o ystyried ei bwysigrwydd i'w chymuned leol. Fodd bynnag, cyfeiriaf yr Aelod at y blaenoriaethau o fewn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Nodaf ei chwestiwn a gofynnaf i'm swyddogion edrych ar hynny yn briodol.

**Mick Antoniw:** Weinidog, gan fod awdurdodau lleol yn gynyddol yn codi mater cyflog byw, a wnewch roi syniad o faint o weithwyr yng Nghymru sy'n ennill llai na'r cyflog byw ar hyn o bryd? Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth yn hyn o beth?

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad ar y cyflog byw, a chyfeiriaf yr Aelod at y datganiad a wnaethom beth amser yn ôl. Byddaf yn ei ddiweddarau yr wythnos hon. Fel y byddwch yn ymwybodol, bu cryn dipyn o ddiddordeb yn yr agenda genedlaethol ar y cyflog byw, a gwnaed sawl datganiad gwleidyddol yr wythnos hon. Rwy'n gadarn o blaid y cyflog byw, ond rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y gweithgor a sefydlwyd gennym yng Nghymru, sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, yn rhoi rhagor o wybodaeth inni o ran pa un a allwn ddatblygu hynny ymhellach a sut i wneud hynny.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei feirniadu'n ddiweddar ar ôl iddi ddod i'r amlwg bod un cynghorydd yn cael dros £9,500 o arian trethdalwyr am gadeirio pwyllgor a oedd ond yn bodoli mewn enw yn unig. Daeth i'r amlwg hefyd ers hynny fod pedwar cyngor arall wedi methu â chyflawni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a gyflwynwyd gennych. Fel ysgogwr y Mesur hwnnw, a ddywedwch wrthym faint o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi cyflawni ei ofynion drwy sefydlu pwyllgor democratiaeth?



**Carl Sargeant:** I am the Minister who introduced the Measure, but the delivery is the responsibility of all local government authorities across Wales.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you for that answer, Minister. According to the legal requirements of the 2011 Measure, these democratic services committees need meet only once a year. Given that the accompanying special responsibility allowance is over £9,000 per year, do you consider that meeting only once is a good use of taxpayers' money? What are you doing, as Minister, to ensure that this Measure is implemented and is achieving its real aims?

**Carl Sargeant:** Local democracy is important to me and to many across the community. If we are talking about performance-related pay, the Member might want to consider her own salary.

2.15 p.m.

**Christine Chapman:** Minister, I was disappointed to learn that at least one commuter rail service operating during the rush hour this morning between my constituency and Cardiff consisted of just two train carriages, making the journey less safe and comfortable for passengers and staff, and possibly deterring users. While I understand that emergencies or last-minute changes may mean that there is no other option, do you agree that this is simply unacceptable as a matter of course, and will you as a priority enter into discussions with service providers to ensure adequate provision of carriages?

**Carl Sargeant:** The pressure on the network is something that the Member has raised with me before, and I share her concerns. The operators are in an interesting agreement in relation to the franchises that are operated, but, with the electrification of the Valleys lines and the main line, and with new progress with integrated transport across Wales, who knows? We aspire to making sure that we have a system suitable for the future in Wales.

**Carl Sargeant:** Fi yw'r Gweinidog a gyflwynodd y Mesur, ond yr holl awdurdodau llywodraeth leol ledled Cymru sy'n gyfrifol am ei roi ar waith.

**Janet Finch-Saunders:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ôl gofynion cyfreithiol Mesur 2011, dim ond unwaith y flwyddyn y mae angen i'r pwyllgorau gwasanaethau democrataidd hyn gyfarfod. O ystyried bod y lwfans cyfrifoldeb arbennig cysylltiedig yn cyfateb i fwy na £9,000 y flwyddyn, a ydych o'r farn bod cyfarfod unwaith y flwyddyn yn unig yn ddefnydd da o arian trethdalwyr? Beth rydych yn ei wneud, fel Gweinidog, i sicrhau y caiff y Mesur hwn ei roi ar waith a'i fod yn cyflawni ei nodau gwirioneddol?

**Carl Sargeant:** Mae democratiaeth leol yn bwysig i mi ac i lawer ymhob rhan o'r gymuned. Os ydym yn sôn am gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad, efallai yr hoffai'r Aelod ystyried ei chyflog hi ei hun.

**Christine Chapman:** Weinidog, rwy'n siomedig o glywed mai dim ond dau gerbyd trên oedd ar o leiaf un gwasanaeth rheilffordd i gymudwyr a oedd yn gweithredu yn ystod yr awr frys y bore yma rhwng fy etholaeth a Chaerdydd, gan olygu bod y daith yn llai diogel a chyfforddus i deithwyr a staff, ac o bosibl yn atal defnyddwyr. Er fy mod yn deall y gallai argyfyngau neu newidiadau munud olaf olygu nad oes unrhyw ddewis arall, a gytunwch fod hyn yn gwbl annerbyniol fel mater o drefn, ac a wnewch gynnal trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau, fel mater o flaenoriaeth, i sicrhau bod digon o gerbydau yn cael eu darparu?

**Carl Sargeant:** Mae'r pwysau ar y rhwydwaith yn rhywbeth y mae'r Aelod wedi'i godi gyda mi eisoes, ac rwy'n rhannu ei phryderon. Mae gan y gweithredwyr gytundeb diddorol o ran y masnachfreintiau a gaiff eu gweithredu, ond, wrth i reilffordd y Cymoedd a'r brif linell rheilffordd gael eu trydaneiddio, ac o ystyried cynnydd newydd o ran trafndiaeth integredig ledled Cymru, pwy a wŷr? Rydym yn anelu at sicrhau bod gennym system sy'n addas ar gyfer y dyfodol

yng Nghymru.

**William Powell:** Given yesterday's statement by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on the future of the Powys local growth zones, what modifications would you consider making to your department's priorities to ensure that the essential infrastructure projects envisaged to deliver those zones are able to come forward? I am thinking particularly of the hourly service from Aberystwyth to Shrewsbury, which would contribute greatly to the economic vitality of Newtown.

**Carl Sargeant:** I welcome the Member's question. The discussions between me and the Minister for business are ongoing. There is no change to my priorities for the hourly service, which have been well documented in this Chamber.

**Sandy Mewies:** Minister, in recognising how important all transport links, including rail, are to the economy and the social wellbeing of north Wales, will you ask your officials to look in the next six months at the possibility of electrification of the north Wales line?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her important question. I am also grateful for the recent meeting that you, Ann Jones and Ken Skates held regarding the interest in the electrification of the north Wales line. This is something that I have raised with the Minister for transport in Westminster, and it is something that we will pursue with vigour in Wales.

#### Awdurdodau Lleol

**5. Gwyn R. Price:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio rhwng awdurdodau lleol Cymru. OAQ(4)0203(LGC)*

**Carl Sargeant:** Collaboration between local authorities is critical if we are to survive the tough financial challenges ahead. Following the compact for change between local government and the Welsh Government, I am continuing to encourage and support this with

**William Powell:** O ystyried datganiad ddoe gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar ddyfodol parthau twf lleol Powys, pa addasiadau y byddech yn ystyried eu gwneud i flaenoriaethau eich adran er mwyn sicrhau y gall y prosiectau seilwaith hanfodol a ragwelir er mwyn cyflawni'r parthau hynny gael eu rhoi ar waith? Rwy'n meddwl yn benodol am y gwasanaeth bob awr o Aberystwyth i'r Amwythig, a fyddai'n cyfrannu'n sylweddol at hyfywedd economaidd y Drenewydd.

**Carl Sargeant:** Croesawaf gwestiwn yr Aelod. Mae'r trafodaethau rhyngof i a'r Gweinidog Busnes yn mynd rhagddynt. Nid oes unrhyw newid i'm blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth bob awr, a ddogfennwyd yn helaeth yn y Siambr hon.

**Sandy Mewies:** Weinidog, wrth gydnabod pa mor bwysig yw'r holl gysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd, i economi a lles cymdeithasol gogledd Cymru, a ofynnwch i'ch swyddogion ymchwilio, yn ystod y chwe mis nesaf, i'r posibilrwydd o drydaneiddio prif linell rheilffordd y gogledd?

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn pwysig. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cyfarfod diweddar y gwnaethoch chi, Ann Jones a Ken Skates ei gynnal o ran y diddordeb yn y posibilrwydd o drydaneiddio llinell rheilffordd y gogledd. Rwyf wedi codi'r mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth yn San Steffan, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ymchwilio'n frwd iddo yng Nghymru.

#### Local Authorities

**5. Gwyn R. Price:** *Will the Minister make a statement on collaboration between Welsh local authorities. OAQ(4)0203(LGC)*

**Carl Sargeant:** Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn hollbwysig er mwyn inni oresgyn yr heriau ariannol anodd sydd o'n blaenau. Yn dilyn y compact ar gyfer newid rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, rwy'n parhau i annog a chefnogi hyn

a new £10 million regional collaboration fund.

**Gwyn R. Price:** Minister, protecting front-line services must be a priority for councils across Wales. Do you agree that the collaboration that we are seeing between Caerphilly and Blaenau Gwent councils in social services should be an example for all other local authorities to follow?

**Carl Sargeant:** I welcome collaboration across all parts of Wales, and I am grateful to the Member for highlighting the activities local to his constituency. You are quite right to say that collaboration should be the new key word for organisations across Wales, not just within local government but in organisations working with the public sector. I am encouraged by the many opportunities that have been presented to me, but there is an awfully long way to go.

**Mark Isherwood:** How do you respond to concerns raised with me by some local authority leaders in north Wales that the £10-million top-slice for regional collaboration will equate to £5 million less for prudential borrowing for each £300,000 that will be cut? Concerns were also raised about your letter to the Welsh Local Government Association saying that health and social service budgets are to be ring-fenced, as this equates to 65% of their influencable budget and will generate far bigger cuts to front-line services such as leisure and youth services, libraries, trading standards, economic development, regeneration, the housing strategy and the homelessness strategy.

**Carl Sargeant:** I suggest that the Member's contribution—wherever he got that information from—is nonsense. If the leaders that he refers to wish to come to see me to talk to me about that, I would be more than happy to have that discussion. Ten million pounds is 0.25% of what would be the revenue support grant settlement. It is a collaboration fund, but it is still local government money—it is not a reduction. It is in addition to the money that local

gyda chronfa cydweithio rhanbarthol newydd o £10 miliwn.

**Gwyn R. Price:** Weinidog, rhaid i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen fod yn flaenoriaeth i gynghorau ledled Cymru. A gytunwch y dylai'r trefniadau cydweithio sydd ar waith rhwng cyngor Caerffili a chyngor Blaenau Gwent ym maes gwasanaethau cymdeithasol fod yn esiampl i bob awdurdod lleol arall ei dilyn?

**Carl Sargeant:** Croesawaf ymdrechion i gydweithio ymhob rhan o Gymru, ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dynnu sylw at y gweithgareddau lleol yn ei etholaeth. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud y dylid ystyried cydweithio fel y gair allweddol newydd i sefydliadau ledled Cymru, nid yn unig ym maes llywodraeth leol ond o fewn sefydliadau sy'n gweithio gyda'r sector cyhoeddus. Mae'r cyfleoedd niferus a gyflwynwyd ger fy mron yn galonogol, ond mae cryn dipyn i'w wneud o hyd.

**Mark Isherwood:** Beth yw eich ymateb i bryderon a godwyd gyda mi gan arweinwyr rhai awdurdodau lleol yn y gogledd y bydd y brigdoriad o £10 miliwn ar gyfer cydweithio rhanbarthol yn golygu £5 miliwn yn llai ar gyfer benthycia darbodus am bob £300,000 a gaiff ei dorri? Codwyd pryderon hefyd am eich llythyr i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud y caiff cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eu clustnodi, gan fod hyn yn cyfateb i 65% o'r gyllideb y gallant ddylanwadu arni ac y bydd yn creu toriadau llawer mwy i wasanaethau rheng flaen, megis gwasanaethau hamdden ac ieuencid, llyfrgelloedd, safonau masnach, datblygu economaidd, adfywio, y strategaeth dai a'r strategaeth ddigartrefedd.

**Carl Sargeant:** Awgrymaf mai nonsens yw cyfraniad yr Aelod—ni waeth ble y cafodd y wybodaeth honno. Os hoffai'r arweinwyr y cyfeiria atynt ddod i'm gweld i drafod y mater, byddwn yn fwy na pharod i gynnal y drafodaeth honno. Mae £10 miliwn yn cyfateb i 0.25% o setliad y grant cynnal refeniw. Mae'n gronfa cydweithio, ond arian llywodraeth leol ydyw o hyd—nid gostyngiad mohono. Mae'n ychwanegol at y cynnydd ariannol y mae llywodraeth leol

government has already had in an increase, and it has been welcomed by many authorities. However, if the authorities that do not want to take part in the collaboration deal do not want to access it, they will not get any money either.

**Lindsay Whittle:** Has the Minister considered the idea of promoting joint initiatives between neighbouring authorities in order to ensure economic growth?

**Carl Sargeant:** The Member raises a really important point. I work with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science and Cabinet members collectively to look at how we can best use the limited funding available to encourage further collaboration deals, bearing in mind that the Welsh Government has received £2.1 billion less from the UK Government in Westminster.

**Peter Black:** Minister, you may have heard the evidence given to the Finance Committee on the draft budget by local councils, which indicated that one of the problems they are having with collaboration is that, when they try to work with health authorities, or health boards as they are now known, the boards are trying to pass costs on to them and avoid the pooled budget approach that we all support. What work have you done to look into this particular problem?

**Carl Sargeant:** The public service leadership group has members from across the public sector, including local health boards, fire services, the police and local authorities, working very closely together. I have seen many projects that are transformational in their operation across Wales involving local authorities and health boards. The Gwent frailty project is one of those models, and it is an example of local authorities and health boards working very well together. Often, there are many obstacles placed in the way of working differently from the traditional ways local authorities or health boards have always worked. These are often overcome by trust, and I am pushing opportunities to develop new ideas very hard. One example in north Wales is the north Wales social services improvement collaborative. There is also the

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's question, and I will be more than happy to write to him with the details that he has requested. I refer him also to the statements that I made earlier with regard to the return of powers to the council, but I also extend an invitation to the Member for a meeting, should he wish it, with my department to explain further on any questions that he may have.

**Janet Finch-Saunders:** Collaboration between local authorities is very much a hallmark of your tenure as Minister for local government. However, concerns remain as to whether you are driving this agenda forward or whether you have any real involvement in it. If that is the case, will you please provide us with an update on the north Wales CCTV project, to include what has happened and where exactly the £805,000 of Welsh taxpayers' money that has been allocated to the scheme has gone? Will you give us a progress update, please?

**Carl Sargeant:** I will write to the Member regarding that specific scheme. On the basis that we have many hundreds of collaborative schemes, the Member will understand that I do not have the detail on every one of them now. However, I will write to the Member accordingly. Collaboration deals and collaboration are driven by my department, but owned by the people who wish to collaborate. I am glad that many authorities across north Wales and across the whole of Wales wish to collaborate, but there are some

County Council in light of the decision to reduce the number of commissioners and to put in a recovery board in terms of the education service. There is a lack of clarity, to put it kindly, in terms of who is now responsible for what on the island. Would the Minister be willing to write to me setting out exactly what the responsibilities of the new commissioners are and on what basis they would be able to intervene with decisions taken by the executive? Secondly, what exactly are the responsibilities of the education recovery board and who now has the main responsibility for setting the strategic direction for education in the county?

**Carl Sargeant:** Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod, a byddwn yn fwy na pharod i ysgrifennu ato gyda'r manylion y gofynnodd amdanynt. Hoffwn ei gyfeirio hefyd at y datganiadau a wneuthum yn gynharach ynglŷn â dychwelyd pwerau i'r cyngor, ond hoffwn hefyd wahodd yr Aelod am gyfarfod, os hoffai hynny, gyda'm hadran i roi esboniad pellach o ran unrhyw gwestiynau a allai fod ganddo.

**Janet Finch-Saunders:** Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn sicr yn nodwedd amlwg o'ch cyfnod fel Gweinidog Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, erys pryderon o ran pa un a ydych yn hyrwyddo'r agenda hon neu pa un a oes gennych unrhyw gyfranogiad gwirioneddol ynddi. Os felly, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am brosiect CCTV gogledd Cymru, gan gynnwys yr hyn sydd wedi digwydd a ble yn union y mae'r £805,000 o arian trethdalwyr Cymru a ddyrannwyd i'r cynllun wedi mynd? A wnewch roi adroddiad ar gynnydd inni, os gwelwch yn dda?

**Carl Sargeant:** Ysgrifennaf at yr Aelod am y cynllun penodol hwnnw. O gofio bod gennym gannoedd lawer o gynlluniau cydweithredol, bydd yr Aelod yn deall nad yw manylion pob un ohonynt gennyf wrth law. Fodd bynnag, ysgrifennaf at yr Aelod mewn ymateb i hynny. Caiff cytundebau cydweithredol a threfniadau cydweithio eu hysgogi gan fy adran, ond y bobl sy'n awyddus i gydweithio sy'n berchen arnynt. Rwy'n falch bod llawer o awdurdodau ledled gogledd Cymru a ledled Cymru gyfan yn

that could do better.

awyddus i gydweithio, ond mae rhai a allai wneud yn well.

**The Presiding Officer:** Question 14, OAQ(4)0206(LGC), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(4)0206(LGC), yn ôl.

**Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—Bil Safleoedd Rheoleiddiedig  
Cartrefi Symudol (Cymru)  
Statement: Introduction of a Member Proposed Bill—the Regulated Mobile  
Home Sites (Wales) (Bill)**

**Peter Black:** On Thursday 25 October, I laid the Regulated Mobile Home Sites (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. I have also issued a written statement, and I am pleased to introduce the Bill for Assembly Members' consideration today. I want to acknowledge the support and hard work put into producing this Bill by Assembly Commission staff and my researchers, who have worked with me to produce it. I should also acknowledge the support of the Minister for Housing, Regeneration and Heritage. Although this is a Member's Bill, he has allowed his officials to work with me on it, and their constructive comments and searching questions have been invaluable in producing the Bill.

A formal consultation was undertaken prior to the drafting of this Bill, and I also conducted a survey of 2,008 park home residents, which elicited 906 responses. The responses indicated that over 95% of these residents are older than 55 years of age, and more than half are above the age of 70. Over 86% of respondents said that they were retired, suggesting that many are on a fixed income. It is clear from all the research undertaken that a number of park home residents will be considered to be vulnerable because of age or ill health. That is why reports of harassment, intimidation, exploitation, and sharp practice by a small minority of site operators are so disturbing. Many residents have reported that they do not feel that they have the protection of the law and the support of local councils in countering such practices. It is the reason that I and others believe that this Bill is necessary.

**Peter Black:** Ddydd Iau 25 Hydref, gosodais Fil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, ac rwy'n falch o gyflwyno'r Bil i'w ystyried gan Aelodau'r Cynulliad heddiw. Hoffwn gydnabod cymorth a gwaith caled staff Comisiwn y Cynulliad a'm hymchwilyr, sydd wedi gweithio gyda mi i gynhyrchu'r Bil hwn. Dylwn hefyd gydnabod cymorth y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Er mai Bil Aelod yw hwn, mae wedi caniatáu i'w swyddogion weithio gyda mi arno, ac mae eu sylwadau adeiladol a chwestiynau treiddgar wedi bod yn amhriiadwy wrth gynhyrchu'r Bil.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol cyn drafftio'r Bil hwn, a chynhaliiais arolwg hefyd o 2,008 o drigolion cartrefi mewn parciau, a ysgogodd 906 o ymatebion. Dynododd yr ymatebion fod dros 95% o'r trigolion hyn dros 55 mlwydd oed, a bod mwy na'u hanner dros 70 oed. Dywedodd mwy na 86% o'r ymatebwyr eu bod wedi ymddeol, gan awgrymu bod llawer ar incwm sefydlog. Mae'n amlwg o'r holl ymchwil a wnaed yr ystyrir bod nifer o drigolion cartrefi mewn parciau yn agored i niwed oherwydd oedran neu afiechyd. Dyna pam mae adroddiadau o aflonyddu, brawychu, camfanteisio, ac ymarfer diegwyddor gan leiafrif bach o weithredwyr safle yn peri cymaint o bryder. Mae llawer o drigolion wedi dweud nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael diogelwch gan y gyfraith a chefnogaeth cynghorau lleol pan ddônt ar draws arferion o'r fath. Dyma'r rheswm pam fy mod i ac eraill o'r farn bod y Bil hwn yn angenrheidiol.

The Bill will create a licensing regime that is a modern, fit-for-purpose framework that can be consistently implemented across Wales. Local authorities will remain the licensing authorities, but there will be a new statutory duty for them to consider exercising their powers of collaboration with other local authorities when licensing regulated sites. Such arrangements could allow expertise to be shared and costs to be reduced. It may also simplify record-keeping requirements, such as details of licensed sites and copies of site rules.

Authorised agents or officers of licensing authorities will have powers of entry should they need to enter a regulated site for matters connected with licensing. Local authorities will be permitted to charge a fee for processing and issuing a site licence, which will last for up to five years, but be renewable thereafter.

Currently, licensing authorities have no discretion to refuse an application. The Bill will permit a local authority to refuse to grant a licence where it is not satisfied as to certain matters outlined in the Bill. The licensing authority will also ensure that a site meets the standards set down by regulation for the stationing of the agreed number of mobile homes, while the site licence will include a number of mandatory conditions.

In order to be granted a licence the owner and manager, or other persons involved in the management of the site, will need to pass a fit and proper person test. There will be a duty on local authorities to request sufficient information from applicants for a licence to determine whether the licence holder and any person involved in the management of the site are fit and proper persons. This test will consider relevant criminal offences, contraventions of any provision of relevant legislation, as well as any breaches of any code of practice or regulations made under provisions in this Bill that relate to the management of sites.

Bydd y Bil yn creu cyfundrefn drwyddedu sy'n fframwaith modern, yn addas at y diben y gellir ei roi ar waith yn gyson ledled Cymru. Awdurdodau lleol fydd yr awdurdodau trwyddedu o hyd, ond bydd dyletswydd statudol newydd iddynt ystyried arfer eu pwerau cydweithio ag awdurdodau lleol eraill wrth drwyddedu safleoedd a reoleiddir. Gallai trefniadau o'r fath olygu y gellir rhannu arbenigedd a lleihau costau. Efallai y byddant hefyd yn symleiddio'r gofynion cadw cofnodion, megis manylion safleoedd trwyddedig a chopiau o reolau'r safle.

Bydd gan asiantau awdurdodedig neu swyddogion awdurdodau trwyddedu bwerau mynediad os bydd angen iddynt fynd i mewn i safle a reoleiddir ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â thrwyddedu. Bydd gan awdurdodau lleol hawl i godi ffi am brosesu a chyhoeddi trwydded safle, a fydd yn para am hyd at bum mlynedd, ond gellir ei adnewyddu ar ôl hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau trwyddedu unrhyw ddisgresiwn i wrthod cais. Bydd y Bil yn caniatáu i awdurdod lleol wrthod rhoi trwydded os nad yw'n fodlon ynghylch materion penodol a amlinellir yn y Bil. Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn sicrhau bod safle yn bodloni'r safonau a bennwyd gan reoliad ar gyfer lleoli'r nifer o gartrefi symudol y cytunwyd arni, er y bydd y drwydded safle yn cynnwys nifer o amodau gorfodol.

Er mwyn cael trwydded, bydd angen i'r perchennog a'r rheolwr, neu unigolion eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli'r safle, basio prawf unigolyn addas a phriodol. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ofyn am wybodaeth ddigonol gan ymgeiswyr am drwydded i benderfynu a yw deiliad y drwydded ac unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli'r safle yn unigolyn addas a phriodol. Bydd y prawf hwn yn ystyried troseddau perthnasol, achosion o dorri unrhyw ddarpariaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, yn ogystal ag unrhyw achosion o dorri unrhyw god ymarfer neu reoliadau a wneir o dan ddarpariaethau yn y Bil hwn sy'n ymwneud â rheoli safleoedd.

As the site rules will form part of the licence, in future they may only be changed following consultation with occupiers and, if one exists, any qualifying residents association. The licensing authority will need to be satisfied that the majority of occupiers agree to the variation. The Bill outlines a number of circumstances where the licensing authority may consider revoking a site licence either on its own initiative or, in certain cases, at the request of a qualifying residents association. As an alternative to revocation, the licensing authority may instead appoint an interim manager.

Site owners will have a right of appeal in relation to the decisions of licensing authorities to the residential property tribunal. In addition, the licensing authority or the licence holder may refer certain matters to the tribunal to decide any disputes about the extent of any works, the time limits specified in the notice, whether the work has been completed before the authority executed the works, and the reasonable costs incurred.

The Bill will introduce far more realistic penalties for the breach of licensing conditions and other offences. It will also introduce a repayment order provision whereby site operators who sell and collect pitch fees, or collect commission on sales for unlicensed sites, may be ordered to repay these moneys, together with any reasonable costs incurred. Local authorities will also be able to issue a fixed penalty as an alternative to prosecution for certain offences. Provisions for the recognition of a qualifying residents association remain as present; however, the Bill amends the 1983 Act to require a membership list, which should be up to date, to be presented to the licensing authority and not made public. The association's rules and constitution will also be held by the local authority, but these will be open to public inspection.

The Bill makes provision for rights of succession, so that any person who is a

Oherwydd y bydd rheolau'r safle yn ffurfio rhan o'r drwydded, yn y dyfodol dim ond ar ôl ymgynghori â deiliaid ac unrhyw gymdeithas trigolion cymwys, os oes un yn bodoli, y gellir eu newid. Bydd angen i'r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon bod mwyafrif y deiliaid yn cytuno i'r amrywiad. Mae'r Bil yn amlinellu nifer o amgylchiadau lle gall yr awdurdod trwyddedu ystyried diddymu trwydded safle naill ai o'i ben a'i bastwn ei hun neu, mewn rhai achosion, ar gais cymdeithas preswylwyr cymwys. Fel dewis arall i ddiddymiad, gall yr awdurdod trwyddedu yn hytrach benodi rheolwr dros dro.

Bydd gan berchenogion safleoedd hawl i apelio mewn perthynas â phenderfyniadau awdurdodau trwyddedu i'r tribiwnlys eiddo preswyl. Yn ogystal, gall yr awdurdod trwyddedu neu ddeiliad y drwydded gyfeirio rhai materion at y tribiwnlys i benderfynu ar unrhyw anghydfod ynghylch maint unrhyw waith, y terfynau amser a bennir yn yr hysbysiad, p'un a yw'r gwaith wedi'i gwblhau cyn i'r awdurdod gyflawni'r gwaith, a'r costau rhesymol yr eir iddynt.

Bydd y Bil yn cyflwyno cosbau llawer mwy realistig am dorri amodau trwyddedu a throeddau eraill. Bydd hefyd yn cyflwyno darpariaeth gorchmynion ad-dalu lle gellir gorchymyn gweithredwyr safleoedd sy'n gwerthu ac yn casglu ffioedd lleiniau, neu'n casglu comisiwn ar werthiannau ar gyfer safleoedd heb drwydded, i ad-dalu'r arian hwn, ynghyd ag unrhyw gostau rhesymol yr eir iddynt. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn gallu cyhoeddi cosb benodedig fel dewis amgen i erlyn am droseddau penodol. Mae'r darpariaethau ar gyfer cydnabod cymdeithas drigolion gymwys yn aros fel y maent; fodd bynnag, mae'r Bil yn diwygio Deddf 1983 i gynnwys yr angen i restr aelodaeth, a ddylai gael ei diweddarau'n rheolaidd, gael ei chyflwyno i'r awdurdod trwyddedu ac na ddylai gael ei chyhoeddi. Bydd rheolau a chyfansoddiad y gymdeithas yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol hefyd, ond bydd y rhain yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hawliau olyniaeth, fel bod gan unrhyw unigolyn sy'n

widow, widower, surviving civil partner or other family member, if there is no widow et cetera, and living in the mobile home as their only or main residence, will be entitled to take over the written agreement.

Under the terms of the Bill, pitch fees will only be able to be increased in line with the consumer price index, which is the measure that pensions are currently linked to, rather than the higher retail prices index. There are provisions as to what must be taken into account when calculating any increase or decrease in the pitch fee, while the Bill also specifies that the site operator must not pass on any costs that are incurred by them in order to implement changes made by it.

The Bill seeks to clarify the law as to when a mobile home owner can make internal alterations to their home, and under what circumstances a site operator can relocate a mobile home to a different pitch. Unless there is a need for an urgent relocation, this will require the agreement of both parties or the consent of the residential property tribunal. I hope that, following detailed scrutiny and debate, this Bill will command the support of the Assembly. I look forward to working with Members over the next few months to make that a reality.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** The Welsh Government welcomes Peter's statement today and the Bill that has been formally laid before the Assembly. The effort that Peter has put into the task of producing this Bill is fully appreciated. We would like a few points to be considered.

The explanatory memorandum that accompanies the Bill lists 16 regulation, Order and guidance powers, including commencement, that the Welsh Government will need to make in order to fully describe and implement the new site licensing scheme—a hefty total. The question is whether scrutiny of the Bill will require more than merely empowering the Welsh Government to make these items of secondary legislation, and we would ask whether Peter has fully considered that. It is

wraig weddw, yn ŵr gweddw, yn bartner sifil sydd wedi goroesi neu'n aelod arall o'r teulu, os nad oes gwraig weddw ac ati, ac yn byw yn y cartref symudol fel ei unig neu brif breswylfa, hawl i gymryd y cytundeb ysgrifenedig drosodd.

O dan delerau'r Bil, dim ond yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr, sef y mesur y mae pensiynau wedi'u cysylltu ag ef ar hyn o bryd, yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu uwch, y gellir codi ffioedd lleiniau. Mae darpariaethau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried wrth gyfrifo unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y ffi llain, ac mae'r Bil hefyd yn nodi na ddylai gweithredwr y safle drosglwyddo unrhyw gostau yr eir iddynt ganddo er mwyn gweithredu newidiadau a wneir ganddo.

Mae'r Bil yn ceisio egluro'r gyfraith o ran pryd y gall perchennog cartref symudol wneud newidiadau mewnol i'w cartref, ac o dan ba amgylchiadau y gall gweithredwr safle adleoli cartref symudol i lain wahanol. Oni bai bod angen adleoli ar frys, bydd hyn yn gofyn am gytundeb y ddwy ochr neu ganiatâd y tribiwnlys eiddo preswyl. Gobeithiaf, yn dilyn craffu manwl a dadl, y bydd y Bil hwn ennyn cefnogaeth y Cynulliad. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau dros y misoedd nesaf i wireddu hynny.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu datganiad Peter heddiw a'r Bil sydd wedi cael ei osod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad. Mae'r ymdrech y mae Peter wedi ei roi i'r dasg o gynhyrchu'r Bil hwn yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Hoffem i rai pwyntiau gael eu hystyried.

Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cydfynd â'r Bil yn rhestru 16 o reoliadau, Gorchmynion a phwerau arwain, gan gynnwys Gorchmynion cychwyn, y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud er mwyn disgrifio'r cynllun trwyddedu safle newydd yn llawn a'i roi ar waith—cyfanswm sylweddol. Y cwestiwn yw a fydd craffu ar y Bil yn golygu mwy na dim ond grymuso Llywodraeth Cymru i wneud y rhain yn eitemau o is-ddeddfwriaeth, a byddem yn gofyn a yw Peter wedi ystyried hynny'n

quite clear that there is still some work to be done around finalising the content of the Bill, and this is particularly the case where the transitional arrangements for movement from the existing site licensing regime to the new arrangements are concerned. It is not really apparent whether Mr Black intends the new licensing regime to involve revoking the existing site licensing system, or whether it should just apply to new applications for site licences. Clarification on that point would be very helpful.

It might also be useful for colleagues to have more of an idea about the basis of how the figures in the explanatory memorandum associated with implementing the new site licensing regime have been arrived at. The Welsh Government would also value comments on the potential effect that the new site licensing arrangements are likely to have on mixed sites, where the existing licence covers holiday accommodation and a specified number of units that are licensed for permanent accommodation. I will again take this opportunity to reiterate the Welsh Government's supportive stance regarding Peter Black's Bill, and we look forward to working co-operatively to produce good law on this issue.

**Peter Black:** I thank the Minister for his remarks and again for stating his support for the Bill and the principles behind it. I would like to deal briefly with some of the points that he raised.

The Minister is quite correct that there are 14 regulation- and Order-making powers within the Bill, and there is also provision for two sets of guidance. Clearly, there is a lot of detail involved in this licensing regime, not all of which can be put on the face of the Bill. I would like to point out that not all of the regulation powers need to be taken up by the Minister; some of them are discretionary, for example, the one whereby the Minister can vary the amount of the fixed fee. He can leave it at £100, which is on the face of the Bill, or he can change it at some point later on. Obviously, I have had discussions with the Minister and his civil servants about this, and I have indicated that I am happy to work with them in bringing forward amendments at

llawn. Mae'n gwbl glir bod yna rywfaint o waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â chwblhau cynnwys y Bil, ac mae hyn yn arbennig o wir lle mae'r trefniadau trosiannol ar gyfer symud o'r drefn trwyddedu safle bresennol i'r trefniadau newydd yn y cwestiwn. Nid yw'n glir iawn a yw Mr Black yn bwriadu i'r gyfundrefn drwyddedu newydd gynnwys diddymu'r system trwyddedu safle bresennol, neu a ddylai ond bod yn berthnasol i geisiadau newydd am drwyddedau safle. Byddai eglurhad ar y pwynt hwnnw'n ddefnyddiol iawn.

Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i gyd-Aelodau gael mwy o syniad ynghylch sail sut y daethpwyd i'r ffigurau yn y memorandwm esboniadol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gyfundrefn trwyddedu safle newydd. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn gwerthfawrogi cael sylwadau ar yr effaith bosibl y mae'r trefniadau trwyddedu safle newydd yn debygol o'i chael ar safleoedd cymysg, lle mae'r drwydded bresennol yn cwmpasu llety gwyliau a nifer benodol o unedau sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer llety parhaol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn unwaith eto i ategu safbwynt cefnogol Llywodraeth Cymru o ran Bil Peter Black, ac edrychwn ymlaen at gydweithio i greu cyfraith dda ar y mater hwn.

**Peter Black:** Diolch i'r Gweinidog am ei sylwadau ac eto am ddatgan ei gefnogaeth i'r Bil a'r egwyddorion y tu ôl iddo. Hoffwn ymdrin yn fyr â rhai o'r pwyntiau a godwyd ganddo.

Mae'r Gweinidog yn hollol iawn bod 14 o bwerau llunio rheoliadau a Gorchmynion yn y Bil, a bod yna hefyd ddarpariaeth ar gyfer dwy set o ganllawiau. Yn amlwg, mae llawer o fanylion yn gysylltiedig â'r gyfundrefn drwyddedu hon, ac na ellir rhoi pob un ohonynt ar wyneb y Bil. Hoffwn nodi nad oes raid i'r Gweinidog gymryd yr holl bwerau rheoleiddio; mae rhai ohonynt yn ddewisol, er enghraifft, yr un lle y gall y Gweinidog amrywio swm y ffi sefydlog. Gall adael y ffi yn £100, sydd ar wyneb y Bil, neu gall ei newid ar ryw bwynt yn nes ymlaen. Yn amlwg, rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog a'i weision sifil am hyn, ac rwyf wedi nodi fy mod yn hapus i weithio gyda nhw i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2

Stage 2 of the Bill if we can reduce the number of regulations. I am happy to give that undertaking again. However, the resources available to me as an individual Member are not substantial, and I would be relying quite a lot on the Minister's civil servants and officials to come forward with those amendments and to help me draft them, if that is what we want. I have a meeting with the Minister's officials next week to discuss that issue further.

In terms of licensing, residential sites still have to be licensed under the Caravan Sites and Control of Development Act 1960, but they will also have to be licensed under the new regime. The 1960 Act is primarily a rubber-stamping exercise concerned with whether the appropriate planning permission is in place. As I indicated in my statement, local authorities cannot turn down an application for a licence under that particular Act. The new regime, as proposed in the Bill, would primarily be concerned with the suitability of the applicant. As such, I would envisage that every site operator around Wales would need to apply, once this Bill comes into force. There would need to be a period of grace to allow them to do that before the Bill can be implemented properly. I would envisage that all 92 sites would have a licensed owner operating them.

3.00 p.m.

With regard to the figures—sorry, I will go on to the mixed sites. There is provision in the Bill for mixed sites. Right at the very beginning of the Bill, there is a provision for a part of a site to be licensed where part of the site is for holiday homes and part is residential; only the residential part will need to be included. I take the Minister's point with regard to costings. We have done a lot of work to try to get the costings as accurate as possible. A lot of it is going to be speculative, because it depends on decisions that he will have to take, particularly in relation to the level of fees that local authorities will charge for the licences. However, we have a lot of detail in the Bill, which I am happy to be scrutinised on at the committee stage, and I would contend that we

y Bil os gallwn leihau nifer y rheoliadau. Rwy'n barod i roi'r addewid hwnnw eto. Fodd bynnag, nid oes llawer o adnoddau ar gael i mi fel Aelod unigol, a byddwn yn dibynnu gryn dipyn ar weision sifil a swyddogion y Gweinidog i gyflwyno'r diwygiadau hynny a'm helpu i'w ddrafftio, os mai dyna beth yr ydym ei eisiau. Mae gen i gyfarfod â swyddogion y Gweinidog yr wythnos nesaf i drafod y mater hwnnw ymhellach.

O ran trwyddedu, mae'n rhaid i safleoedd preswyl gael eu trwyddedu o hyd o dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960, ond bydd yn rhaid iddynt hefyd gael eu trwyddedu o dan y gyfundrefn newydd. Ymarfer rhoi sêl bendith yw Deddf 1960 yn bennaf, sy'n ymwneud â ph'un a yw'r caniatâd cynllunio priodol yn ei le. Fel y nodais yn fy natganiad, ni all awdurdodau lleol wrthod cais am drwydded o dan y Ddeddf benodol honno. Byddai'r drefn newydd, fel y cynigir yn y Bil, yn ymwneud yn bennaf ag addasrwydd yr ymgeisydd. Fel y cyfryw, byddwn yn rhagweld y byddai angen i bob gweithredwr safle ledled Cymru wneud cais, unwaith y bydd y Bil hwn yn dod i rym. Byddai angen cael cyfnod o ras i ganiatáu iddynt wneud hynny cyn y gellir cyflwyno'r Bil yn iawn. Byddwn yn rhagweld y byddai gan bob un o'r 92 o safleoedd berchennog trwyddedig yn eu gweithredu.

O ran y ffigurau—mae'n ddrwg gennyf, symudaf ymlaen i'r safleoedd cymysg. Mae darpariaeth yn y Bil ar gyfer safleoedd cymysg. Ar ddechrau'r Bil, mae darpariaeth ar gyfer trwyddedu rhan o safle lle mae rhan o'r safle ar gyfer cartrefi gwyliau a rhan ar gyfer cartrefi preswyl; dim ond y rhan breswyl y bydd angen ei chynnwys. Rwy'n derbyn pwynt y Gweinidog o ran costau. Rydym wedi gwneud llawer o waith i geisio sicrhau bod y costau mor gywir â phosibl. Bydd llawer o hyn yn hapfasnachol, gan ei fod yn dibynnu ar benderfyniadau y bydd yn rhaid iddo eu cymryd, yn enwedig mewn perthynas â lefel y ffioedd y bydd awdurdodau lleol yn eu codi am y trwyddedau. Fodd bynnag, mae gennym llawer o fanylion yn y Bil, yr wyf yn hapus

have more detail in the costings than there has been in a number of Government Bills that I have scrutinised in the past.

**Mark Isherwood:** We recognise the harassment, intimidation and exploitation that you detail. Thank you for bringing forward this Bill and for the hard work that you and so many others have put into this. We also welcome the fact that site owners will have a right of appeal to the residential property tribunal, recognising, as you say, that only a small minority of site operators are guilty of the worst offences. We support the proposals for a more robust site licensing regime and for a fit-and-proper-person test. Do you envisage that that test will include a Criminal Records Bureau check? Will it take account of the Rehabilitation of Offenders Act 1974, which enables some criminal convictions to be ignored after a rehabilitation period?

We welcome the removal of the site operators' veto on the sale of a home. That would also apply to a person who might acquire a home and come onto the site—currently owners can, in effect, veto individuals or households from coming onto the site. However, what consideration have you given to a role for the residents association in terms of overcoming concerns expressed by the British Holiday and Home Park Association and others that there needs to be some sort of mechanism to ensure that people who would not be welcome to the majority of the local resident population do not come onto the site? Is there a role for residents, as opposed to the site owners, in those circumstances? How do you respond to the additional calls by Consumer Focus Wales with regard to a number of matters—I will not list them all as I am sure that you have seen its paper—that it is keen for you to include, based on the detailed research that it undertook and that you have incorporated into your work?

I have three final points. With regard to utilities, how will your proposals address the concerns highlighted by Consumer Focus Wales that one of the biggest concerns for

iddynt gael eu craffu yn ystod y cam pwyllgor, a byddwn yn dadlau bod mwy o fanylion yn y costau nag a fu mewn nifer o Filiau Seneddol yr wyf wedi craffu arnynt yn y gorffennol.

**Mark Isherwood:** Rydym yn cydnabod yr achosion o aflonyddu, brawychu a chamfanteisio a nodwch. Diolch am gyflwyno'r Bil hwn ac am y gwaith caled rydych chi a chymaint o bobl eraill wedi'i roi i mewn i hyn. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd gan berchnogion safle hawl i apelio i'r tribiwnlys eiddo preswyl, gan gydnabod, fel y dywedwch, mai dim ond lleiafrif bach o weithredwyr safle sy'n euog o'r troseddau gwaethaf. Rydym yn cefnogi'r cynigion ar gyfer cyfundrefn trwyddedu safle fwy cadarn ac ar gyfer prawf unigolion addas a phriodol. A ydych yn rhagweld y bydd y prawf yn cynnwys gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol? A fydd yn ystyried Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, sy'n sicrhau y gellir anwybyddu rhai collfarnau troseddol ar ôl cyfnod ailsefydlu?

Rydym yn croesawu'r cam i ddileu fetô'r gweithredwyr safle ar werthu cartref. Byddai hynny hefyd yn gymwys i unigolyn a allai gael cartref a dod ar y safle—ar hyn o bryd, gall perchenogion, i bob pwrpas, atal unigolion neu aelwydydd rhag dod i'r safle. Fodd bynnag, pa ystyriaethau a roddwyd gennych i roi rôl i'r gymdeithas trigolion o ran goresgyn pryderon a fynegwyd gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain ac eraill bod angen rhyw fath o ddull o sicrhau nad yw pobl na fyddai'r rhan fwyaf o'r trigolion lleol yn eu croesawu yn dod ar y safle? A oes rôl i drigolion, yn hytrach na pherchnogion safle, yn yr amgylchiadau hynny? Sut ydych chi'n ymateb i'r galwadau ychwanegol gan Lais Defnyddwyr Cymru ynglŷn â nifer o faterion—ni wna eu rhestru i gyd oherwydd rwy'n siŵr eich bod wedi gweld ei bapur—ei fod yn awyddus ichi gynnwys, yn seiliedig ar y gwaith ymchwil manwl a wnaeth ac rydych wedi ei ymgorffori yn eich gwaith?

Mae gennyf dri phwynt terfynol. O ran cyfleustodau, sut y bydd eich cynigion yn mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan Lais Defnyddwyr Cymru, sef mai un o'r



owners of park homes was a lack of choice and transparency in the supply of utilities and the impact of that on fuel poverty, among other things? Your proposals will address home parks and sites that are partly home parks and partly holiday parks. What implications, if any, will this have for people living in holiday parks as their permanent residence? Finally, with regard to the potential negative impacts on site profitability and bank lending, what dialogue have you had, or do you propose to have, with bank lenders to ensure that those concerns meet the practical limitations on their lending that they must meet by law?

**Peter Black:** I thank Mark Isherwood for his general support for the Bill and his comments. I will try to respond to his concerns and questions in order. In relation to the CRB check and other criminal record checks, section 6(5) of the Bill requires the licensing authority to specify the information that applicants must provide when applying for a licence. That must include sufficient information to enable the authority to apply the fit-and-proper person test. That is also subject to regulations made under subsection 8, so either the regulations will specify what information applicants must provide, or licensing authorities must specify what is needed. We do not believe that it was sensible to put a particular check on the face of the Bill, because that may change over time. There is, therefore, flexibility to allow licensing authorities or the Minister through regulation to specify exactly what is required to determine whether a person is a fit-and-proper person. So, I think that we have covered that in those particular subsections.

With regard to the veto and who can come to live on the site, there will still be site rules; those will be agreed with residents and can cover such issues as who is a suitable person to live on the site. You will be aware that the UK Government has just brought in an amendment to the Equality Act 2010 that, in effect, exempts holiday home sites and mobile home parks from that Act. So, for

pryderon mwyaf i berchnogion cartrefi mewn parciau oedd diffyg dewis a thryloywder wrth gyflenwi cyfleustodau ac effaith hynny ar dlodi tanwydd, ymhlith pethau eraill? Bydd eich cynigion yn mynd i'r afael â pharciau cartrefi a safleoedd sy'n rhannol yn barciau cartrefi ac yn rhannol yn barciau gwyliau. Pa oblygiadau a gaiff hyn, os o gwbl, ar bobl sy'n byw mewn parciau gwyliau fel eu cartref parhaol? Yn olaf, o ran yr effeithiau negyddol posibl ar broffidioldeb safle a benthyciadau banc, pa drafodaethau rydych wedi'u cael, neu rydych yn bwriadu eu cael, â benthycwyr banc er mwyn sicrhau bod y pryderon hynny yn bodloni'r cyfyngiadau ymarferol ar eu benthycia y mae'n rhaid iddynt eu bodloni yn ôl y gyfraith?

**Peter Black:** Diolch i Mark Isherwood am ei gefnogaeth gyffredinol i'r Bil a'i sylwadau. Byddaf yn ceisio ymateb i'w bryderon a'i gwestiynau yn eu trefn. Mewn perthynas â gwiriadau y Swyddfa Cofnodion Troseddol a gwiriadau cofnodion troseddol eraill, mae adran 6(5) y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei darparu wrth wneud cais am drwydded. Mae'n rhaid cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod i gymhwyso'r prawf unigolyn addas a phriodol. Mae hynny hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan isadran 8, felly naill ai bydd y rheoliadau yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei darparu, neu mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu nodi beth sydd ei angen. Ni chredwn ei bod yn synhwyrol rhoi gwiriad penodol ar wyneb y Bil, oherwydd gall hynny newid dros amser. Felly, mae mwy o hyblygrwydd i ganiatáu i awdurdodau trwyddedu neu'r Gweinidog drwy reoliad nodi'n union beth sydd ei angen i bennu a yw unigolyn yn addas a phriodol. Felly, credaf ein bod wedi rhoi sylw i hynny yn yr isadrannau penodol hynny.

O ran y fetu a phwy a all ddod i fyw ar y safle, bydd rheolau safle o hyd; cytunir arnynt gyda phreswylwyr, a gallant ymdrin â materion megis pwy sy'n unigolyn addas i fyw ar y safle. Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sydd, i bob pwrpas, yn eithrio safleoedd cartrefi gwyliau a pharciau cartrefi symudol o'r Ddeddf

example, if residents wanted to specify that no-one under the age of 60 can live on the site, that would be allowed. However, that is a matter for each particular park and the rules that they set out; I do not want to do that for them, and I would not be advocating that particular restriction. It is a matter for the residents and the operator.

In terms of Consumer Focus Wales's concerns, the only one that Mark mentioned was about utilities and fuel poverty. That is outside the scope of this Bill, and I do not think that I can do much about it. A lot of the abuses that I have come across in relation to utilities are illegal acts in my view and are matters for consumer protection bodies and Ofgem. When residents have come to me with such abuses, I have always referred them to those authorities. There are issues around fuel poverty to do with the design of the homes themselves and the fact that it is very difficult to clad them or make them more fuel efficient. The Bill contains provisions about what is allowed in terms of making alterations to the home that will make it easier to make the homes more fuel efficient, but the grants and other things that are available are a matter for the Welsh and UK Governments and the schemes that they have in place. On bank lenders, I do not think that the introduction of a licensing fee would jeopardise the financial viability of these sites; these are multi-million pound businesses and the fees imposed will be small compared to the profits of the site operators. Where there are licensing regimes already, such as for houses of multiple occupation, there has been no problem in securing bank finance, and I do not envisage a problem in relation to mobile home sites either.

**Rebecca Evans:** I congratulate Peter Black on bringing this issue forward, and I welcome his statement today. I put on record that I very much support what he is seeking to achieve. I particularly welcome the proposals to introduce a fit-and-proper person test for site operators, which is a vital tool to protect park home residents.

honno. Felly, er enghraifft, pe byddai trigolion yn awyddus i nodi na all unrhyw un o dan 60 oed fyw ar y safle, byddai hynny'n cael ei ganiatáu. Fodd bynnag, mae hynny'n fater i bob parc penodol a'r rheolau a nodir ganddynt; ni fyddwn am wneud hynny ar eu rhan, ac ni fyddwn yn argymhell y cyfyngiad penodol hwnnw. Mater i'r trigolion a'r gweithredwr ydyw.

O ran pryderon Llais Defnyddwyr Cymru, yr unig un y soniodd Mark amdano oedd ynghylch cyfleustodau a thlodi tanwydd. Mae hynny y tu allan i gwmpas y Bil hwn, ac ni chredaf y gallaf wneud llawer am y peth. Mae llawer o'r achosion yr wyf wedi dod ar eu traws mewn perthynas â chamdefnyddio cyfleustodau yn weithredoedd anghyfreithlon yn fy marn i ac yn faterion i gyrff diogelu defnyddwyr ac Ofgem. Pan mae trigolion wedi dod ataf gydag achosion o'r fath, rwyf bob amser wedi eu cyfeirio at yr awdurdodau hynny. Mae materion yn ymwneud â thlodi tanwydd yn ymwneud â dyluniad y cartrefi eu hunain a'r ffaith ei bod yn anodd iawn rhoi cladid arnynt neu eu gwneud yn fwy effeithlon o ran tanwydd. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch yr hyn a ganiateir o ran gwneud addasiadau i'r cartref a fydd yn golygu ei bod yn haws gwneud y cartrefi'n fwy effeithlon o ran tanwydd, ond mater i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw'r grantiau a'r pethau eraill sydd ar gael a'r cynlluniau sydd ganddynt ar waith. O ran benthydwyr banc, ni chredaf y byddai cyflwyno ffi drwyddedu yn peryglu hyfywedd ariannol y safleoedd hyn; mae'r rhain yn fusnesau gwerth miliynau o bunnoedd a bydd y ffioedd a osodir yn fach o'u cymharu ag elw gweithredwyr safleoedd. Lle ceir cyfundrefnau trwyddedu eisoes, megis ar gyfer tai amlfeddiannaeth, ni fu unrhyw broblem o ran sicrhau cyllid banc, ac nid wyf yn rhagweld problem mewn perthynas â safleoedd cartrefi symudol chwaith.

**Rebecca Evans:** Hoffwn longyfarch Peter Black ar gyflwyno'r mater hwn, a chroesawaf ei ddatganiad heddiw. Hoffwn gofnodi fy mod yn cefnogi'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni yn fawr iawn. Croesawaf yn arbennig y cynigion i gyflwyno prawf unigolyn addas a phriodol ar gyfer gweithredwyr safle, sydd yn arf hanfodol i

You acknowledge in your consultation document that the HMO model for a fit-and-proper person test may not be fully effective; I wonder whether you have explored aspects of other models that have been suggested by bodies looking at this issue at the past, such as the liquor licensing system or the Consumer Credit Act 1974, both of which might provide useful inspiration for you. Having said that, I am pleased to hear your response to Mark Isherwood; it seems that you are seeking a system with a good degree of flexibility.

Presumably a licence could be revoked if a site operator acts in a way that breaches the fit-and-proper person conditions, so would you envisage that local authorities would have the power to issue a management order in such a situation? How do you propose to ensure that residents are not negatively affected in such a situation?

I am keen to know whether you are proposing to apply the test retrospectively, or whether it would just be applied to new applicants, but I think you answered that in response to the Minister. Applying it retrospectively could lead to some problems, but also real benefits, so what consideration have you given to that?

With regards to the model standards to which you refer in your consultation document, you say the Bill would make it a condition of each site licence that all applicable Welsh Government model standards for mobile home sites in Wales are adhered to. Are you satisfied that the model standards as currently written are sufficiently robust, or are there improvements or changes that you would like to be made to those standards? Have you made any assessment of to what extent the model standards are already being adhered to?

**Peter Black:** Thank you for those questions, Rebecca, and for your support for the Bill. I considered a number of models for the

ddiogelu preswylwyr cartrefi mewn parciau.

Rydych yn cydnabod yn eich dogfen ymgynghori efallai na fydd y model HMO ar gyfer prawf unigolyn addas a phriodol yn gwbl effeithiol; tybed a ydych wedi archwilio agweddau ar fodolau eraill sydd wedi cael eu hawgrymu gan gyrff sydd wedi edrych ar y mater hwn yn y gorffennol, megis y system trwyddedu gwirodydd neu Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, y gall y ddau ohonynt fod yn ysbrydoliaeth ddefnyddiol ichi. Wedi dweud hynny, rwy'n falch o glywed eich ymateb i Mark Isherwood; mae'n ymddangos eich bod yn chwilio am system gyda chryn dipyn o hyblygrwydd.

Mae'n debyg y gellid diddymu trwydded os bydd gweithredwr safle yn gweithredu mewn ffordd sy'n torri'r amodau unigolyn addas a phriodol, felly a fydddech yn rhagweld y byddai gan awdurdodau lleol y pŵer i gyhoeddi gorchymyn rheoli mewn sefyllfa o'r fath? Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau nad effeithir yn negyddol ar drigolion mewn sefyllfa o'r fath?

Rwy'n awyddus i wybod a ydych yn bwriadu cymhwyso'r prawf yn ôl-weithredol, neu a fyddai ond yn cael ei gymhwyso i ymgeiswyr newydd, ond credaf eich bod wedi ateb hynny mewn ymateb i'r Gweinidog. Gallai ei gymhwyso'n ôl-weithredol arwain at rai problemau, ond hefyd at fanteision gwirioneddol, felly pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi i hynny?

O ran y safonau model y cyfeiriwch atynt yn eich dogfen ymgynghori, dywedwch y byddai'r Bil yn ei gwneud yn un o amodau pob trwydded safle y dylid cadw at bob un o safonau enghreifftiol Llywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. A ydych yn fodlon bod y safonau enghreifftiol fel y'i hysgrifennwyd ar hyn o bryd yn ddigon cadarn, neu a oes gwelliannau neu newidiadau yr hoffech eu gwneud i'r safonau hynny? Ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch i ba raddau y cedwir at y safonau enghreifftiol ar hyn o bryd?

**Peter Black:** Diolch ichi am y cwestiynau, Rebecca, ac am eich cefnogaeth i'r Bil. Ystyriais nifer o fodolau ar gyfer trwyddedu'r

licensing of the sites. Certainly, the Consumer Credit Act could be taken into account by local authorities when they come to consider whether someone is a fit-and-proper person. There is flexibility in the Bill to enable them to do that. However, the Bill has been based on that particular model. I think that it is an appropriate model and, hopefully, we have made the relevant adjustments to make it workable. I suspect that that will be tested in scrutiny in committee, and I look forward to those questions when they come up.

There is provision for management orders in the Bill and also for a local authority to, in effect, take over the running of a site on a temporary basis if someone ceases to be a fit-and-proper person and arrangements need to be made to ensure that the site continues to be run. The local authority will be able to recover the costs of doing that; that is also included in the Bill. Therefore, we are trying to make provisions as best as we can to ensure that local authorities can exercise their duties responsibly without impinging on the rights and security of the residents in the mobile homes.

On the model standards, I think that the last set was in 2008, and I would envisage that, should this Bill become law, they will have to be reviewed and revised. I suspect that they are out of date and they will certainly need to be looked at. However, that is a matter for the Minister. I do not think that it is an imperative and I am sure that the Minister will not need to do it immediately before commencing the Bill. However, they certainly have to be looked at.

**Rhodri Glyn Thomas:** Croesawaf yn fawr iawn y datganiad hwn gan Peter Black, a hefyd y Bil. Mae hyn yn bwnc sydd wedi'i godi ar nifer o achlysuron gan nifer o Aelodau o'r Cynulliad hwn dros y 13 blynedd diwethaf. Mae 3,400 o gartrefi parc ledled Cymru, ac mae meysydd ar gyfer cartrefi parc yn 19 o'r 22 awdurod lleol. Felly, mae'r hyn yn effeithio ar y mwyafrif o Aelodau o'r Cynulliad hwn—mwy na thebyg ei fod yn effeithio ar bob un o'r Aelodau rhanbarthol, a'r mwyafrif hefyd o'r Aelodau

safleoedd. Yn sicr, gallai awdurdodau lleol ystyried y Ddeddf Credyd Defnyddwyr pan ddônt i ystyried a yw rhywun yn unigolyn addas a phriodol. Mae hyblygrwydd yn y Bil er mwyn eu galluogi i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Bil yn seiliedig ar y model penodol hwnnw. Credaf ei fod yn fodel priodol a, gobeithio, byddwn wedi gwneud yr addasiadau perthnasol i'w wneud yn ymarferol. Rwy'n amau y caiff hynny ei brofi wrth graffu yn y pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at y cwestiynau hynny pan fyddant yn codi.

Mae darpariaeth ar gyfer gorchmynion rheoli yn y Bil a hefyd i awdurdod lleol, i bob pwrpas, gymryd drosodd y gwaith o redeg safle dros dro os bydd rhywun yn peidio â bod yn unigolyn addas a phriodol ac mae angen gwneud trefniadau i sicrhau bod y safle yn parhau i gael ei redeg. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu adennill y costau o wneud hynny; caiff hynny ei gynnwys yn y Bil hefyd. Felly, rydym yn ceisio gwneud darpariaethau hyd eithaf ein gallu er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol arfer eu dyletswyddau yn gyfrifol heb amharu ar hawliau a diogelwch y trigolion yn y cartrefi symudol.

O ran y safonau enghreifftiol, credaf mai yn 2008 y gwnaed y set ddiwethaf, a byddwn yn rhagweld, pe byddai'r Bil hwn yn dod yn gyfraith, y bydd yn rhaid iddynt gael eu hadolygu a'u diwygio. Rwy'n amau eu bod wedi dyddio a bydd angen edrych arnynt yn sicr. Fodd bynnag, mater i'r Gweinidog yw hwnnw. Ni chredaf ei fod yn hanfodol ac rwy'n siŵr na fydd angen i'r Gweinidog wneud hynny yn union cyn cychwyn y Bil. Fodd bynnag, mae angen edrych arnynt yn sicr.

**Rhodri Glyn Thomas:** I very much welcome this statement by Peter Black, and also the Bill. This is a subject that has been raised on a number of occasions by a number of Assembly Members over the past 13 years. There are 3,400 park homes throughout Wales, and there are park home sites in 19 of the 22 local authorities. Therefore, this affects the majority of Assembly Members—more than likely it affects every regional Member, and also the majority of the constituency Members.

etholaethol.

Fel y mae Peter eisoes wedi'i ddweud, rydym yn sôn gan fwyaf am bobl hŷn—pobl sydd wedi gwerthu'u cartrefi ac wedi buddsoddi mewn cartrefi parc er mwyn ceisio gwneud y gorau o'r ecwiti oedd ganddynt yn eu cartrefi a sicrhau bywyd ychydig bach yn fwy hwylus a llewyrchus yn eu blynyddoedd hŷn. Mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi cynnal arolwg o 236 o breswylwyr cartrefi parc yng Nghymru, ac roedd 62% o'r rheini yn dweud eu bod wedi wynebu problemau, ac roedd 11% ohonynt yn dweud eu bod wedi wynebu ychydig rhyw fath o fygythiad, geiriol neu gorfforol, gan berchennog y maes lle'r oedd eu cartrefi parc wedi'u lleoli.

Felly, mae'r Bil hwn yn eithriadol o bwysig. Nid oes modd i'r Bil ymwneud â phob un o'r problemau, ond bydd yn fodd i ddiogelu buddiannau perchnogion y cartrefi parc a bydd yn fodd hefyd i reoleiddio'r bobl sy'n rheoli'r parciau hyn ac i sicrhau safon.

Fy nghwestiwn sylfaenol yw hyn: a ydych yn gobeithio ac yn hyderus y bydd y Bil hwn nid yn ateb yr holl broblemau yn ei hun ond yn arwain at ddatblygiadau a fydd yn golygu y bydd y problemau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach gan awdurdodau lleol, gan y Llywodraeth hon a chan Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac y bydd y Bil yn mynd i'r afael â'r ystod eang o broblemau sy'n bodoli ac bydd o leiaf yn fan cychwyn priodol inni geisio sicrhau bod hawliau perchnogion y cartrefi parc hyn yn cael eu diogelu i'r dyfodol?

**Peter Black:** Yes, I do, and I hope that, once this Bill comes in, the duty that is placed on local authorities and the resources that are made available to them will enable them to be more proactive in policing the licences that they will then be responsible for granting. As part of that policing, a number of the abuses that have been brought to our attention by Consumer Focus Wales and others will be tackled.

3.15 p.m.

**Kirsty Williams:** I thank Peter for his statement this afternoon, and I congratulate

As Peter has already said, we are talking primarily about older people—people who have sold their homes and have invested in park homes in order to try to optimise the equity that they had in their homes and to ensure a somewhat easier and more prosperous life in their later years. Consumer Focus Wales carried out a survey of 236 park home residents in Wales, and 62% said that they had faced problems, and 11% said that they had faced some kind of threat, either verbal or physical, from the owner of the site where their park homes were located.

Therefore, this Bill is exceptionally important. It is not possible for the Bill to address all of the problems, but it will be a means of protecting the interests of park home owners, and it will also be a means of regulating the people who manage these parks and of ensuring standards.

My basic question is this: do you hope and are you confident that this Bill will not answer all the problems in itself but lead to developments that will mean that these problems will be investigated further by local authorities, by this Government and by the UK Government, and that the Bill will address a wide range of the problems that exist and will at least be an appropriate starting point for us to endeavour to ensure that the rights of park home owners are protected in future?

**Peter Black:** Ydw, gobeithiaf, unwaith y daw'r Bil hwn yn weithredol, y bydd y ddyletswydd a roddir ar awdurdodau lleol a'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn eu galluogi i fod yn fwy rhagweithiol wrth blismona'r trwyddedau y byddant wedyn yn gyfrifol am eu cyflwyno. Fel rhan o'r gwaith plismona hwnnw, eir i'r afael â nifer o'r achosion o gamddefnyddio a gafodd eu dwyn at ein sylw gan Llais Defnyddwyr Cymru ac eraill.

**Kirsty Williams:** Diolch i Peter am ei ddatganiad y prynhawn yma, a hoffwn ei

him on the work done to date. I am only slightly miffed that his name was pulled out of the hat rather than mine, having submitted the same proposal on every single occasion I have had the opportunity to do so. However, I am very grateful on behalf of my constituents that Peter has been able to bring this forward.

For the last 13 years, I have worked alongside people in Brecon and Radnorshire who have been subject to some vile treatment by the owners of the sites on which they live. As part of my work, I have myself encountered that vile behaviour from some park owners, who have questioned me on why I was pursuing these issues. My interaction with them is enough to tell me that this law is badly needed.

These residents are often very vulnerable and do not have anyone to stick up for them. Local authorities, for whatever reasons, have been slow to respond to the needs of this particular section of our population, as have the police. I hope that, as a result of your work, Peter, and the work of Consumer Focus Wales, all authorities will now take these issues seriously. I will ask two specific questions.

First, several times in your statement, you mentioned the role of tenants' associations within park sites. Sometimes, individuals interested in setting up tenants' associations have been subjected to abuse, because the site owners recognise that, by working together, residents have more of a chance to make their voices heard. Do your proposals look to address how we can make such associations more successful in residential parks?

Secondly, on regulation, I know that, in the Minister's contribution, he said that he had concerns about the levels of regulation, but what discussions have you had with him to ensure that the regulations that would enact some of the provisions of this Bill will be carried out for the Government? I would welcome support for you, as an individual Member, to develop this legislation so that the need for regulations is diminished, because I have grave concerns that if regulation is left to the Welsh Government,

longyfarch ar y gwaith a wnaed ganddo hyd yn hyn. Rwyf ychydig yn siomedig fod ei enw wedi ei dynnu allan o'r het yn hytrach na fy un i, wedi i mi gyflwyno'r un cynnig ar bob un achlysur posibl. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar iawn ar ran fy etholwyr bod Peter wedi gallu ei gyflwyno.

Dros y 13 mlynedd diwethaf, rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â phobl ym Mrycheiniog a Maesyfed sydd wedi cael eu trin yn warthus gan berchnogion y safleoedd lle maent yn byw. Fel rhan o'm gwaith, rwyf wedi dod ar draws ymddygiad gwael o'r fath gan rai perchenogion parciau, a wnaeth fy holi pam fy mod yn mynd ar drywydd y materion hyn. Roedd hyn yn ddigon i ddweud wrthyf fod angen dirfawr am y gyfraith hon.

Mae'r trigolion hyn yn aml yn agored iawn i niwed ac nid oes ganddynt unrhyw un i sefyll i fyny drostynt. Mae awdurdodau lleol a'r heddlu, am ba resymau bynnag, wedi bod yn araf i ymateb i anghenion y gyfran arbennig hon o'n poblogaeth. Gobeithio, o ganlyniad i'ch gwaith, Peter, a gwaith Llais Defnyddwyr Cymru, y bydd pob awdurdod bellach yn cymryd y materion hyn o ddifrif. Hoffwn ofyn dau gwestiwn penodol.

Yn gyntaf, soniasoch sawl gwaith yn eich datganiad am rôl cymdeithasau tenantiaid mewn safleoedd parciau. Weithiau, mae unigolion sydd â diddordeb mewn sefydlu cymdeithasau tenantiaid wedi bod yn destun cam-drin, oherwydd bod perchnogion y safle yn cydnabod, drwy weithio gyda'i gilydd, y gall trigolion gael mwy o gyfle i leisio'u barn. A yw eich cynigion yn ystyried sut y gallwn wneud cymdeithasau o'r fath yn fwy llwyddiannus mewn parciau preswyl?

Yn ail, o ran rheoleiddio, yng nghyfraniad y Gweinidog, gwn iddo ddweud ei fod yn pryderu am y lefelau rheoleiddio, ond pa drafodaethau rydych wedi'u cael gydag ef i sicrhau bod y rheoliadau a fyddai'n gweithredu rhai o ddarpariaethau'r Bil hwn yn cael eu cyflawni ar gyfer y Llywodraeth? Byddwn yn croesawu cefnogaeth i chi, fel Aelod unigol, i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon fel bod yr angen am reoliadau yn lleihau, oherwydd mae gennyf bryderon dybryd os bydd rheoleiddio'n cael ei adael i

those regulations will never appear.

**Peter Black:** Thank you for that contribution, Kirsty, and thank you for your support for the Bill. I certainly recognise the huge contribution that you and your constituents have made to the work on drafting this Bill's contents. Certainly, a lot of the stuff that you and your constituents have brought to my attention has led directly to provisions within the Bill.

In relation to tenants' associations, the current law is that 50% of the tenants need to be signed up before an association can be recognised. However, there have been problems in the past, with reports of intimidation on sites to try to prevent tenants from joining, to make sure that the required 50% was not reached. The Bill makes provision for the membership list of a tenants' association to be lodged with a local authority and not made public, so that the owner of a site will not be able to determine who is a member and who is not. He will have to take the local authority's certification on face value in that regard, and the local authority will act as an independent arbiter. Hopefully, that will enable more tenants' associations to be set up to carry out their very important work, as is done at the moment by those currently in situ.

Another provision in the Bill is that we have exempted from the Freedom of Information Act 2000 any requests for data about the membership of tenants' associations, so a local authority will not be required to give that information if an FOI request is made.

In relation to the regulations, as I said to the Minister, I am more than happy to work with him and his officials to try to reduce the number of regulations. If you go through the explanatory memorandum and look at the list, you will see that a large number of them are for basic administrative issues that need to be put in place before the Bill can be commenced. Obviously, I do not want to second-guess what the Minister wants to do on a number of those issues, so it is important that his officials come forward and offer

Lywodraeth Cymru, na fydd y rheoliadau hynny fyth yn ymddangos.

**Peter Black:** Diolch am y cyfraniad hwnnw, Kirsty, a diolch ichi am eich cefnogaeth i'r Bil. Rwyf yn sicr yn cydnabod y cyfraniad enfawr rydych chi a'ch etholwyr wedi'i wneud i'r gwaith ar ddrafftio cynnwys y Bil hwn. Yn sicr, mae llawer o'r materion y gwnaethoch chi a'ch etholwyr eu tynnu at fy sylw wedi arwain yn uniongyrchol at ddarpariaethau yn y Bil.

Mewn perthynas â chymdeithasau tenantiaid, y gyfraith ar hyn o bryd yw bod angen i 50% o'r tenantiaid fod wedi cofrestru cyn y gellir cydnabod cymdeithas. Fodd bynnag, cafwyd problemau yn y gorffennol, gydag adroddiadau o frawychu ar safleoedd i geisio atal tenantiaid rhag ymuno, er mwyn sicrhau na chyrhaeddir y nod o 50%. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth er mwyn i restr aelodaeth cymdeithas tenantiaid i gael ei chyflwyno gydag awdurdod lleol ac iddi beidio â chael ei chyhoeddi, fel na fydd y perchennog safle yn gallu penderfynu pwy sy'n aelod a phwy sydd ddim yn aelod. Bydd yn rhaid iddo gymryd gair yr awdurdod lleol yn hynny o beth, a bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel canolwr annibynnol. Gobeithio y bydd hynny'n golygu y caiff mwy o gymdeithasau tenantiaid eu sefydlu i wneud eu gwaith pwysig iawn, fel y gwneir ar hyn o bryd gan y rheini sy'n bodoli eisoes.

Un o ddarpariaethau eraill y Bil yw ein bod wedi eithrio o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 unrhyw geisiadau am ddata ynghylch aelodaeth o gymdeithasau tenantiaid, felly ni fydd yn ofynnol i awdurdod lleol roi'r wybodaeth honno os gwneir cais am ryddid gwybodaeth.

Mewn perthynas â'r rheoliadau, fel y dywedais wrth y Gweinidog, rwy'n fwy na pharod i weithio gydag ef a'i swyddogion i geisio lleihau nifer y rheoliadau. Os byddwch yn mynd drwy'r memorandwm esboniadol ac yn edrych ar y rhestr, fe welwch fod nifer fawr ohonynt ar gyfer materion gweinyddol sylfaenol y mae angen eu rhoi ar waith cyn y gellir gweithredu'r Bil. Yn amlwg, nid wyf am ragfynegei'r hyn y mae'r Gweinidog am ei wneud ar nifer o'r materion hynny, felly mae'n bwysig bod ei swyddogion yn dod

suggestions and amendments so that we can reduce the number of those regulations. The English Bill on mobile homes contains a huge number of regulations, and we have a lot more on the face of our Bill than it does. However, if we can reduce the number of regulations, that will happen. I have every confidence that the Minister will implement these regulations. I think that the issue is really one of time and of how quickly those regulations can be put in place so that the Bill can be commenced. I do not want an unnecessary delay, if it can be avoided, and I am sure that the Minister agrees with me on that. We will certainly do our best to reduce the burden on his officials.

**Darren Millar:** I want to add my congratulations to Peter on his work so far on this issue, and to note the contribution that Consumer Focus Wales has made to the debate and to the development of the Bill. However, I am a little concerned that the scope of the Bill may be too narrow to address some of the concerns that I see in my own constituency, because the harassment, intimidation, exploitation and sharp practice that is clearly evident on some of the park home sites is also evident on some of the caravan sites and holiday parks in my area.

I am not trying to confuse the two issues here, as I know the distinction between the two, but I am simply making the point that there is a growing number of people whose main accommodation is a mobile home on a caravan park. We must not overlook that fact in the development of this legislation, because they need protection, too, and we need to ensure that there is an effective licensing regime for those holiday parks where mobile homes have people living in them for sometimes nine, 10, 11 or even 12 months of the year, certainly in my constituency. I ask you Peter—and I know that we have had some discussions about this outside the Chamber—whether at the next stage of this legislation, as it continues to develop and enters committee stage, there will be an opportunity for the licensing issues of holiday caravan parks to be addressed also, so that caravan owners can also have some protection from what some have described as the ‘extortion’ and very poor practice on

ymlaen ac yn cynnig awgrymiadau a diwygiadau fel y gallwn leihau nifer y rheoliadau hynny. Mae Bil Lloegr ar gartrefi symudol yn cynnwys nifer fawr o reoliadau, ac mae gennym fwy o lawer ar wyneb ein Bil ni o gymharu â hwnnw. Fodd bynnag, os gallwn leihau nifer y rheoliadau, bydd hynny’n digwydd. Mae gennyf bob hyder y bydd y Gweinidog yn gweithredu’r rheoliadau hyn. Credaf mai amser sy’n bwysig a pha mor gyflym y gellir rhoi’r rheoliadau hynny ar waith fel y gellir gweithredu’r Bil. Nid wyf am weld oedi diangen, os gellir ei osgoi, ac rwy’n siŵr bod y Gweinidog yn cytuno â mi ar hynny. Byddwn yn sicr yn gwneud ein gorau i leihau’r baich ar ei swyddogion.

**Darren Millar:** Hoffwn innau longyfarch Peter ar ei waith hyd yma ar y mater hwn, a nodi cyfraniad Llais Defnyddwyr Cymru at y ddatl ac at ddatblygu’r Bil. Fodd bynnag, rwyf ychydig yn bryderus y gallai cwmpas y Bil fod yn rhy gul i fynd i’r afael â rhai o’r pryderon a welaf yn fy etholaeth fy hun, oherwydd bod yr achosion o aflonyddu, brawychu, camfanteisio ac ymarfer diegwyddor sydd yn amlwg ar rai o’r safleoedd cartrefi mewn parciau hefyd yn amlwg ar rai o’r safleoedd carafanau a pharciau gwyliau yn fy ardal i.

Nid wyf yn ceisio cymysgu’r ddau fater hwn, gan fy mod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng y ddau, rwyf ond yn gwneud y pwynt bod nifer gynyddol o bobl y mae eu prif lety yn gartref symudol ar barc carafanau. Rhaid inni beidio ag anghofio’r ffaith honno wrth ddatblygu’r ddeddfwriaeth hon, oherwydd mae angen eu hamddiffyn hwy hefyd, ac mae angen inni sicrhau bod trefn drwyddedu effeithiol ar gyfer y parciau gwyliau hynny lle mae pobl wedi bod yn byw mewn cartrefi symudol am naw, 10, 11 neu hyd yn oed 12 mis y flwyddyn weithiau, yn sicr yn fy etholaeth i. Gofynnaf ichi Peter—a gwn ein bod wedi cael rhai trafodaethau am hyn y tu allan i’r Siambr—a fydd cyfle yn ystod cam nesaf y ddeddfwriaeth hon, wrth iddi gael ei datblygu a mynd i gyfnod pwyllgor, i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â thrwyddedu parciau carafanau gwyliau hefyd, fel y gellir amddiffyn perchnogion carafanau rywfaint hefyd rhag yr hyn y mae rhai wedi ei ddisgrifio fel ‘cribdeiliaeth’ ac arfer gwael



those particular sites. I note that, as it stands, the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 is not amended in any way by this particular piece of legislation, and it may well be that there is an opportunity at a later date to do that.

**Peter Black:** I thank Darren for his comments. This is a matter that he has raised before, of course. The legal basis for caravan sites and for mobile homes is slightly different. For that reason, holiday sites fall outside the scope of this Bill. In fact, holiday caravans are mainly regulated under the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 and the Caravan Sites Act 1968, which also apply to mobile homes. However, the Mobile Homes Act 1983 and the Housing Act 2004 do not apply to holiday caravans, and they form the basis of the legislation that I am bringing forward and also define the scope of that legislation. Therefore, any provisions relating to holiday caravans would introduce quite a complex set of amendments and regulations, which would be very difficult to accommodate within the existing Bill.

There is also a different economic factor for holiday caravans than is the case for residential sites, simply because the holiday industry has an impact on tourism and other factors, while the residential mobile home sites that I am seeking to regulate here are largely—as it says on the tin—residential homes for the people living there, and they do not, as such, impact on the tourism offer of a particular area. Therefore, with those considerations, any legislation relating to holiday caravans would need to be a part of a separate piece of legislation. I am sure that, if you are successful next time, Darren, you might consider doing that.

iawn ar y safleoedd penodol hynny. Nodaf, fel y mae, nad yw Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 yn cael ei diwygio mewn unrhyw ffordd gan y darn penodol hwn o ddeddfwriaeth, ac mae'n bosibl iawn y bydd cyfle yn ddiweddarach i wneud hynny.

**Peter Black:** Diolch i Darren am ei sylwadau. Mae hwn yn fater a gododd o'r blaen, wrth gwrs. Mae'r sail gyfreithiol i'r safleoedd carafanau a chartrefi symudol ychydig yn wahanol. Am y rheswm hwnnw, ni chaiff safleoedd gwyliau eu cynnwys o fewn cwmpas y Bil hwn. Yn wir, caiff carafanau gwyliau eu rheoleiddio yn bennaf o dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 a Deddf Safleoedd Carafanau 1968, sydd hefyd yn gymwys i gartrefi symudol. Fodd bynnag, nid yw Deddf Cartrefi Symudol 1983 a Deddf Tai 2004 yn gymwys i garafanau gwyliau, ac maent yn ffurfio sail y ddeddfwriaeth yr wyf fi'n ei chyflwyno, a hefyd yn diffinio cwmpas y ddeddfwriaeth honno. Felly, byddai unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â charafanau gwyliau yn cyflwyno set eithaf cymhleth o ddiwygiadau a rheoliadau, a fyddai'n anodd iawn darparu ar eu cyfer yn y Bil presennol.

Ceir hefyd ffactor economaidd gwahanol ar gyfer carafanau gwyliau o gymharu â safleoedd preswyl, yn syml oherwydd bod y diwydiant gwyliau yn cael effaith ar dwristiaeth a ffactorau eraill, tra bod y safleoedd cartrefi symudol preswyl yr wyf yn ceisio eu rheoleiddio yma i raddau helaeth—fel sy'n amlwg o'r disgrifiad—yn gartrefi preswyl i'r bobl sy'n byw yno, ac nid ydynt, fel y cyfryw, yn effeithio ar arlwy twristiaeth ardal benodol. Felly, gyda'r ystyriaethau hynny, byddai angen i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â charafanau gwyliau fod yn rhan o ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân. Rwy'n siŵr, os byddwch yn llwyddiannus y tro nesaf, Darren, y gallech ystyried gwneud hynny.

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

**Y Lluoedd Arfog  
The Armed Forces**

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Cynnig NDM5084 William Graham*

*Motion NDM5084 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn talu teyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog;*

*1. Pays tribute to the immense sacrifice and commitment of those who have served in our Armed Forces;*

*2. Yn mynegi pryder am ddiffyg cydlyniant a chapasiti gwasanaethau yng Nghymru i gefnogi cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma ac yn nodi'r rôl y gall y trydydd sector ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau wedi'u cydlynu i gyn-filwyr;*

*2. Expresses concern at the lack of coordination and capacity of services in Wales to support ex-service personnel suffering with post-traumatic stress disorder (PTSD) and notes the role that the third sector can play in the delivery of coordinated services to ex-service personnel;*

*3. Yn nodi canfyddiadau Adroddiad Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn fanwl sefydlu canolfan breswyl yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr gydag anhwylder straen wedi trawma; ac*

*3. Notes the findings of the Healthcare and the Armed Forces Community in Wales Report and calls on the Welsh Government to give careful consideration to establishing a residential centre in Wales for ex-service personnel with PTSD; and*

*4. Yn cydnabod y rôl hanfodol y mae cofebion rhyfel yn ei chwarae wrth sicrhau nad yw aberth y bobl hynny sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog byth yn mynd yn angof, ac yn nodi pwysigrwydd gwarchod cofebion rhyfel yn rhan allweddol o dreftadaeth Cymru ac fel canolbwynt ar gyfer cofio.*

*4. Recognises the vital role that war memorials play in ensuring that the sacrifices of many who have served in our Armed Forces are never forgotten, and notes the importance of protecting war memorials as an essential part of Welsh heritage and a focal point for remembrance.*

**Mark Isherwood:** I move the motion.

**Mark Isherwood:** Cynigiaf y cynnig.

In this remembrance week, we pay tribute to the immense sacrifice and commitment of those who have served in our armed forces, remembering those who have given their lives in all conflicts over the years. The repatriation to the UK tomorrow of the bodies of two soldiers from 1<sup>st</sup> Battalion The Royal Gurkha Rifles reminds us that this remains an ever-present reality today.

Yn yr wythnos goffa hon, talwn deyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rhai sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog, gan gofio'r rhai sydd wedi marw ym mhob rhyfel dros y blynyddoedd. Mae dychwelyd cyrff dau filwr o Fataliwn Cyntaf Reifflwyr Brenhinol y Gurkhas i'r DU yfory yn ein hatgoffa bod hyn yn parhau i fod yn realiti bythol o hyd heddiw.

As I heard as a guest at Llay Royal British Legion's festival of remembrance last Saturday, this is also about the growing need created by the pressures on family life for

Fel y clywais fel gwestai yng ngŵyl goffa Lleng Brydeinig Frenhinol Llai ddydd Sadwrn diwethaf, mae a wnelo hyn hefyd â'r angen cynyddol a grëwyd gan y pwysau sydd

those in the armed forces, and by the dislocation for those moved on to civvy street. Some of those will be medically discharged and in need of assistance, while others will be dealing with the isolation, loneliness and depression that can result from dislocation.

Our motion expresses concern at the lack of co-ordination and capacity of services in Wales to support ex-service personnel suffering from post-traumatic stress disorder, or PTSD. It also notes the role that the third sector can play in the delivery of co-ordinated services to ex-service personnel, notes the findings of the 'Healthcare and the Armed Forces Community in Wales' report, and calls on the Welsh Government to give careful consideration to establishing a residential centre in Wales for ex-service personnel who have PTSD. It also notes the importance of protecting war memorials.

I campaigned with CAIS, the north Wales-based voluntary sector provider of drug and alcohol services, on behalf of the traumatised ex-forces personnel who had come to rely on the Tŷ Gwyn ex-service treatment unit in Llandudno. Their complex needs had not been met by the NHS or by Combat Stress. When I visited Tŷ Gwyn, I met a group of veterans aged from their 80s to their early 20s, who had served in engagements spanning rearguard action at Dunkirk through to Gulf 2. Initial bravado was followed by tears as they told me their stories.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.27 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.27 p.m.*

Despite our campaign, Tŷ Gwyn closed in late 2005. CAIS undertook a feasibility study into the possibility of its delivering a replacement service. The need was there but the funding was not. It is something that the Pathways centre treating ex-service personnel for PTSD also found when it subsequently came and went in Bangor.

Whenever I challenge the Welsh Government over this, it insists that the services required can be provided by the NHS. Steven Hughes,

ar fywyd teuluol i'r rhai yn y lluoedd arfog, a chan y dadleoli i'r rhai sy'n symud ymlaen i fywyd arferol. Caiff rhai o'r rheini eu rhyddhau am resymau meddygol a bydd angen cymorth arnynt, tra bydd eraill yn delio â'r arwahanrwydd, yr unigedd a'r iselder a all ddeillio o ddadleoli.

Mae ein cynnig yn mynegi pryder am y diffyg cydlyniant a chapasiti gwasanaethau yng Nghymru i gefnogi cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, neu PTSD. Mae hefyd yn nodi'r rôl y gall y trydydd sector ei chwarae i ddarparu gwasanaethau wedi'u cydlynu i gyn-filwyr, yn nodi canfyddiadau'r adroddiad 'Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru', ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn ofalus sefydlu canolfan breswyl yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma. Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd amddiffyn cofebion rhyfel.

Ymgyrchais â CAIS, darparwr gwasanaethau cyffuriau ac alcohol o'r sector gwirfoddol yn y gogledd, ar ran y cyn-filwyr a oedd yn dioddef trawma ac a oedd wedi dod i ddibynnu ar uned driniaeth Tŷ Gwyn i gyn-filwyr yn Llandudno. Nid oedd eu hanghenion cymhleth wedi'u diwallu gan y GIG na chan Combat Stress. Pan ymwelais â Tŷ Gwyn, cyfarfûm â grŵp o gyn-filwyr ag ystod oedran o'r wythdegau i'r ugeiniau cynnar, a oedd wedi gwasanaethu mewn brwydrau o'r ymladd yn Dunkirk i Gwlff 2. Wedi'r ymffrost ar y dechrau daeth y dagrau wrth iddynt adrodd eu hanes i mi.

Er gwaethaf ein hymgyrch, caewyd Tŷ Gwyn ddiwedd 2005. Cynhaliodd CAIS astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth newydd. Roedd yr angen yno, ond nid y cyllid. Mae'n rhywbeth hefyd a welodd y ganolfan Llwybrau a oedd yn trin cyn-filwyr am anhwylder straen wedi trawma pan ddaeth am gyfnod byr wedi hynny i Fangor.

Pryd bynnag y byddaf yn herio Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn, mae'n mynnu y gall y gwasanaethau sydd eu hangen gael eu

regimental medical officer of 2<sup>nd</sup> Battalion The Parachute Regiment in the Falkland Islands in 1982, and also director of front-line resuscitation at the Bluff Cove disaster, who presented with PTSD himself a decade later, has said that,

‘With no disrespect to NHS Mental Health professionals, it is likely that the first time they encounter an ex-serviceman with Combat Related – PTSD will be their first appreciation of a complex psychological condition that correlates poorly with the usual spectrum of “civilian” mental health disorders’.

He also said that,

‘If conventional Mental Health Services were so comprehensive there would not be such a high veteran rate of suicide, high prison population, and large number of veterans sleeping rough.’

Complex military PTSD is, by definition, not within the routine practice of NHS mental health services, other than the specialist trauma day unit in Cardiff.

In March 2010, the Welsh Government announced funding for veteran-specific community mental health specialists as part of a hub-and-spoke all-Wales veterans health and wellbeing service. This does not address the need for short-term residential treatment for those who have complex needs. We call on the Welsh Government to engage. Surely there is no need to complicate the referral pathway for veterans in Wales. A simple grass-roots third sector approach is all that it would take, backed by proven results and delivered in partnership with health boards.

The Healthcare Inspectorate Wales report published in May, ‘Healthcare and the Armed Forces Community in Wales’, recommends the establishment of an armed forces forum,

darparu gan y GIG. Mae Steven Hughes, swyddog meddygol catrodol o 2<sup>il</sup> Fataliwn Catrawd y Parasiwtwyr yn rhyfel Ynysoedd Falkland yn 1982, a hefyd gyfarwyddwr dadebru yn y rheng flaen yn nhrychineb Bluff Cove, a gafodd anhwylder straen wedi trawma ei hun ddegawd yn ddiweddarach, wedi dweud,

Heb unrhyw amharch i weithwyr proffesiynol Iechyd Meddwl y GIG, mae’n debygol mai’r tro cyntaf y byddant yn dod ar draws cyn-filwr gydag Anhwylder Straen wedi Trawma sy’n Gysylltiedig ag Ymladd fydd y tro cyntaf y bydd yn rhaid iddynt orfod deall cyflwr seicolegol cymhleth nad oes ganddo fawr o gysylltiad â sbectrwm arferol anhwylderau iechyd meddwl “sifilaidd”.

Dyweddodd hefyd,

Pe bai Gwasanaethau Iechyd Meddwl confensiynol mor gynhwysfawr, ni fyddai’r gyfradd hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr mor uchel, ni fyddai poblogaeth y carchardai mor uchel, ac ni fyddai nifer fawr o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd.

Nid yw anhwylder straen wedi trawma milwrol cymhleth, drwy ddiffiniad, yn rhan o feddygaeth arferol gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, ar wahân i’r uned ddydd trawma arbenigol yng Nghaerdydd.

Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer arbenigwyr iechyd meddwl cymunedol sy’n ymwneud yn benodol â chyn-filwyr fel rhan o wasanaeth canolog a chysylltiedig ym maes iechyd a lles i gyn-filwyr ar gyfer Cymru gyfan. Nid yw hyn yn mynd i’r afael â’r angen am driniaeth breswyl tymor byr i’r rhai sydd ag anghenion cymhleth. Galwn ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i hyn. Nid oes angen cymhlethu’r llwybr atgyfeirio i gyn-filwyr yng Nghymru. Dull gweithredu syml gan y trydydd sector ar lawr gwlad yw’r cyfan fyddai ei angen, wedi’i ategu gan ganlyniadau profedig ac wedi’i gyflwyno mewn partneriaeth â byrddau iechyd.

Mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai, ‘Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru’, yn argymhell y dylid sefydlu

bringing together the public sector with service charities, the third sector and members of the armed forces themselves. This has merit, provided that the experts in the armed forces and ex-forces communities are listened to and that services are designed with them, not for them. The report states that the issue of mental health problems amongst veterans caused as a result of experiences during service was the subject of a significant proportion of the responses received. The report proposes that each health board build on the new hub-and-spoke all-Wales veterans health and wellbeing service by establishing a veterans mental health clinical network within each health board area. However, we lack data to assess the effectiveness of the hub-and-spoke out-patient treatment option run by Dr Bisson in Cardiff.

3.30 p.m.

We do not know how many returning forces personnel are now living in Wales with impairments due to physical or mental injuries suffered on duty. It is understood that Dr Bisson established an extensive assessment, but what are the results of that? What are the outcome measures from his service and, crucially, what is the service user's feedback on this service.

Regarding a residential centre for veterans in Wales, the Healthcare Inspectorate Wales report quotes a Royal Marines veteran, who states:

'This would serve as a tangible example of visible commitment to Welsh Servicemen, who account for at least eight percent of the total UK veteran population.'

It also quotes a former Welsh guardsmen and former Falkland Islands veteran, who had to travel across the border into England for treatment for post-traumatic stress disorder. He identified,

'a need to give careful consideration to establishing a residential centre in Wales'.

fforwm y lluoedd arfog, gan ddwyn ynghyd y sector cyhoeddus gydag elusennau'r lluoedd arfog, y trydydd sector ac aelodau o'r lluoedd arfog eu hunain. Mae gwerth i hyn, ar yr amod y gwrandewir ar yr arbenigwyr yn y lluoedd arfog a chymunedau'r cyn-filwyr a bod y gwasanaethau'n cael eu cynllunio gyda hwy, ac nid iddynt hwy. Noda'r adroddiad mai problemau iechyd meddwl ymhlith cyn-filwyr a achosir o ganlyniad i brofiadau wrth wasanaethu oedd testun cyfran sylweddol o'r ymatebion a gafwyd. Mae'r adroddiad yn cynnig bod pob bwrdd iechyd yn adeiladu ar y gwasanaeth iechyd a lles canolog a chysylltiedig newydd i gyn-filwyr ar gyfer Cymru gyfan drwy sefydlu rhwydwaith clinigol iechyd meddwl o gyn-filwyr ym mhob ardal bwrdd iechyd. Fodd bynnag, nid oes gennym ddata i asesu effeithiolrwydd yr opsiwn triniaeth i gleifion allanol ar ffurf gwasanaeth canolog a chysylltiedig a redir gan Dr Bisson yng Nghaerdydd.

Ni wyddom faint o aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi dychwelyd ac sydd bellach yn byw yng Nghymru sydd â nam o ganlyniad i anafiadau corfforol neu feddyliol a gafwyd pan oeddent ar ddyletswydd. Deellir i Dr Bisson lunio asesiad helaeth, ond beth yw canlyniadau hynny? Beth yw'r dulliau o fesur canlyniadau o'i wasanaeth, ac, yn hollbwysig, beth yw adborth y defnyddiwr gwasanaeth ar y gwasanaeth hwn.

O ran canolfan breswyl i gyn-filwyr yng Nghymru, mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dyfynnu cyn-filwr o'r Môr-filwyr Brenhinol, sy'n dweud:

'Byddai hyn yn enghraifft bendant o ymrwymiad gwladwy i Filwyr Cymru, sy'n cynrychioli o leiaf wyth y cant o gyfanswm poblogaeth cyn-filwyr y DU.'

Mae hefyd yn dyfynnu cyn-aelod o'r Gwarchodlu Cymreig a chyn-filwr yn rhyfel Ynysoedd Falkland, a oedd yn gorfod teithio ar draws y ffin i Loegr i gael triniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma. Nododd fod,

'angen rhoi ystyriaeth ofalus i sefydlu canolfan breswyl yng Nghymru'.

The report states that many members of the armed forces community commented on the desirability of having a residential centre for veterans in Wales as,

‘something that you can see, touch and feel...of real psychological benefit’

The report also recommends that:

‘The Welsh Government should consider the utility of establishing a form of residential facility within Wales.’

In evidence to the Welsh Affairs Committee this week, Plaid Cymru Westminster leader, Elfyn Llwyd, warned that too many armed forces personnel fail to get the help they need when returning to civilian life and called for a centre to be established in Wales to help veterans suffering from trauma. I applaud his dedicated commitment to this issue.

Among combat veterans, there is a common pattern of complex PTSD and attempted symptom suppression through alcohol and/or drug abuse. That leads to a downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontation with the law and even suicide. A report from the Howard League for Penal Reform, entitled ‘Leave No Veteran Behind’, asked why so many veterans find themselves caught in the criminal justice system, stating that it is vital that the complex needs of armed forces personnel are adequately addressed and that we do everything that we can to help those who serve their countries to adjust to civilian life.

Welsh guardsman, Lance Sergeant Dan Collins, tragically and unnecessarily took his life on New Year’s Day. He desperately sought help for his post-traumatic stress, first through the Ministry of Defence’s medical assessment programme. He was subsequently referred to an NHS mental health ward, where he spent four weeks without being treated with anything other than various medications.

Noda’r adroddiad fod llawer o aelodau o gymuned y lluoedd arfog wedi nodi pa mor ddymunol fyddai cael canolfan breswyl i gyn-filwyr yng Nghymru fel,

‘rhywbeth y gallwch ei weld, ei gyffwrdd a’i deimlo ... o fudd seicolegol gwirioneddol’

Mae’r adroddiad hefyd yn argymhell:

‘Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddioldeb sefydlu cyfleuster preswyl o ryw fath yng Nghymru.’

Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor Materion Cymreig yr wythnos hon, rhybuddiodd arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, Elfyn Llwyd, fod gormod o aelodau’r lluoedd arfog yn methu â chael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth ddychwelyd i fywyd sifilaidd a galwodd am sefydlu canolfan yng Nghymru i helpu cyn-filwyr sy’n dioddef trawma. Cymeradwyaf ei ymroddiad i’r mater hwn.

Ymhlith cyn-filwyr sydd wedi ymladd mewn brwydrau, ceir patrwm cyffredin o anhwylder straen wedi trawma cymhleth ac ymgais i atal symptomau trwy gamdefnyddio alcohol a/neu gyffuriau. Mae hynny’n arwain at batrwm o anawsterau cynyddol o ran gwaith, problemau yn eu perthynas ag eraill, gwrthdaro â’r gyfraith a hyd yn oed hunanladdiad. Gofynnodd adroddiad gan y Gynghrair dros Ddiwygio’r Drefn Gosbi, o’r enw ‘Leave No Veteran Behind’, pam mae cymaint o gyn-filwyr yn cael eu dal yn y system cyfiawnder troseddol, gan nodi ei bod yn hanfodol bod anghenion cymhleth aelodau’r lluoedd arfog yn cael sylw digonol a’n bod yn gwneud popeth a allwn i helpu’r rhai sy’n gwasanaethu eu gwlad i addasu i fywyd sifilaidd.

Cyflawnodd aelod o’r Gwarchodlu Cymreig sef yr Is-ringyll Dan Collins, hunanladdiad yn drasig a diangen ar Ddydd Calan. Taer ofynnodd am help ar gyfer ei straen wedi trawma, yn gyntaf drwy raglen asesiad meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn. Cafodd ei atgyfeirio wedyn at ward iechyd meddwl y GIG, lle y treuliodd bedair wythnos heb gael ei drin gydag unrhyw beth heblaw gwahanol feddyginiaethau.

Last night, by sheer coincidence, I met a decorated young ex-soldier who served in the Royal Regiment of Wales and Parachute Regiment in Kosovo, Northern Ireland and Iraq. After leaving the army, he was jailed after being convicted in Cardiff Crown Court of criminal damage, assault and harassment. His barrister told the court that if he were still in the army, he would get help and that his scars were not of his own making and that no-one seemed interested. The judge told him that he was a brave and outstanding soldier who saw and experienced dreadful things from which the rest of us are protected because of the bravery of people like him. However, having heard that there was no funding available for further assessment and treatment, the judge told him that it was his duty to say that there was a risk to members of the public, who must be protected, and he was sent to prison. Those are only two tragic incidents, resulting from the inadequate services within Wales.

The Welsh charity, Healing the Wounds, which delivers PTSD support, is campaigning for a place where people can receive support for PTSD and where they can recover. After a recent visit by the Surgeon Captain Royal Navy and Defence Professor of Mental Health, Professor Greenberg, he stated that the MoD would be interested in the results of its successful therapy model. It now needs the support of the Welsh Government to move forward in clinical trials to demonstrate that the outcomes and statistical analysis collected will show an effective therapy that can be recognised by the National Institute for Health and Clinical Excellence. After all, the NICE PTSD guidelines state that treatment and care should take into account patients' individual needs and preferences. It tells me that it has requested a meeting with the Minister for Health and Social Services but has not yet been given an answer. I hope that it will receive one soon. The excellent work and results of volunteer organisations on the ground must be supported by the Welsh Government. We therefore call on the Welsh Government to heed their call, to remove its amendment and to support our motion.

Neithiwr, drwy gyd-ddigwyddiad llwyr, cyfarfûm â chyn-filwr ifanc medalog a wasanaethodd yng Nghatrawd Brenhinol Cymru a Chatrawd y Parasiwtwyr yn Kosovo, Gogledd Iwerddon ac Irac. Ar ôl gadael y fyddin, cafodd ei garcharu ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog yn Llys y Goron Caerdydd o ddifrod troseddol, ymosod ac aflonyddu. Dywedodd ei fargyfreithiwr wrth y llys, pe bai yn y fyddin o hyd y byddai'n cael help ac nad oedd yn gyfrifol am ei greithiau ei hun ac nad oedd gan neb ddiddordeb ynddo yn ôl pob golwg. Dywedodd y barnwr wrtho ei fod yn filwr dewr a rhagorol a welodd ac a brofodd bethau ofnadwy y mae'r gweddill ohonom yn cael ein diogelu rhagddynt oherwydd dewrder pobl tebyg iddo ef. Fodd bynnag, ar ôl clywed nad oedd unrhyw gyllid ar gael ar gyfer asesiad a thriniaeth bellach, dywedodd y barnwr wrtho mai ei ddyletswydd ef oedd dweud bod risg i aelodau o'r cyhoedd, y mae'n rhaid eu diogelu, a chafodd ei anfon i'r carchar. Dim ond dau ddigwyddiad trasig yw'r rhain, yn deillio o wasanaethau annigonol yng Nghymru.

Mae'r elusen Gymreig, Healing the Wounds, sy'n rhoi cymorth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma, yn ymgyrchu dros gael lleoliad lle y gall pobl gael cymorth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma a lle y gallant wella. Ar ôl ymweliad diweddar gan Gapten Llawfeddygol y Llynges Frenhinol ac Athro Amddiffyn Iechyd Meddwl, yr Athro Greenberg, dywedodd y byddai gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddiddordeb yng nghanlyniadau ei model therapi llwyddiannus. Yn awr mae angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru arni i symud ymlaen mewn treialon clinigol i ddangos y bydd y canlyniadau a'r dadansoddiad ystadegol a gasglwyd yn dangos therapi effeithiol y gall y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ei chydabod. Wedi'r cyfan, mae canllawiau NICE ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn nodi y dylai triniaeth a gofal ystyried anghenion a dymuniadau unigol cleifion. Mae'n dweud wrthyf ei bod wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ond nid yw wedi cael ateb eto. Gobeithio y caiff un yn fuan. Rhaid i waith a chanlyniadau ardderchog sefydliadau gwirfoddol ar lawr gwlad gael eu cefnogi gan

Lywodraeth Cymru. Galwn felly ar Lywodraeth Cymru i wrando arnynt, i ddileu ei gwelliant a chefnogi ein cynnig.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 2, dileu popeth cyn 'rôl' a rhoi yn ei le: 'Yn nodi'r buddsoddiad diweddar a wnaed mewn gwasanaethau yng Nghymru i gynorthwyo cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, ac yn derbyn pa mor bwysig yw'r'.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Antoinette Sandbach:** I am extremely grateful for the opportunity to contribute to this debate. Everyone in Wales, and in the rest of the UK, owes a debt of gratitude to our armed forces—to the 250,000 Welsh veterans who have served their country, as well as to the thousands who currently do so, conducting operations in some of the most dangerous and demanding places on earth. The Welsh Guards have returned in October from a tour of duty in Afghanistan. The 1st Battalion the Royal Welsh are currently deployed as part of Operation Herrick 16 in Afghanistan. There is a homecoming parade for the Welsh Guards on 30 November, and I know that the First Minister has been invited to that parade. I very much hope that he will go to it.

It is not the members of the armed forces who decide whether or not to go to war; that is the responsibility of elected governments. However, they are the ones who serve and defend their country. It is an inevitable consequence that many will return from active duty with physical injuries and that others will be left with psychological scars in the form of post-traumatic stress disorder, which may emerge in the months, or even, as Mark Isherwood outlined, in the years and decades, after the events. Actions are being carried out by the third sector, and, in this respect, I wish to highlight the role of the Welsh Guards Afghanistan appeal. I know that my colleague Mick Antoniw has been active in promoting that appeal. The appeal helps those who are seriously injured and

*Amendment 1—Jane Hutt*

*In point 2, delete all before 'the role' and replace with: 'Notes the recent investment in services in Wales to support ex-service personnel suffering with post-traumatic stress disorder (PTSD) and accepts the importance of'.*

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n hynod ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddaid hon. Mae pawb yng Nghymru, ac yng ngweddill y DU, yn ddiolchgar i'n lluoedd arfog—i'r 250,000 o gyn-filwyr o Gymru sydd wedi gwasanaethu eu gwlad, yn ogystal â'r miloedd sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd, sy'n cynnal ymgyrchoedd yn rhai o'r manau mwyaf peryglus ac anodd ar wyneb y ddaear. Mae'r Gwarchodlu Cymreig wedi dychwelyd ym mis Hydref ar ôl taith ar ddyletswydd yn Affganistan. Mae Bataliwn Cyntaf y Cymry Brenhinol yn rhan o Ymgyrch Herrick 16 yn Affganistan ar hyn o bryd. Mae gorymdaith croeso'n ôl wedi'i threfnu ar gyfer y Gwarchodlu Cymreig ar 30 Tachwedd, a gwn fod y Prif Weinidog wedi cael gwahoddiad i'r orymdaith honno. Gobeithiaf yn fawr y bydd yn bresennol.

Nid yr aelodau o'r lluoedd arfog sy'n penderfynu p'un ai i fynd i ryfel ai peidio, cyfrifoldeb llywodraethau etholedig yw hynny. Fodd bynnag, hwy yw'r rhai sy'n gwasanaethu ac yn amddiffyn eu gwlad. Mae'n ganlyniad anochel y bydd llawer yn dychwelyd ar ôl cyfnod ar faes y gad gydag anafiadau corfforol, ac y gadewir eraill â chreithiau seicolegol ar ffurf anhwylder straen wedi trawma, a all ddod i'r amlwg yn y misoedd, neu hyd yn oed, fel y soniodd Mark Isherwood, yn y blynyddoedd a degawdau ar ôl y digwyddiadau. Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd gan y trydydd sector, ac, yn hyn o beth, rwyf am dynnu sylw at rôl apêl Affganistan y Gwarchodlu Cymreig. Gwn fod fy nghyd-Aelod Mick Antoniw wedi bod yn weithgar yn



helps families that have suffered bereavement. However, it is a responsibility on Government to deal with the issues that arise from post-traumatic stress disorder, and it is entirely right that veterans and service personnel receive the recognition and the support they need from society, which has been protected through their self-sacrifice.

I am sure that Members from all the parties that are represented here will share the concern of the Welsh Conservatives that there remain significant shortcomings in the way that support for veterans in Wales, particularly for post-traumatic stress disorder, is co-ordinated and delivered. The British Medical Association describes PTSD services as patchy, with significant variations from area to area. The former Health, Wellbeing and Local Government Committee's inquiry into PTSD noted that the current system is still not up to the standard that our veterans deserve.

Too often, when veterans and their families are struggling with the consequences of PTSD, with depression, alcohol and drug abuse, they are unable to get the help that they need quickly enough. On a practical basis, when veterans approach their GP, many find that few GPs have an understanding of the conditions related to the armed forces, and their eligibility for priority treatment is not always reflected in the referral process for secondary care. It is a regrettable situation that when veterans and their families need urgent help, they experience a service that is patchy and inconsistent.

The Welsh Government has introduced its 10-year strategy for mental health. However, there is only one passing reference in that strategy to PTSD, and no mention is made of the support that is needed by veterans' families. There is a clear case for the voluntary sector in delivering the co-ordination and the understanding of the needs of veterans that is so lacking at present.

hyrwyddo'r apêl honno. Mae'r apêl yn helpu'r rhai sy'n cael eu hanafu'n ddifrifol ac yn helpu teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Llywodraeth yw ymdrin â'r materion sy'n codi o anhwylder straen wedi trawma, ac mae'n gwbl briodol bod cyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd arfog yn cael y gydnabyddiaeth a'r cymorth sydd ei angen arnynt gan gymdeithas, sydd wedi cael ei diogelu drwy eu hunan-aberth.

Rwy'n siŵr y bydd Aelodau o'r holl bleidiau a gynrychiolir yma yn rhannu pryder y Ceidwadwyr Cymreig bod rhai diffygion sylweddol o hyd yn y ffordd y mae cefnogaeth i gyn-filwyr yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer anhwylder straen wedi trawma, yn cael ei chydgyssylltu a'i darparu. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn dweud bod gwasanaethau anhwylder straen wedi trawma yn rhai sy'n dameidiog, gydag amrywiadau mawr o ardal i ardal. Nododd Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol blaenorol i anhwylder straen wedi trawma bod y system bresennol yn methu o hyd â chyrraedd y safon y mae ein cyn-filwyr yn ei haeddu.

I gloi, croesawaf y sôn am gofebion rhyfel. Cyfyd mater amgueddfeydd catrodol hefyd. Rwy'n falch fod un yn Aberhonddu. Mae trafodaeth fawr ynghylch ble y dylai casgliad mawr ystafell rhyfel y Zulu gael ei gynnal yn y dyfodol. Os hoffai'r Gweinidog ymweld â'r amgueddfa gyda mi i drafod sut y gallwn sicrhau ei dyfodol, byddwn yn falch iawn o'i groesawu i Aberhonddu.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i drafod cymuned y lluoedd arfog gyda'r Aelodau heddiw. Cefnogaf y cynnig i dalu teyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae'n adeg o'r flwyddyn sy'n arbennig o ingol ar gyfer y ddadl hon, gyda gwasanaethau coffa yn cael eu cynnal ledled y wlad ddydd Sul.

Mae cofebion rhyfel yn rhan bwysig o goffáu, ac mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith gwyb i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer gwarchod cofebion rhyfel, ac mae cymorth ar gael hefyd drwy'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel. Yn ogystal â thalu teyrnged i'n cyn-filwyr, mae angen inni ddangos ein cefnogaeth i gymuned gyfan y lluoedd arfog. Ym mis Mehefin, gwnaethom ddarparu cyllid ar gyfer dau ddigwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog yn y gogledd a'r de, yr aeth y Prif Weinidog a minnau iddynt. Pwysaf ar awdurdodau lleol i gyflwyno cyfamodau cymunedol lleol, ac rwy'n falch o nodi bod 16 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru naill ai wedi llofnodi neu ar fin cyflwyno cyfamodau cymunedol. Mae hynny'n golygu dros ddwy ran o dair o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, a dylem fod yn arbennig o falch o hynny.

Mae bron blwyddyn ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi pecyn o gymorth ar gyfer y lluoedd arfog. Yn wir, roeddwn eisoes wedi cyflwyno dadl ar gyfer 20 Tachwedd i adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf. Yn hytrach, manteisiaf ar y cyfle hwn i roi crynodeb o'r newyddion diweddaraf. Yn ystod mis Tachwedd, byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad diweddarau blynyddol ar y pecyn

we will update the package to include new developments and further commitments. We have already delivered on many of the commitments, and I will come back to the more detailed health matters shortly. On the other issues, we have progressed on housing, including the extension of the homebuy scheme to cover widows and widowers of personnel killed in action. We have also made arrangements for the disabled facilities grants means-testing process to change. In 2012, we published guidance for local authorities on the allocation of accommodation for homeless people; this includes priority status for social housing for seriously injured and disabled servicemen and servicewomen, and references certificates of cessation as proof of independent homelessness.

We have consulted on the housing White Paper, and we will be working with veterans organisations on the implementation of the homeless prevention proposals that it contains. We have also progressed developments in education, including changes to the school administration policy to support families being posted here in Wales. Officials have established a standing committee on education services in Wales, and the committee will consider all of the issues that children and families face on educational matters in Wales. We are also working with key partners to develop a pilot scheme to provide free swimming to service personnel and veterans, and the results of the pilot will inform our plans.

As far as the issues regarding PTSD are concerned, I am rightly proud of this Government's record in treating PTSD. We have invested heavily in this area and established the all-Wales veterans health and wellbeing service with almost £0.5 million of funding annually. The service is led by an internationally renowned figure in the treatment of PTSD and provides dedicated veteran therapists in each of the local health board areas. I will give examples of waiting times in some of the services, which Members have raised with me today. As regards services at Betsi Cadwaladr University Local Health Board—I recognise

cymorth, ac yn ystod 2013 byddwn yn diweddarau'r pecyn i gynnwys datblygiadau newydd ac ymrwymadau pellach. Rydym eisoes wedi cyflawni llawer o'r ymrwymadau, a byddaf yn dod yn ôl at y materion iechyd manylach maes o law. O ran y materion eraill, rydym wedi gweithredu o ran tai, gan gynnwys ymestyn y cynllun cymorth prynu i gynnwys gwagedd a gwŷr gweddw aelodau a fu farw ar faes y gad. Rydym hefyd wedi gwneud trefniadau i newid proses prawf modd y grant cyfleusterau i'r anabl. Yn 2012, cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety i bobl ddiartref; mae hyn yn cynnwys statws blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol i filwyr a anafwyd yn ddifrifol a milwyr anabl, ac yn cyfeirio at dystysgrifau hawl wedi dod i ben fel prawf o ddiartrefedd annibynnol.

Rydym wedi ymgynghori ar y Papur Gwyn ar dai, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cyn-filwyr ar weithredu'r cynigion atal diartrefedd sydd ynddo. Rydym wedi bwrw ymlaen â datblygiadau hefyd ym maes addysg, gan gynnwys newidiadau i bolisi gweinyddol ysgol i gefnogi teuluoedd sy'n cael eu hanfon i fyw yma yng Nghymru. Mae swyddogion wedi sefydlu pwyllgor sefydlog ar wasanaethau addysg yng Nghymru, a bydd y pwyllgor yn ystyried yr holl faterion y mae plant a theuluoedd yn eu hwynebu o ran materion addysgol yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu cynllun peilot i ddarparu nofio am ddim i aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr, a bydd canlyniadau'r cynllun beilot yn sail i'n cynlluniau.

O ran y materion ynghylch anhwylder straen wedi trawma, rwy'n falch o record y Llywodraeth hon o drin anhwylder straen wedi trawma a hynny'n briodol. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn y maes hwn ac wedi sefydlu gwasanaeth iechyd a lles i gyn-filwyr i Gymru gyfan gyda bron £0.5 miliwn o gyllid yn flynyddol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan ffigwr rhyngwladol enwog ym maes triniaeth anhwylder straen wedi trawma ac mae'n darparu therapyddion penodedig i gyn-filwyr ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol. Byddaf yn rhoi enghreifftiau o amseroedd aros yn rhai o'r gwasanaethau, y mae Aelodau wedi'u codi gyda mi heddiw. O

the excellent work undertaken by the Member who is in the armed forces group within the Assembly and who is interested in this LHB, which is within his own region—individuals are assessed within seven days and they start therapy the following week if that is required. In Cardiff and Vale University Local Health Board, assessment takes place within two weeks and therapy starts within six months, if indicated as necessary. There are many access points across the health boards and that compares favourably to other facilities that are offered across the UK.

Almost 400 veterans were referred to the service between April 2010 and March 2012. It is important to recognise that the service only became fully operational across Wales in the last year. Even so, the service has already established good links with veteran charities that many Members have raised with me today, such as Combat Stress and other veteran agencies in Wales. The service has developed a common pathway to which the main veteran charities and agencies have signed up. This recognises the role of the third sector in providing support to veterans and establishing the services as the gatekeeper, central to the assessment and management of veterans with mental health problems.

**Andrew R.T. Davies:** You talk about access to services and I do not doubt that there have been improvements and I welcome your acknowledgement that local government is signing up to the covenants. However, there is an issue, as identified by the all-Wales mental health service that it takes 119 days from referral to assessment and 151 days from assessment to treatment, whereas in England that figure is a 22-day wait. Do you recognise that that is an issue and that it is something that the Government needs to focus on when working with partners in the health service?

**Carl Sargeant:** Of course, as has been acknowledged by many within the Chamber today. I also acknowledge that there is ever-increasing demand on the service and

ran gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr—rwy'n cydnabod y gwaith rhagorol a wnaed gan yr Aelod sydd yn y grŵp lluoedd arfog yn y Cynulliad ac sydd â diddordeb yn y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, sydd yn ei ranbarth ef—asesir unigolion o fewn saith diwrnod ac maent yn dechrau therapi yr wythnos ganlynol os oes angen. Ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, asesir o fewn pythefnos ac mae'r therapi yn dechrau o fewn chwe mis, os nodir bod angen hynny. Mae sawl pwynt mynediad ar draws y byrddau iechyd ac mae hynny'n cymharu'n ffafriol â chyfleusterau eraill a gynigir ledled y DU.

Atgyfeiriwyd bron i 400 o gyn-filwyr at y gwasanaeth rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2012. Mae'n bwysig cydnabod na ddaeth y gwasanaeth yn gwbl weithredol ledled Cymru tan y flwyddyn ddiwethaf. Er hynny, mae'r gwasanaeth eisoes wedi creu cysylltiadau da ag elusennau cyn-filwyr y mae llawer o'r Aelodau wedi eu codi gyda mi heddiw, megis Combat Stress ac asiantaethau cyn-filwyr eraill yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu llwybr cyffredin y mae'r prif elusennau ac asiantaethau cyn-filwyr wedi ymrwymo iddo. Mae hyn yn cydnabod rôl y trydydd sector o ran darparu cymorth i gyn-filwyr a sefydlu'r gwasanaethau fel y porthgeidwad, yn ganolog i'r gwaith o asesu a rheoli cyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Andrew R.T. Davies:** Rydych yn sôn am fynediad at wasanaethau ac nid wyf yn amau na fu gwelliannau a chroesawaf eich cydnabyddiaeth bod llywodraeth leol yn ymrwymo i'r cyfamodau. Fodd bynnag, cyfyd problem, fel y nodwyd gan wasanaeth iechyd meddwl Cymru gyfan sef ei bod yn cymryd 119 diwrnod rhwng atgyfeirio ac asesu a 151 diwrnod rhwng asesu a thriniaeth, ond yn Lloegr 22 diwrnod y mae'n rhaid aros. A ydych yn cydnabod bod hynny'n broblem a'i fod yn rhywbeth y mae angen i'r Llywodraeth ganolbwytio arno wrth weithio gyda phartneriaid yn y gwasanaeth iechyd?

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, fel sydd wedi ei gydnabod gan lawer yn y Siambr heddiw. Rwyf hefyd yn cydnabod bod galwadau bythol-gynyddol ar y gwasanaeth ac

because of current and past conflicts, there will be higher demand. We have to make sure that there is a streamlined approach to access to services.

Part of the issue, which I know that Members have raised, is the recognition of former service personnel who may be suffering from PTSD, so that when they present through the voluntary sector or NHS services, they are recognised as veterans. The Member raised the all-Wales veterans card. In the last meeting of the ministerial advisory group on the armed forces, I asked for this to be taken forward because of the benefits of it. It may not be exactly what opposition members requested during their debate, but I have asked the group to consider the opportunities that it would give ex-service personnel in Wales to present without question and say, 'We are ex-service personnel and we should either be prioritised or get access to these services'. That is something that we will be presenting in the near future.

**Mohammad Asghar:** I am grateful for this debate on the armed forces. I come from an air force family and I know exactly how the armed forces live. The built-in connector for the armed forces, whether they are veterans or not, is pride, discipline, never surrender and never beg. These are some of the characteristics that are built into all armed forces personnel. When they come out of the armed forces, whether they are veterans or retired, how can your Government help them to bring them into the civic society in which we live?

**Carl Sargeant:** I have alluded to some of the issues that were taken through the ministerial advisory group with regard to the armed forces veterans card or the potential for that. One other element of this is the discharge process that takes place within the armed forces. I have already had conversations with Brigadier Napier from the Welsh army in Brecon and his colleagues across the Navy and armed forces regarding how this process will get better in supporting Welsh serving personnel and their families upon exiting the armed forces family.

4.15 p.m.

oherwydd rhyfeloedd ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, bydd mwy o alwadau. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod dull symlach o gael mynediad at wasanaethau.

Rhan o'r broblem, a godwyd gan Aelodau mi wn, yw adnabod cyn-aelodau o'r lluoedd arfog a all fod yn dioddef anhwylder straen wedi trawma, fel y cânt eu hadnabod fel cyn-filwyr pan gyflwynant eu hunain i'r sector gwirfoddol neu wasanaethau'r GIG. Cododd yr Aelod gerdyn y cyn-filwyr i Gymru gyfan. Yng nghyfarfod diwethaf grŵp cynghori'r Gweinidog ar y lluoedd arfog, gofynnais i hyn gael ei ddatblygu oherwydd ei fanteision. Efallai na fydd yn union yr hyn y gofynnodd aelodau'r gwrthbleidiau amdano yn ystod eu dadl, ond rwyf wedi gofyn i'r grŵp ystyried y cyfleoedd y byddai'n eu rhoi i gyn-filwyr yng Nghymru gyflwyno eu hunain yn ddigwestiwn a dweud, 'Rydym yn gyn-filwyr a dylem naill ai gael ein blaenoriaethu neu gael mynediad at y gwasanaethau hyn'. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei gyflwyno yn y dyfodol agos.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n ddiolchgar am y ddadl hon ar y lluoedd arfog. Rwy'n dod o deulu awyrlu ac yn gwybod yn union sut y mae'r lluoedd arfog yn byw. Y cysylltydd annatod ar gyfer y lluoedd arfog, boed yn gyn-filwyr ai peidio, yw balchder, disgyblaeth, byth yn ildio a byth yn cardota. Dyma rai o'r nodweddion sy'n perthyn i bobl yn y lluoedd arfog. Pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog, p'un a ydynt yn gyn-filwyr neu wedi ymddeol, sut y gall eich Llywodraeth helpu i'w cyflwyno i'r gymdeithas ddinesig yr ydym yn byw ynddi?

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi cyfeirio at rai o'r materion a drafodwyd yng ngrŵp cynghori'r Gweinidog o ran cerdyn y lluoedd arfog i gyn-filwyr neu'r potensial ar gyfer hynny. Un elfen arall o hyn yw'r broses ryddhau sy'n digwydd o fewn y lluoedd arfog. Rwyf eisoes wedi cael trafodaethau gyda'r Brigadydd Napier o fyddin Cymru yn Aberhonddu a'i gydweithwyr yn y Llynges a'r lluoedd arfog ynghylch sut y bydd y broses hon yn gwella o ran cefnogi aelodau sy'n gwasanaethu Cymru a'u teuluoedd pan fyddant yn gadael teulu'r lluoedd arfog.



Going back to the issue around the third sector, it is important that we ensure that the charities that are delivering services for personnel deliver the right service. While they all, I am sure, have good intentions and seek to deliver services for the right reasons, we often see many charities that work outside the NICE guidance and guidelines on service delivery, and we have to be very cautious about ensuring that the service delivered is the right service for the person who is requesting it and is based around the evidence.

On the third proposal in the HIW report, the report paints a broadly positive picture of healthcare provision for the community, although there are things that we could do better, and I acknowledge that. As I said earlier in relation to the demand for services, we must make sure that, wherever we are placed now, we get better in the future in delivering these services. Officials met earlier in the week—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I have been generous, Minister. Conclude now.

**Carl Sargeant:** I am very grateful, Deputy Presiding Officer. I will not be long; I will be as quick as I can. Officials met earlier this week with the NHS armed forces champions to discuss the implementation of the recommendations, and that work is ongoing.

I thank Members for their constructive contributions today. We as the Welsh Government will of course continue to support the armed forces and their families here in Wales.

**Darren Millar:** I will not have time to refer to everybody's contributions in the four minutes that I have to wrap up this debate, but I want to thank everybody for taking part in what has been a very good debate, with lots of cross-party agreement on the deficiencies in the current provision for our armed forces in Wales, as well as on how we need to move forward to tackle that. It is

Gan fynd yn ôl at y mater sy'n ymwneud â'r trydydd sector, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod yr elusennau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer aelodau yn darparu'r gwasanaeth iawn. Er eu bod i gyd, mae'n siŵr gennyf, yn llawn bwriadau da ac yn ceisio darparu gwasanaethau am y rhesymau cywir, gwelwn lawer o elusennau yn aml sy'n gweithio y tu allan i arweiniad a chanllawiau NICE ar ddarparu gwasanaethau, a rhaid i nni fod yn ofalus iawn ynghylch sicrhau mai'r gwasanaeth a ddarperir yw'r gwasanaeth cywir i'r person sy'n gofyn amdano a'i fod yn seiliedig ar y dystiolaeth.

O ran y trydydd cynnig yn adroddiad AGIC, mae'r adroddiad yn rhoi darlun cadarnhaol ar y cyfan o'r ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer y gymuned, er bod pethau y gallem eu gwneud yn well, ac rwy'n cydnabod hynny. Fel y dywedais yn gynharach mewn perthynas â'r galw am wasanaethau, rhaid inni sicrhau, beth bynnag yw ein sefyllfa ar hyn o bryd, ein bod yn gwella yn y dyfodol o ran darparu'r gwasanaethau hyn. Cyfarfu swyddogion yn gynharach yn yr wythnos—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rwyf wedi bod yn hael, Weinidog. Rhaid ichi ddod i ben yn awr.

**Carl Sargeant:** Rwy'n ddiolchgar, Ddirprwy Lywydd. Ni fyddaf yn hir; byddaf mor gyflym â phosibl. Cyfarfu swyddogion yn gynharach yr wythnos hon â hyrwyddwyr lluoedd arfog y GIG i drafod y gwaith o weithredu'r argymhellion, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau adeiladol heddiw. Byddwn ni, fel Llywodraeth Cymru wrth gwrs, yn parhau i gefnogi'r lluoedd arfog a'u teuluoedd yma yng Nghymru.

**Darren Millar:** Ni fydd gennyf amser i gyfeirio at gyfraniadau pawb yn y pedwar munud sydd gennyf i ddod â'r dadl hon i ben, ond rwyf am ddiolch i bawb am gymryd rhan mewn dadl a fu'n un dda iawn, gyda llawer o gytundeb trawsbleidiol ar y diffygion yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer ein lluoedd arfog yng Nghymru, yn ogystal â sut y mae angen inni ddatblygu i

appropriate that we have this debate, and we will continue to table such debates annually, if the Government does not, so that we can keep an eye on progress and ensure that we continue to move in the right direction.

I welcome the Minister's response. I believe that he has a genuine interest in improving the lot of the armed forces in Wales, and I am delighted that he is moving things forward in terms of the responsibility of public services in Wales to make sure that that covenant that we all have with our armed forces family is honoured at every level of government. I pay particular tribute to him for doing something that not many Labour Ministers do, and that is accepting that we in the Welsh Conservatives had a good idea in the armed forces card. It is something that we brought to the table that we felt would make a real difference in identifying veterans, whether in a GP practice, at a local authority desk when presenting a housing request, or wherever the veteran might be, to flag up that this person is a veteran and deserves the appropriate treatment. I am grateful for that, Minister, and I look forward to engaging in further discussions with you about how that might be taken forward in Wales.

However, that does not mean that we can rest on our laurels. There is still a great deal more to do. Lots of people have made reference to mental health services for veterans with PTSD and we on this side of the Chamber absolutely welcome the establishment of the all-Wales mental health service for veterans across the country. However, we were very disappointed at the pace at which it has been established. The commitment was given about three years ago and yet it is only just getting off the ground in north Wales. That is why the waiting times are very short—because nobody knows it exists. We have to ensure that we do everything we can to promote awareness of that among veterans and their family members, so that people can be referred when appropriate.

Reference has also been made to the need for

fynd i'r afael â hwy. Mae'n briodol ein bod yn cael y ddadl hon, a byddwn yn parhau i gyflwyno dadleuon o'r fath yn flynyddol, os nad yw'r Llywodraeth yn gwneud hynny, fel y gallwn gadw llygad ar gynnydd a sicrhau ein bod yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir.

Croesawaf ymateb y Gweinidog. Credaf fod ganddo ddiddordeb gwirioneddol mewn gwella ansawdd bywyd y lluoedd arfog yng Nghymru, ac rwyf wrth fy modd ei fod yn datblygu pethau o ran cyfrifoldeb gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i wneud yn siŵr bod y cyfamod sydd gan bob un ohonom â theulu'r lluoedd arfog yn cael ei gadw ar bob lefel mewn llywodraeth. Hoffwn dalu teyrnged arbennig iddo am wneud rhywbeth nad yw llawer o Weinidogion Llafur yn ei wneud, sef derbyn bod y syniad a gawsom yn y Ceidwadwyr Cymreig o gerdyn y lluoedd arfog yn un da. Mae'n rhywbeth a gyflwynwyd gennym a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein barn ni o ran nodi cyn-filwyr, boed mewn practis meddyg teulu, wrth ddesg awdurdod lleol wrth gyflwyno cais am dŷ, neu ble bynnag y gallai cyn-filwr fod, i dynnu sylw at y ffaith mai cyn-filwr yw'r unigolyn hwn a'i fod yn haeddu'r driniaeth briodol. Rwy'n ddiolchgar am hynny, Weinidog, ac edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach â chi i weld sut y gellid datblygu hyn yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y gallwn laesu dwylo. Mae llawer iawn mwy i'w wneud. Mae llawer o bobl wedi cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr ag anhwylder straen wedi trawma ac rydym ni ar yr ochr hon o'r Siambr yn croesawu'r gwaith o sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl Cymru gyfan i gyn-filwyr ledled y wlad. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig pa mor araf y sefydlwyd hyn. Rhoddwyd yr ymrwymiad tua thair blynedd yn ôl ac eto newydd ddechrau y mae yn y gogledd. Dyna pam y mae'r amseroedd aros yn fyr iawn—am nad oes neb yn gwybod ei fod yn bodoli. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hynny ymhlith cyn-filwyr ac aelodau o'u teulu, fel y gall pobl gael eu hatgyfeirio pan fo hynny'n briodol.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am ganolfan

a residential centre, and I know that the Welsh Government will be pondering upon that.

**Carl Sargeant:** I ran out of time, so I could not deal with all the detail of the report. In terms of a residential care centre, there is some work going on with my ministerial advisory group, the third sector and the Welsh Government to look at the provision in Wales and whether there should be further provision. There will be an update for Members in the Chamber.

**Darren Millar:** I am grateful for that, because John Skipper's report, which was absolutely excellent in pulling together all of the issues, recognised that there was merit in the idea of developing a residential centre. I believe that there are partners out there who are prepared to put their hands in their pockets—organisations such as Help for Heroes and Alabaré, a Christian charity that wants to establish support centres around Wales. They have acknowledged that they are prepared to work with the Welsh Government to achieve these things. Let us not forget that Wales makes a larger contribution to the armed forces than the UK on average in terms of its population. Therefore, it is only appropriate that we should have one of these facilities in Wales so that we can give the best possible services to those people who suffer from these problems.

In the time that I have left, I will refer briefly to war memorials and the need to commemorate the hundredth anniversary of the Great War. It is important to remember that this is a commemoration of the event, not a celebration of it. No-one wants to celebrate war in any way, but it is important that we remind ourselves of the events that took place 100 years ago next year and that we ensure that they can never happen again. I encourage the Government to move more swiftly to establish a national commemoration of the Great War in our schools and in our communities across Wales so that we can learn from that experience. Time does not permit me to go on, but I thank everyone for their contribution and the Minister for his generous response.

breswyl, a gwn y bydd Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar hynny.

**Carl Sargeant:** Daeth fy amser i ben, felly ni allwn ddelio â holl fanylion yr adroddiad. O ran canolfan gofal preswyl, mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud gyda fy ngrŵp cynghori, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru i edrych ar y ddarpariaeth yng Nghymru ac a ddylid sicrhau darpariaeth bellach. Bydd diweddariad i'r Aelodau yn y Siambr.

**Darren Millar:** Rwy'n ddiolchgar am hynny, oherwydd cydnabu adroddiad John Skipper, a oedd yn wych o ran tynnu ynghyd yr holl faterion, fod y syniad o ddatblygu canolfan breswyl yn werth ei ystyried. Credaf fod partneriaid ar gael sy'n barod i roi eu dwylo yn eu pocedi—sefydliadau megis Help for Heroes ac Alabaré, elusen Gristnogol sydd am sefydlu canolfannau cymorth ledled Cymru. Maent wedi cydnabod eu bod yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r pethau hyn. Gadewch inni beidio ag anghofio bod Cymru yn gwneud cyfraniad mwy i'r lluoedd arfog na'r DU ar gyfartaledd o ran ei phoblogaeth. Felly, mae ond yn briodol bod un o'r cyfleusterau hyn yng Nghymru fel y gallwn roi'r gwasanaethau gorau posibl i'r bobl hynny sy'n dioddef o'r problemau hyn.

Yn yr amser sydd gennyf ar ôl, cyfeiriai yn fras at gofebion rhyfel a'r angen i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Mawr. Mae'n bwysig cofio bod hwn yn achlysur sy'n coffáu'r digwyddiad, ac nid yw'n ddatliad ohono. Nid oes neb am ddatliu rhyfel mewn unrhyw ffordd, ond mae'n bwysig ein bod yn atgoffa ein hunain o'r hyn a ddigwyddodd 100 mlynedd yn ôl y flwyddyn nesaf a'n bod yn sicrhau na all byth ddigwydd eto. Anogaf y Llywodraeth i symud yn gyflym i sefydlu coffadwriaeth genedlaethol o'r Rhyfel Mawr yn ein hysgolion ac yn ein cymunedau ledled Cymru fel y gallwn ddysgu o'r profiad hwnnw. Nid yw amser yn caniatáu imi fynd ymlaen, ond hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniad ac i'r Gweinidog am ei ymateb hael.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

## **Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate**

### **Gwella Ysgolion School Improvement**

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 6, 7 a 8 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2 a 4 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 5, 9 a 10 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3, 6, 7 and 8 in the name of Aled Roberts, amendments 2 and 4 in the name of Jane Hutt, and amendments 5, 9 and 10 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5086 Jocelyn Davies*

*Motion NDM5086 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi bod:*

*1. Notes that:*

*a) Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai partneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol yw'r ateb ar gyfer mynd i'r afael â'r methiant systematig ym myd addysg;*

*a) regional school improvement partnerships have been identified by the Welsh Government as the answer to address the systemic failure in education;*

*b) y cynllun bandio ar gyfer ysgolion uwchradd wedi dynodi bod angen gwella ysgolion ym Mandiau 4 a 5 ar fyrder;*

*b) the banding scheme for secondary schools has identified schools in Bands 4 and 5 as in need of urgent improvement;*

*2. Yn gresynu nad oedd yr holl bartneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol ar waith erbyn mis Medi 2012 fel yr addawyd; a*

*2. Regrets that all the regional school improvement partnerships were not operational by September 2012 as promised; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod:*

*3. Calls on the Welsh Government to ensure that:*

*a) y consortia addysg rhanbarthol ar waith yn llawn cyn gynted â phosibl; a*

*a) the regional education consortia are fully operational as soon as possible; and*

*b) bod yr ysgolion a roddwyd yn y bandiau is yn cael y cymorth angenrheidiol ar unwaith i fynd i'r afael â methiant systematig.*

*b) the schools placed in lower bands are immediately provided with the necessary support to address systemic failure.*

**Simon Thomas:** I move the motion.

**Simon Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

I am grateful for the opportunity to move this motion and to open the debate on the role of regional education consortia in helping our underperforming schools in Wales. The purpose of this debate is to focus on one aspect of the Government's programme of actions—the 20-point action plan that the Minister for Education and Skills set out—which is designed to close the attainment gap with regard to deprivation and poverty and address poor attainment generally in Welsh schools and also to deal with what the Minister himself has described as a systemic failure in the Welsh education system.

It was not Plaid Cymru, or indeed any other party here, that chose regional consortia as the answer to that systemic failure, but the Minister himself. I particularly want to draw the Chamber's attention to a response that the Minister gave to a written question on 28 May this year. He clearly said that he had had assurances from the 22 local education leaders that education was their No. 1 priority, that a radical overhaul was needed to address the systemic failure in education, and that the evidence all points to regional partnership working as the answer. That is the reason for bringing forward this debate today, and that is why we cannot support the Government's amendments, which muddy the waters around the answer. If the Government, in response to a written question and in a statement, states that regional working is the answer to systemic failure, then we should hold the Government to account on its belief in that regard.

Our purpose today is to put on record our belief that regional education consortia need to be up and running as soon as possible to help schools improve literacy and numeracy and to cut the gap in attainment relating to poverty. We do that today not in order to seek to blame local authorities or even to blame the Government, but simply to draw attention to and to express our regret about the fact that the system is not yet up and running fully, and to draw the Government's attention to the need to take action as soon as possible. The evidence that we are gathering on the ground suggests that the various consortia are either not formally constituted—that is

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gynnig y cynnig hwn ac i agor y ddadl ar rôl consortia addysg rhanbarthol i helpu ein hysgolion sy'n tanberfformio yng Nghymru. Diben y ddadl hon yw canolbwyntio ar un agwedd ar raglen weithredu'r Llywodraeth—y cynllun gweithredu 20 pwynt a amlinellwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau—sydd â'r nod o gau'r bwlch o ran cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a thlodi a mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwael yn gyffredinol yn ysgolion Cymru a hefyd i ymdrin â'r hyn sydd, yng ngeiriau'r Gweinidog ei hun, yn fethiant systemtig yng nghyfundrefn addysg Cymru.

Nid Plaid Cymru, nac yn wir unrhyw blaid arall yma, a ddewisodd gonsortia rhanbarthol fel yr ateb i'r methiant systematig hwnnw, ond y Gweinidog ei hun. Rwy'n awyddus iawn i dynnu sylw'r Siambr at ymateb a roddodd y Gweinidog i gwestiwn ysgrifenedig ar 28 Mai eleni. Dywedodd yn glir ei fod wedi cael sicrwydd gan y 22 o arweinwyr addysg lleol mai addysg oedd eu prif flaenoriaeth, bod angen newid radical i fynd i'r afael â'r methiant systematig mewn addysg, a bod y dystiolaeth i gyd yn awgrymu mai gweithio mewn partneriaeth ranbarthol oedd yr ateb. Dyna'r rheswm dros gyflwyno'r ddadl hon heddiw, a dyna pam na allwn gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth, sy'n peri dryswch ynghylch yr ateb. Os yw'r Llywodraeth, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ac mewn datganiad, yn datgan mai gweithio rhanbarthol yw'r ateb i fethiant systematig, yna dylem ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am ei chred yn hynny o beth.

Ein pwrpas heddiw yw datgan ar goedd ein cred bod angen i gonsortia addysg rhanbarthol fod yn weithredol cyn gynted ag y bo modd er mwyn helpu ysgolion i wella llythrennedd a rhifedd a chau'r bwlch mewn cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi. Gwnawn hynny heddiw nid er mwyn ceisio rhoi bai ar yr awdurdodau lleol na hyd yn oed ar y Llywodraeth, ond er mwyn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r system yn gwbl weithredol eto a gresynu at hynny, a thynnu sylw'r Llywodraeth at yr angen i gymryd camau cyn gynted ag y bo modd. Mae'r dystiolaeth yr ydym yn ei chasglu ar lawr gwlad yn awgrymu nad yw'r gwahanol gonsortia

certainly true in one case—or not fully functioning as yet. The evidence also suggests that the consortia have been struggling to get their work done and to set up in the timetable set by the Government, particularly in relation to some of the changes that have happened along the way, for example asking the consortia and school performance consortia to look at schools in bands 2 and 3, as well as the so-called failing schools in bands 4 and 5.

For us in the Chamber, a few weeks here or three or six months there perhaps do not make a great deal of difference, but, to a pupil, six months of failing to get the right support in school is the difference between succeeding or failing at the different key stages. That is why we want to see a focus on immediate action today. It is all well and good to say that these things are bureaucratic and take time to set up, but this has been described by the Government itself as the answer to poor attainment. Every week that goes past means that we are failing pupils in some of our worst performing schools, and we need to address that.

The Minister in the now well-known speech that he made about 18 months ago, when he set out his 20-point action plan, said that he not only expected local authorities to participate in consortia arrangements but that they would suffer financial penalties, including the withdrawal of better schools funding, if they did not do that. Therefore, one purpose of the debate today is to drill down to see whether the Minister still intends to use those financial penalties, given the current situation, and, in particular, to see how the Minister intends to deliver improvement in the poorer performing schools, if, in effect, he is cutting off their nose to spite their face. I hope that he will say something about his intentions in that regard.

We also know that the Minister said very clearly that, by this September, as well as the consortia being in place, he wanted to see that schools had 80% of local education funding delegated to them. That was also supposed to happen by this September.

wedi'u sefydlu'n ffurfiol—mae hynny'n sicr yn wir yn un achos—neu nad ydynt yn gwbl weithredol eto. Awgryma'r dystiolaeth hefyd fod y consortia wedi cael anhawster i gwblhau eu gwaith ac ymsefydlu yn unol â'r amserlen a osodwyd gan y Llywodraeth, yn enwedig o ran rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd ar hyd y ffordd, er enghraifft, gofyn i'r consortia a'r consortia perfformiad ysgol edrych ar ysgolion ym mandiau 2 a 3, yn ogystal â'r ysgolion sy'n methu, fel y'u gelwir, ym mandiau 4 a 5.

I ni yn y Siambr, nid yw oedi o ychydig wythnosau fan hyn neu dri i chwe mis fan draw yn gwneud rhyw lawer o wahaniaeth, ond, i ddisgybl, chwe mis o fethu â chael y cymorth cywir yn yr ysgol yw'r gwahaniaeth rhwng llwyddo neu fethu yn y gwahanol gyfnodau allweddol. Dyna pam yr ydym am weld ffocws ar weithredu ar unwaith heddiw. Mae'n ddigon hawdd dweud bod y pethau hyn yn fiwrocraidd ac yn cymryd amser i'w sefydlu, ond mae hyn wedi cael ei ddisgrifio gan y Llywodraeth ei hun fel yr ateb i gyrraeddian gwael. Mae pob wythnos sy'n mynd heibio yn golygu ein bod yn siomi disgyblion mewn rhai o'n hysgolion sy'n perfformio waethaf, ac mae angen inni fynd i'r afael â hynny.

Dywedodd y Gweinidog yn ei araith adnabyddus erbyn hyn tua 18 mis yn ôl, pan amlinellodd ei gynllun gweithredu 20 pwynt, ei fod nid yn unig yn disgwyl i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn trefniadau consortia, ond y byddent yn cael eu cosbi'n ariannol, gan gynnwys tynnu'n ôl arian ysgolion gwell, os nad oeddent yn gwneud hynny. Felly, un diben i'r ddadl heddiw yw darganfod a yw'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r cosbau ariannol hynny o hyd, o ystyried y sefyllfa bresennol, ac, yn benodol, gweld sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau gwelliant yn yr ysgolion sy'n perfformio waethaf, os yw, mewn gwirionedd, yn torri eu trwyn i sbeitio eu hwyneb. Gobeithiaf y bydd yn dweud rhywbeth am ei fwriadau yn hynny o beth.

Gwyddom hefyd i'r Gweinidog ddweud yn glir iawn, erbyn y mis Medi hwn, yn ogystal â sefydlu'r consortia, ei fod am weld bod 80% o gyllid addysg lleol yn cael ei ddirprwyo i'r ysgolion. Dylai hynny hefyd fod wedi digwydd erbyn y mis Medi hwn.

Therefore, this debate is also an opportunity to ask the Minister as to whether he is satisfied that that has been achieved, because, to be frank, we do not have evidence one way or the other.

The Government has made it very clear that schools in bands 4 and 5 will receive an extra £10,000. That is about £16.58 for each child. It is a small sum of money, but I am sure that the schools will not reject it. However, once again, this was linked to a clear action plan with improvement targets, linked into the local consortia. If the consortia are not yet fully functioning, how can we see clear action plans for improving schools in bands 4 and 5, and has that money been released to those schools, despite the consortia not necessarily being fully in place? I hope that the Minister will be able to say something about that.

That links to the pupil deprivation grant, and we will be able to support at least one of the amendments from the Liberal Democrats, although we will be leaving the one about budget negotiations to them and the Labour Party to sort out.

There is no doubt that the setting up of the consortia has been somewhat fraught with difficulty. We were promised that it would happen by September on several occasions by the Minister. However, some Members will know that the *Times Educational Supplement* on 26 October pointed out that the consortia had been having difficulty in appointing systems leaders, a leadership programme that has been identified by the Minister himself as being essential for driving school improvement in Wales. One official involved, Bryan Jeffreys, the interim director of the Central South Consortium Joint Education Service, said that the consortium advertised, but did not get enough suitable candidates and so had to re-advertise. In response, Anna Brychan, of the National Association of Headteachers, said:

‘There is a fair measure of agreement that this is the model we need, but we are worried

Felly, mae'r ddadl hon hefyd yn gyfle i ofyn i'r Gweinidog a yw'n fodlon bod hynny wedi cael ei gyflawni, oherwydd, a siarad yn blaen, nid oes gennym dystiolaeth y naill ffordd na'r llall.

Mae'r Llywodraeth wedi'i gwneud yn glir iawn y bydd ysgolion ym mandiau 4 a 5 yn cael £10,000 ychwanegol, sef tua £16.58 fesul plentyn. Mae'n swm bach o arian, ond rwy'n siŵr na fydd yr ysgolion yn ei wrthod. Fodd bynnag, unwaith eto, mae hyn yn gysylltiedig â chynllun gweithredu clir gyda thargedau gwella, sy'n gysylltiedig â'r consortia lleol. Os nad yw'r consortia yn gwbl weithredol eto, sut y gallwn weld cynlluniau gweithredu clir ar gyfer gwella ysgolion ym mandiau 4 a 5, ac a yw'r arian hwnnw wedi cael ei ryddhau i'r ysgolion hynny, er nad yw'r consortia o reidrwydd ar waith yn llawn? Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu dweud rhywbeth am hynny.

Mae hynny'n cysylltu â'r grant amddifadedd disgyblion, a byddwn yn gallu cefnogi o leiaf un o'r gwelliannau gan y Democratiaid Rhyddfrydol, er y byddwn yn gadael yr un am drafodaethau cyllidebol iddynt hwy ac i'r Blaid Lafur i'w datrys.

Nid oes amheuaeth nad yw'r broses o sefydlu'r consortia wedi bod braidd yn anodd. Cawsom addewid y byddai'n digwydd erbyn mis Medi ar sawl achlysur gan y Gweinidog. Fodd bynnag, bydd rhai Aelodau yn gwybod i'r *Times Educational Supplement* nodi ar 26 Hydref bod y consortia wedi bod yn cael anhawster i benodi arweinwyr systemau, rhaglen arweinyddiaeth sydd wedi cael ei nodi gan y Gweinidog ei hun fel rhywbeth hanfodol i hyrwyddo gwelliant mewn ysgolion yng Nghymru. Dywedodd un swyddog sydd ynghlwm wrth y broses, Bryan Jeffreys, cyfarwyddwr dros dro Consortiwm Canolbarth y De Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, fod y consortiwm wedi hysbysebu, ond nad oedd wedi cael digon o ymgeiswyr addas, ac felly bod yn rhaid iddo ailhysbysebu. Mewn ymateb, dywedodd Anna Brychan, o Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon:

Mae cryn gytundeb mai dyma'r model sydd ei angen arnom, ond rydym yn poeni am faint

about the amount of time it seems to be taking to get there.'

I suppose that the point of the debate today is to try to get the Minister to realise that it is a matter of urgency not to let the consortia become another level of bureaucracy and organisation that we have to go through, and not to lose focus on the need to drive improvements in literacy and numeracy and to close the poverty gap. If the consortia are not up and working, there are things that the Government can do now, including delivering those sums of money directly to schools, which I hope that he will consider.

The whole programme is linked to a series of banding issues that Plaid Cymru, certainly, does not agree with, and I think that some of my colleagues may say a little more about that. However, we agree with the Government in its central purpose, in that we need to see school improvement policies for the whole of education for children in Wales and that social deprivation is the main obstacle to that. We have seen the poverty gap grow in Wales. It was 32% in 2007 and 35% in 2010. We all agree that we need to bear down and be more closely focused on this.

One of my concerns is that we have perhaps lost sight of families and family support in addressing the poverty gap and the attainment gap in schools. Looking at reports such as Save the Children's 'Communities, Families and Schools Together' and Estyn's 'Tackling poverty and disadvantage in schools: working with the community and other services', we see support for the model of regional consortia, but also clear evidence that working with parents and helping parents to work with children, giving parents the skills they might not have had from their own education in order to improve children's literacy and numeracy, makes a significant difference. For example, the Save the Children's Families and Schools Together programme has reported a 10% improvement in children's reading, writing and maths after completing that programme. That is a programme that has been piloted in some parts of Wales.

o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd yno yn ôl pob golwg.'

Mae'n debyg mai diben y ddadl heddiw yw ceisio cael y Gweinidog i sylweddoli ei fod yn fater o frys inni beidio â gadael i'r consortia ddod yn lefel arall o fiwrocratiaeth a threfniadaeth y mae'n rhaid inni ymdopi â hi, a pheidio â cholli golwg ar yr angen i hyrwyddo gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd a chau'r bwloch tlodi. Os nad yw'r consortia yn weithredol, mae pethau y gall y Llywodraeth ei wneud yn awr, gan gynnwys rhoi'r symiau hynny o arian yn uniongyrchol i ysgolion, y gobeithiaf y bydd yn ystyried ei wneud.

Mae'r rhaglen gyfan yn gysylltiedig â chyfres o faterion bandio nad yw Plaid Cymru, yn sicr, yn cytuno â hwy, a chredaf y bydd rhai o'm cyd-Aelodau yn dweud ychydig mwy am hynny. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r Llywodraeth o ran ei diben canolog, yn yr ystyr bod angen inni weld polisïau gwella ysgolion ar gyfer addysg gyfan plant yng Nghymru ac mai amddifadedd cymdeithasol yw'r prif rwystr i hynny. Rydym wedi gweld y bwloch tlodi yn tyfu yng Nghymru. Cafwyd bwloch o 32% yn 2007 a 35% yn 2010. Rydym i gyd yn cytuno bod angen inni ganolbwyntio'n fanylach ar hyn.

Un o'm pryderon yw ein bod o bosibl wedi colli golwg ar deuluoedd a chymorth teuluol wrth fynd i'r afael â'r bwloch tlodi a'r bwloch o ran cyrhaeddiad mewn ysgolion. Gan edrych ar adroddiadau fel 'Communities, Families and Schools Together' gan Achub y Plant a 'Mynd i'r afael ag anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill' gan Estyn, gwelwn gefnogaeth i fodel y consortia rhanbarthol, ond tystiolaeth glir hefyd bod gweithio gyda rhieni a helpu rhieni i weithio gyda phlant, gan ddysgu'r sgiliau i rieni na fyddent wedi'u dysgu o bosibl yn eu haddysg eu hunain er mwyn gwella llythrennedd a rhifedd plant, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. Er enghraifft, mae rhaglen Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd Achub y Plant wedi nodi gwelliant o 10% yn sgiliau darllen, ysgrifennu a mathemateg plant ar ôl cwblhau'r rhaglen honno. Mae honno'n rhaglen sydd wedi cael ei threalu mewn rhai rhannau o Gymru.



Therefore, although we accept the principle of regional consortia, we think that a focus has been lost on the need to work more closely and directly with families through family support and with some third sector organisations as well. In other words, there is a danger that the consortia themselves will become the objective, and the objective must be to deliver improvements in standards of numeracy and literacy in all schools in Wales, but certainly focusing and starting in those schools that are not delivering.

That is the purpose of the debate today. We thought, hopefully not in any sort of adversarial way, that in bringing forward a focus on this and in examining one aspect of the Government's policy and showing how that was not yet working fully and properly, we might be able to ensure that the Government was delivering the support mechanisms needed directly to schools, if necessary. The consortia themselves show a way forward for partnership working, and there is no doubt that partnership working improves school outcomes. However, if it has become about the bureaucracy, there is no doubt that it can also become a hindrance in itself.

4.30 p.m.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi'r gwaith pwysig y mae penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd i sicrhau'r addysg orau bosibl i'n plant.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 1b, dileu popeth ar ôl 'ysgolion uwchradd,' a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*yn ddiffygiol iawn, ac nad oes gan athrawon, rhieni na disgyblion hyder ynddo.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3a, dileu popeth ar ôl 'rhanbarthol,' a rhoi'r canlynol yn ei le:*

Felly, er ein bod yn derbyn egwyddor consortia rhanbarthol, credwn fod ffocws wedi cael ei golli ar yr angen i weithio'n agosach ac yn fwy uniongyrchol gyda theuluoedd drwy gymorth teuluol a chyda rhai sefydliadau yn y trydydd sector hefyd. Mewn geiriau eraill, mae perygl mai sefydlu'r consortia eu hunain fydd y nod yn y pen draw, a rhaid sicrhau mai gwella safonau rhifedd a llythrennedd ym mhob ysgol yng Nghymru yw'r nod, ond yn sicr canolbwyntio a dechrau yn yr ysgolion hynny nad ydynt yn cyflawni.

Os bydd y Llywodraeth yn symud tuag at ariannu'r gwasanaeth ambiwlans yn uniongyrchol, mae angen iddi fod yn fwy agored gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth ambiwlans. Byddai'n rhaid i hynny ymddangos, fel y dywedais, ar wyneb y gyllideb. Yna byddai ei gyllideb yn hysbys bedwar mis ymlaen llaw, nid wyth mis yn ddiweddarach, fel y digwyddodd eleni.

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, dechreuaf gyda sylw y gallwn i gyd gytuno arno, fe gredaf, sef bod darparu gofal ambiwlans brys diogel ac amserol o safon dda i'r rhai sydd ei angen yn flaenoriaeth bennaf. Dim ond os oes gwasanaeth ambiwlans wedi'i ariannu'n briodol yng Nghymru i gyrraedd y safonau cenedlaethol y gellir cyflawni hynny. Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ariannu gwasanaethau ambiwlans ar hyn o bryd, a chytunwyd ar y gyllideb graidd i'w dyrannu iddynt, mae'n debyg, ym mis Ebrill, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Pe na bai cytundeb, byddai cyllid y gwasanaeth ambiwlans wedi dod i ben ymhell cyn hyn. Erbyn diwedd mis Ebrill, byddai cyllid y gwasanaeth ambiwlans wedi dod i ben ac ni fyddai wedi bod mewn sefyllfa i dalu ei staff. Yn amlwg, mae rhywfaint o gyllid wedi'i neilltuo i ariannu'r gwasanaeth ambiwlans hyd yn hyn. Ni allwch fynd wyth mis i mewn i flwyddyn ariannol heb gael unrhyw arian. Yr hyn sydd wedi digwydd, o'r hyn a ddeallaf, yw bod addasiad o 2%, sy'n cyfateb i wariant un wythnos ar y gwasanaeth ambiwlans, fwy na lai.

O ran perfformiad, mae'r GIG yng Nghymru, yn gyffredin â gweddill y Deyrnas Unedig, wedi bod o dan gyfnod estynedig o bwysau, ac mae hynny wedi arwain at gynnydd parhaus yn y galw am ein hambiwylansys, ynghyd â nifer fwy o gleifion yn cael eu categorioeddio'n rhai sydd mewn sefyllfa lle mae eu bywyd yn y fantol. Mae angen cydnabod hefyd fod gan gleifion ran i'w

a role to play to ease the pressures on emergency services. Evidence shows a growing number of inappropriate emergency calls to the ambulance service over recent years, including a recent case in my area, which was well documented in the local press, of someone using it as a free taxi service when they wanted to go from where they were to somewhere else. They called for an ambulance, and after it took them to where they were going, they got out and carried on with their lives. Many people are calling them out for non-emergency reasons.

We are also aware of people who are drunk calling for an ambulance and being abusive to ambulance personnel. As Members here will well know, it is not only the young who do this. I place on record my appreciation of the work done by those working in the ambulance service, many of whom I know personally. Patients need to consider using other NHS services, such as NHS Direct Wales, contacting GP out-of-hours services or visiting local pharmacies if their need is not an emergency. We need an appropriate use of the ambulance service.

However, if the need is urgent and potentially life-threatening, people should call the ambulance and then expect a rapid response. Local health boards are responsible for funding the Welsh ambulance service. It needs to be properly resourced in order to meet the national targets set for it and, more importantly, to meet the realistic expectations of the people of Wales.

The question has come up as to whether the ambulance service should be directly funded. I have a view on all services being directly funded. We need to examine this topic as an Assembly via the Finance Committee. We need to look at the way that we fund an organisation that then passes the funding on. I have concerns that go right the way across, but I do not think that this is the place to start. We need to look at it all. I have never been a fan of indirect funding, but it seems to be a measure that the Conservatives used when

chwarae i leihau'r pwysau ar wasanaethau brys. Dengys tystiolaeth fod nifer cynyddol o alwadau brys amhriodol i'r gwasanaeth ambiwlans dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys achos diweddar yn fy ardal i, a gafodd dipyn o sylw yn y wasg leol, lle roedd unigolyn wedi'i ddefnyddio fel gwasanaeth tacsï am ddim pan oedd am fynd o un lle i rywle arall. Ffoniodd am ambiwlans, ac ar ôl i'r ambiwlans fynd â hwy i ble bynnag roedd am fynd, gadawodd yr ambiwlans a chario ymlaen â'u bywyd. Mae llawer o bobl yn ffonio am ambiwlans am resymau nad ydynt yn rhai brys.

Rydym hefyd yn ymwybodol o bobl sydd wedi meddwi yn ffonio am ambiwlans ac yn amharchu personél ambiwlans. Fel y gwŷr yr Aelodau yma, nid yr ifanc yn unig sy'n gwneud hyn. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith a wneir gan y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth ambiwlans, yr wyf yn adnabod llawer ohonynt yn bersonol. Mae angen i gleifion ystyried defnyddio gwasanaethau eraill y GIG, megis Galw Iechyd Cymru, cysylltu â gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau neu ymweld â fferyllfeydd lleol os nad oes angen gofal brys arnynt. Mae angen inni weld defnydd priodol o'r gwasanaeth ambiwlans.

Fodd bynnag, os oes angen gofal brys ac os oes bywyd rhywun yn y fantol o bosibl, dylai pobl ffonio'r ambiwlans ac yna ddisgwyl cael ymateb cyflym. Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ariannu gwasanaeth ambiwlans Cymru. Mae angen iddo gael adnoddau priodol er mwyn cyflawni'r targedau cenedlaethol a osodir ar ei gyfer ac, yn bwysicach na hynny, fodloni disgwyliadau realistig pobl Cymru.

Mae'r cwestiwn wedi codi ynghylch a ddylai'r gwasanaeth ambiwlans gael ei ariannu'n uniongyrchol. Yn fy marn i, dylai pob gwasanaeth gael ei ariannu'n uniongyrchol. Mae angen inni edrych ar y pwnc hwn fel Cynulliad drwy'r Pwyllgor Cyllid. Mae angen inni edrych ar y ffordd yr ydym yn ariannu sefydliad sydd wedyn yn trosglwyddo'r cyllid i eraill. Mae gennyf bryderon ynglŷn â hyn yn gyffredinol, ond ni chredaf mai dyma'r lle i ddechrau. Mae angen inni edrych ar y cyfan. Nid wyf erioed

they ran the Government that covered Wales. It is one that has been agreed by the current Welsh Government, and it was unopposed or agreed by every other political party in the Chamber when they were in coalition. Therefore, there does not seem to be a great movement away from indirect funding, but indirect funding needs to be looked at across the board, not just in respect of the ambulance service.

There is no extra money. The Welsh block grant is the Welsh block grant. You can pretend that you could take money out of local authorities for education, but that would mean ending all school transport to start with. It would mean ending a whole range of services that are provided within education, such as educational psychological services—

**Andrew R.T. Davies** *rose*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Do not give way to a Member who has not been present for the whole debate.

**Mike Hedges:** We have to realise that the NHS in Wales has been in an extended period of pressure and it is a fact that Wales faces an ageing population, leading to greater demand on our health service and a greater demand for ambulances. [*Interruption.*] Well, let us look at the situation as it is. I understand that, in September 2012, there were 33,000 emergency calls, of which 13,400 were category A, or immediately life-threatening. That means that more than 20,000 were not. The challenges are for the Government to make the best use of its resources, for health trusts to ensure the rapid discharge of patients from ambulances and for patients to be treated as quickly as possible, and for patients to treat the ambulance service as an emergency service rather than as a taxi service to hospitals. We all rely on the ambulance service in an emergency, and for it to be a success it needs to be well run and adequately funded.

wedi bod o blaid cyllid anuniongyrchol, ond ymddengys ei fod yn fesur a ddefnyddiwyd gan y Ceidwadwyr pan oeddent yn llywodraethu dros Gymru. Mae'n fesur y cytunwyd arno gan Lywodraeth gyfredol Cymru, a chytunodd pob plaid wleidyddol arall yn y Siambr arno neu nis gwrthwynebwyd pan oeddent mewn clymblaid. Felly, nid ymddengys bod symud mawr oddi wrth gyllid anuniongyrchol, ond mae angen edrych ar gyllid anuniongyrchol yn gyffredinol, nid yn unig o ran y gwasanaeth ambiwlans.

Nid oes unrhyw arian ychwanegol. Grant bloc Cymru yw grant bloc Cymru. Gallwch esgus y byddech yn gallu tynnu arian oddi ar awdurdodau lleol a'i roi i addysg, ond byddai hynny'n golygu rhoi terfyn ar gludiant ysgol i gyd i ddechrau. Byddai'n golygu rhoi terfyn ar bob math o wasanaethau sy'n cael eu darparu o fewn addysg, megis gwasanaethau seicolegol addysgol—

**Andrew R.T. Davies** *a gododd*—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Peidiwch ag ildio i Aelod nad yw wedi bod yn bresennol ar gyfer y ddadl gyfan.

**Mike Hedges:** Rhaid inni sylweddoli bod y GIG yng Nghymru wedi bod o dan gyfnod estynedig o bwysau ac mae'n ffaith bod gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio, a fydd yn arwain at fwy o alw ar ein gwasanaeth iechyd a mwy o alw am ambiwlansys. [*Torri ar draws.*] Wel, gadewch inni edrych ar y sefyllfa fel y mae. Caf ar ddeall, ym mis Medi 2012, fod 33,000 o alwadau brys, 13,400 ohonynt yn rhai categori A, lle roedd bywyd rhywun yn y fantol. Mae hynny'n golygu nad oedd dros 20,000 ohonynt yn rhai categori A. Yr heriau i'r Llywodraeth yw sicrhau ei bod yn gwneud y defnydd gorau o'i hadnoddau, bod ymddiriedolaethau iechyd yn sicrhau y caiff cleifion eu trosglwyddo o ambiwlansys yn ddi-oed a bod cleifion yn cael eu trin cyn gynted ag y bo modd, a bod cleifion yn trin y gwasanaeth ambiwlans fel gwasanaeth brys yn hytrach nag fel gwasanaeth tacsï i ysbytai. Rydym oll yn dibynnu ar y gwasanaeth ambiwlans mewn argyfwng, ac er mwyn iddo fod yn llwyddiant mae angen iddo gael ei redeg yn dda a'i ariannu'n ddigonol.

**William Powell:** I am pleased to take part in this important debate. As we all know, the ambulance service is a vital service. The majority of us will need to call upon it at some point or other in our lives. It offers us a great deal of reassurance that, when something does go wrong, help is just a phone call away, which makes it all the more important that, as Mike Hedges correctly said, we bear down on the abuse of the ambulance service. That is only right and proper. We have to commend the work of our ambulance staff and paramedics, and at the same time stand up for them when conditions and uncertainty conspire to make their jobs more difficult.

From time to time, we hear about cuts to overtime, ambulance stations being shut, the reduction of hours, and in some cases staff forgoing their meal breaks in order to be able to provide the service on which so many of us depend. All this is a direct consequence of the uncertainty of the funding regime from which the ambulance service has suffered for too long.

The response times of ambulances have recently been in decline. For the past four consecutive months, ambulances have consistently failed to meet the all-Wales target of responding to 65% of immediately life-threatening situations within eight minutes. As we heard earlier, in Blaenau Gwent, just 53.9% of such calls get a response within eight minutes. In Wrexham, it is as high as 74.9%, but as Kirsty said earlier, no areas within Wales would currently meet the English target of 75%. We need to look at why these response times are so low. It is not merely an issue of rurality, as we have previously heard. Pembrokeshire, which is largely a rural area, has the second highest response time of 71.6%, while Blaenau Gwent and Rhondda Cynon Taf, which are obviously far more urban in character, are elsewhere on the scale. There is, therefore, no correlation either with the volume of calls that are coming through. Rather, the problem seems to be one of political leadership and of ensuring that the resources are in place, and that the certainty

**William Powell:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Fel y gwyddon oll, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn wasanaeth hanfodol. Bydd angen i'r rhan fwyaf ohonom ei ddefnyddio rywbyrd neu'i gilydd yn ein bywydau. Mae'n cynnig cryn sicrwydd inni pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, fod cymorth ar gael drwy wneud un galwad ffôn, sy'n ei gwneud hyd yn oed yn fwy pwysig, fel y dywedodd Mike Hedges yn hollol gywir, ein bod yn ymdrin yn llym ag achosion o gamddefnyddio'r gwasanaeth ambiwlans. Mae hynny'n hollol briodol. Rhaid inni ganmol gwaith ein staff ambiwlans a'n parafeddygon, ac ar yr un pryd, eu hamddiffyn pan fydd amodau gwaith ac ansicrwydd yn gwneud eu gwaith yn anos.

O bryd i'w gilydd, rydym yn clywed sôn am gyfyngu ar oramser, gorsafoedd ambiwlans yn cael eu cau, lleihau oriau, ac mewn rhai achosion, staff yn mynd heb amser prydau bwyd er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth y mae cymaint ohonom yn dibynnu arno. Mae hyn i gyd yn ganlyniad uniongyrchol o ansicrwydd y drefn gyllido y mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi dioddef o'r herwydd yn rhy hir.

Mae amseroedd ymateb ambiwlansys wedi bod yn dirywio'n ddiweddar. Am y pedwar mis diwethaf yn olynol, mae ambiwlansys wedi methu'n gyson â chyrraedd y targed i Gymru gyfan sef ymateb i 65% o sefyllfaoedd lle mae bywyd rhywun yn y fantol o fewn wyth munud. Fel y clywsom yn gynharach, ym Mlaenau Gwent, dim ond 53.9% o alwadau o'r fath sy'n cael ymateb o fewn wyth munud. Yn Wrecsam, mae cyfuwch â 74.9%, ond fel y dywedodd Kirsty yn gynharach, ni fyddai unrhyw ardaloedd yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyrraedd y targed o 75% yn Lloegr. Mae angen inni ystyried pam mae'r amseroedd ymateb mor isel. Nid mater o wledigrwydd yn unig ydyw, fel yr ydym wedi clywed o'r blaen. Mae gan sir Benfro, sy'n ardal wledig i raddau helaeth, yr amser ymateb gorau ond un sef 71.6%, tra bo Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf, sy'n amlwg yn llawer mwy trefol eu natur, yn rhywle arall ar y raddfa. Felly, nid oes unrhyw gydbertynas ychwaith â nifer y galwadau a dderbynnir. Yn hytrach na hynny, ymddengys mai arweinyddiaeth wleidyddol



of resource is there. However, I am concerned that it could become extremely difficult if rural areas are further centralised in their service provision. People would have to travel further, but without being able to rely on ambulance cover. We are aware of the concerns out there, in the clinical forum, about some of the proposals coming forward for reconfiguration.

Only this week, it was widely claimed that, on the night of 26 October, emergency cases were being diverted from Bronglais hospital's accident and emergency department to Shrewsbury hospital, which is over two hours away. Aside from highlighting the geographic and strategic importance of Bronglais hospital, that also demonstrates what demands are placed on the ambulance service in mid Wales.

We are supporting the Conservative amendments that relate to the Wales Air Ambulance. In Mid and West Wales, the air ambulance provides a critical service that allows patients to travel the long distances to hospital, where necessary, and it forms a key part of the Welsh Government's ability to meet emergency response time targets. Our ambition should be to secure full core funding for the Wales Air Ambulance from the Welsh Government.

**Russell George:** I am pleased to take part in this important debate, and I wish to focus my contribution entirely on the vital work of the Wales Air Ambulance service, which is a particularly crucial service for rural mid Wales. I had the opportunity to meet with staff at the Wales Air Ambulance at Welshpool Airport only this Monday, and I also had the opportunity to see the new Eurocopter EC135 helicopter—and I am told by staff that the 'E' is important—which now operates out of the airport. The investment made by the Wales Air Ambulance in this new state-of-the-art technology means that mid Wales has the most advanced life-saving operation in the UK. We know that the geographical demands of living in rural mid Wales, coupled with the lack of a district general hospital, means that the facility

sydd wrth wraidd y broblem, a sicrhau bod yr adnoddau ar gael a bod sicrwydd adnoddau. Fodd bynnag, pryderaf y gallai pethau fynd yn anodd iawn os caiff darpariaeth gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig eu canoli ymhellach. Byddai'n rhaid i bobl deithio ymhellach, ond heb fod yn gallu dibynnu ar y gwasanaeth ambiwlans. Rydym yn ymwybodol o'r pryderon, yn y fforwm clinigol, am rai o'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno o ran ad-drefnu.

Dim ond yr wythnos hon, honnwyd yn gyffredinol, ar noson 26 Hydref, fod achosion brys yn cael eu dargyfeirio o adran damweiniau ac achosion brys ysbyty Bronglais i ysbyty Amwythig, sydd dros ddwy awr i ffwrdd. Ar wahân i dynnu sylw at bwysigrwydd daearyddol a strategol ysbyty Bronglais, dengys hynny hefyd y galwadau a roddir ar y gwasanaeth ambiwlans yn y canolbarth.

Rydym yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr sy'n ymwneud ag Ambiwllans Awyr Cymru. Yn y canolbarth a'r gorllewin, mae'r ambiwlans awyr yn darparu gwasanaeth hanfodol sy'n ei gwneud yn bosibl i gleifion deithio bellteroedd mawr i'r ysbyty, lle bo angen, ac mae'n rhan allweddol o allu Llywodraeth Cymru i gyflawni targedau amseroedd ymateb brys. Dylem anelu at sicrhau cyllid craidd llawn gan Lywodraeth Cymru i Ambiwllans Awyr Cymru.

**Russell George:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon, ac yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar waith hanfodol Ambiwllans Awyr Cymru, sy'n wasanaeth pwysig iawn i ardaloedd gwledig y canolbarth. Cefais gyfle i gyfarfod â staff Ambiwllans Awyr Cymru ym Maes Awyr y Trallwng mor ddiweddar â dydd Llun yma, a chafais gyfle hefyd i weld yr hofrennydd Eurocopter EC135 newydd—a dywedir wrthyf gan y staff bod yr 'E' yn bwysig—sydd bellach yn gweithredu o'r maes awyr. Mae'r buddsoddiad a wnaed gan Ambiwllans Awyr Cymru yn y dechnoleg ddiweddaraf hon, yn golygu bod gan y canolbarth y gweithrediad achub bywyd mwyaf datblygedig yn y DU. Gwyddom fod yr anawsterau daearyddol sy'n gysylltiedig â byw yn ardaloedd gwledig y canolbarth,

offered by the Wales Air Ambulance is crucial. I should remind Members that there is no district general hospital in Montgomeryshire or, indeed, the whole of Powys. Having that aircraft base at Welshpool means that mid Wales will have the continued facility to be well served by the Wales Air Ambulance's crucial pre-hospital care service.

The peace of mind that the service provides is priceless, and that is why thousands of people are inspired to raise money for this fantastic charity every year. Indeed, I did a cross-Wales walk myself for the charity, and I thank many of the Members who sponsored me on that, some of whom have not yet paid me. I will not name them, Mark Isherwood. *[Laughter.]* The question that I have for the Minister is this. Do you think that the Wales Air Ambulance is a crucial service that must be provided, especially in mid Wales? We must remember that it takes an hour and a half to travel from the centre of Montgomeryshire to the nearest district general hospital. If the answer is 'yes', would you agree, Minister, that that service should not be funded by volunteers and local fundraising alone? I put it to you, Minister, that for every £1 raised by volunteers, the Welsh Government contribute £1, up to a set ceiling. There is a cost to that, of course, but I happen to think that people in rural Wales deserve the same level of service as those in any other part of Wales. If we cannot have a district general hospital—and I understand the reasons for that—this Government should at least support this service.

We are very fortunate that a legacy left from the estate of the late Harry Boden, a local building merchant, secured the new helicopter to be based at Welshpool Airport, along with the efforts of many volunteers and local people who raised funds. I also give my sincere thanks to Anne Lewis, the local Wales Air Ambulance fundraising co-ordinator, and the many volunteers and staff who work and give their time to this charity. I hope that the Minister will be able to give a

ynghyd â diffyg ysbyty cyffredinol dosbarth, yn golygu bod y cyfleuster a gynigir gan Ambiwylans Awyr Cymru yn hanfodol. Dylwn atgoffa Aelodau nad oes ysbyty cyffredinol dosbarth yn sir Drefaldwyn, nac, yn wir, ym Mhowys gyfan. Mae'r ganolfan awyrennau yn y Trallwng yn golygu y bydd y canolbarth yn parhau i gael ei wasanaethu'n dda gan wasanaeth gofal cyn ysbyty hollbwysig Ambiwylans Awyr Cymru.

Mae'r tawelwch meddwl a gynigir gan y gwasanaeth yn amhrisiadwy, a dyna pam mae miloedd o bobl yn cael eu hysbrydoli i godi arian at yr elusen ardderchog hon bob blwyddyn. Yn wir, euthum ar daith gerdded ar draws Cymru fy hun i godi arian i'r elusen, a hoffwn ddiolch i lawer o'r Aelodau a'm noddodd am wneud hynny, er nad yw rhai ohonynt wedi talu eto. Ni wnaf eu henwi, Mark Isherwood. *[Chwerthin.]* Y cwestiwn sydd gennyf i'r Gweinidog yw hyn. A ydych o'r farn bod Ambiwylans Awyr Cymru yn wasanaeth hanfodol y mae'n rhaid ei ddarparu, yn enwedig yn y canolbarth? Rhaid inni gofio ei bod yn cymryd awr a hanner i deithio o ganol sir Drefaldwyn i'r ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf. Os mai'r ateb yw 'ydw', a fydddech yn cytuno, Weinidog, na ddylai gwasanaeth gael ei ariannu gan wirfoddolwyr a chodi arian yn lleol yn unig? Hoffwn wneud awgrym ichi, Weinidog, am bob £1 a godir gan wirfoddolwyr, y dylai Llywodraeth Cymru gyfrannu £1, hyd at uchafswm penodol. Bydd cost yn gysylltiedig â hynny, wrth gwrs, ond rwy'n digwydd credu bod pobl yn ardaloedd gwledig Cymru yn haeddu'r un lefel o wasanaeth â'r rhai mewn unrhyw ran arall o Gymru. Os na allwn gael ysbyty cyffredinol dosbarth—a deallaf y rhesymau dros hynny—dylai'r Llywodraeth hon o leiaf gefnogi'r gwasanaeth hwn.

Rydym yn ffodus iawn bod yr hofrennydd newydd yn gallu cael ei leoli ym Maes Awyr y Trallwng drwy rodd yn ewyllys y diweddar Harry Boden, masnachwr adeiladu lleol, ynghyd ag ymdrechion llawer o wirfoddolwyr a phobl leol a gododd arian. Hoffwn hefyd ddiolch o galon i Anne Lewis, cyd-gysylltydd codi arian lleol Ambiwylans Awyr Cymru, a'r llu o wirfoddolwyr a staff sy'n gweithio ac yn rhoi o'u hamser i'r elusen hon. Gobeithaf y bydd y Gweinidog

few minutes of her time to pay tribute to the many people who support the Wales Air Ambulance, and give of their time to do so. Without this legacy and without these people raising funds in mid Wales, we simply would not have the ability to get people from any location in Montgomeryshire to a district general hospital within 15 minutes. It is not Government funding. We just would not have that ability, and we should therefore pay great tribute to those people. I am grateful for the opportunity to speak in this debate today.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** The delivery of clinically safe and effective emergency care services is a top priority for this Government. I therefore welcome the debate on the role of the Welsh Ambulance Services NHS Trust. Like other Members, I have the utmost admiration for the ambulance staff who work day in, day out, to respond to patients needing life-saving care. This debate presents an opportunity for me to set out very clearly my response to the key themes raised in this debate relating to funding, performance and the reconfiguration of health services.

First, on funding, let me clarify a few things. The Welsh ambulance services trust's core financial allocation was agreed at the beginning of this financial year. The discussions that have been taking place recently with health boards have been about in-year adjustments, not the substantive budget, as some Members have stated. These adjustments include the allocation of the additional £10 million of unscheduled care investment funding that I announced in July. These discussions focused on approximately 2% of the overall budget: less than £3 million. In questions to the First Minister on 30 October, the leader of the Welsh Liberal Democrats stated that no budget had been set for the Welsh Ambulance Services NHS Trust, and that that had led directly to the 65% category-A target being missed. That is incorrect, and I know that the chair of the trust has written to you, Kirsty, and has stated that the core funding has been known since the start of the year.

yn gallu rhoi ychydig funudau o'i hamser hithau i dalu teyrnged i'r llu o bobl sy'n cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru, ac yn rhoi o'u hamser i wneud hynny. Oni bai am y rhodd hon, ac oni bai am y bobl hyn yn codi arian yn y canolbarth, ni fyddai modd inni gael pobl o unrhyw leoliad yn sir Drefaldwyn i ysbyty cyffredinol dosbarth o fewn 15 munud. Nid cyllid y Llywodraeth ydyw. Yn syml, ni fyddai modd inni wneud hynny ac felly dylem dalu teyrnged fawr i'r bobl hynny. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae darparu gwasanaethau gofal brys sy'n ddiogel yn glinigol ac yn effeithiol yn flaenoriaeth fawr i'r Llywodraeth hon. Felly croesawaf y ddadl ar rôl Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fel Aelodau eraill, rwy'n edmygu'n fawr iawn y staff ambiwlans sy'n gweithio ddydd ar ôl dydd, i ymateb i gleifion y mae angen gofal achub bywyd arnynt. Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle imi nodi'n glir iawn fy ymateb i'r themâu allweddol a godwyd yn y ddadl hon sy'n ymwneud ag ariannu, perfformiad ac ad-drefnu gwasanaethau iechyd.

Yn gyntaf, o ran cyllid, gadewch imi egluro ychydig o bethau. Cytunwyd ar yr arian craidd i'w ddyrannu i ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Mae'r trafodaethau sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar gyda byrddau iechyd wedi bod yn trafod addasiadau mewn blwyddyn, nid y gyllideb wreiddiol, fel y dywedodd rhai Aelodau. Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys dyraniad o £10 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad cyllid gofal heb ei drefnu a gyhoeddais ym mis Gorffennaf. Canolbwyntiodd y trafodaethau hyn ar tua 2% o'r gyllideb gyffredinol: llai na £3 miliwn. Yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 30 Hydref, dywedodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru nad oedd unrhyw gyllideb wedi ei phennu ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bod hynny wedi arwain yn uniongyrchol at golli'r targed o 65% ar gyfer galwadau categori A. Mae hynny'n anghywir, a gwn fod cadeirydd yr ymddiriedolaeth wedi ysgrifennu atoch,

Kirsty, ac wedi nodi bod yr arian craidd wedi bod yn hysbys ers dechrau'r flwyddyn.

Kirsty Williams then went further in claiming that the chair of WAST had stated at a public board meeting that LHBs had been intransigent in their dealings with WAST, and that I had been personally unhelpful. Again, I believe that the letter sent by the chair of WAST has corrected any misapprehensions that the leader of the Welsh Liberal Democrats may have been labouring under.

Aeth Kirsty Williams ymhellach a honni bod cadeirydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi datgan mewn cyfarfod bwrdd cyhoeddus bod y byrddau iechyd lleol wedi bod yn anhyblyg wrth ymdrin â'r ymddiriedolaeth, ac nad oeddwn innau wedi bod o gymorth. Unwaith eto, credaf fod y llythyr a anfonwyd gan gadeirydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi cywiro unrhyw gamddealltwriaeth ar ran arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

6.00 p.m.

**Peter Black:** I have a contemporaneous note of that meeting because a member of my staff was at that meeting. It is quite clear that he did say those words and if you are now saying that he did not, your officials have clearly put pressure on him to withdraw them.

**Peter Black:** Mae gennyf nodyn o'r cyfarfod hwnnw a wnaed ar y pryd am fod aelod o'm staff yn y cyfarfod hwnnw. Mae'n eithaf amlwg iddo ddweud y geiriau hynny ac os ydych yn dweud yn awr na wnaeth hynny, mae'n amlwg bod eich swyddogion wedi rhoi pwysau arno i'w tynnu'n ôl.

**Lesley Griffiths:** I have a copy of the letter that the chair of WAST wrote to Kirsty Williams stating that. If you want to take up that issue with the chair, I suggest that you do so, but he states clearly with regard to the words attributed to him in particular, that not one member of the board, executive or non-executive, recalls them being made. I am committed to ensuring that the ambulance service in Wales is appropriately funded and works in a way that enables the delivery of high-quality, fair and equitable levels of service the public expects and deserves.

**Lesley Griffiths:** Mae gennyf gopi o'r llythyr a anfonodd cadeirydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru at Kirsty Williams yn dweud hynny. Os ydych am godi'r mater hwnnw gyda'r cadeirydd, awgrymaf eich bod yn gwneud hynny, ond mae'n datgan yn glir o ran y geiriau a briodolwyd iddo yn benodol, nad oes yr un aelod o'r bwrdd, aelodau gweithredol neu anweithredol, yn cofio'r geiriau hynny. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn cael ei ariannu'n briodol ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparu'r un lefel o wasanaeth o safon uchel y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu.

Secondly, let me address issues related to the performance of WAST. I fully understand and share the concerns of Assembly Members about the recent variation in performance of WAST. I am determined that this variation will not continue. However, I want to bring a degree of context to the debate. The ambulance service is part of a complex system of healthcare in Wales. Our aim is to ensure that more people, particularly those with chronic conditions, can access

Yn ail, gadewch imi ymdrin â materion sy'n ymwneud â pherfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Rwyf yn llwyr ddeall ac yn rhannu pryderon yr Aelodau Cynulliad ynglŷn â'r amrywiad diweddar ym mherfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Rwy'n benderfynol na fydd yr amrywiad hwn yn parhau. Fodd bynnag, hoffwn gyflwyno rhywfaint o gyd-destun i'r drafodaeth. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn rhan o system

care closer to home and earlier in order to prevent them needing an ambulance.

**Jocelyn Davies:** Minister, what is your reaction to the fact that a Caerphilly woman who needed an emergency caesarean section last week waited two hours for an ambulance to take her from Ystrad Mynach to the Royal Gwent Hospital, where her baby then died during an attempted forceps delivery. Will you ensure that the family's wishes for a proper investigation are met? Will women have confidence in midwife-led centres if they have no confidence in an ambulance should things go wrong?

**Lesley Griffiths:** I thank the Member for that intervention. I am aware of this very distressing case. Jeff Cuthbert and you have both written to me about it and I can assure you that I will be writing to Aneurin Bevan Local Health Board to ensure that a thorough investigation is conducted.

Currently, there are clear emerging indicators showing significant demographic impacts on NHS services in Wales. This new, higher level of baseline demand is directly driving the underlying and growing pressures we are seeing on the ambulance service, A&E and many other parts of the NHS. Wales has the highest proportion of people aged over 85 compared with the rest of the UK, which is predicted to increase dramatically in the next 10 years. This has a knock-on effect, creating more demand on the NHS, and we are already seeing higher proportions of older people attending A&E. We know that they are more likely to be admitted to hospital than any other age group. The level of health need and dependency in this age group can often be much higher, having a significant impact on the demand for ambulance services and the NHS generally.

In addition, the most recent data from the

gymhleth o ofal iechyd yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau y gall mwy o bobl, yn enwedig y rhai â chyflyrau cronig, gael gofal yn agosach at y cartref ac yn gynharach er mwyn atal yr angen am ambiwlans rhag codi.

**Jocelyn Davies:** Weinidog, beth yw eich ymateb i'r ffaith bod yn rhaid i fenyw o Gaerffili yr oedd angen iddi gael toriad cesaraidd ar frys yr wythnos diwethaf aros am ddwy awr am ambiwlans i fynd â hi o Ystrad Mynach i Ysbyty Brenhinol Gwent, lle bu farw ei babi yn ystod ymgais i roi genedigaeth â chymorth gefeiliau. A wnewch chi sicrhau y caiff dymuniadau'r teulu i gael ymchwiliad priodol eu bodloni? A fydd gan ferched hyder mewn canolfannau dan arweiniad bydwagedd os nad oes ganddynt hyder mewn ambiwlans pe bai pethau yn mynd o chwith?

**Lesley Griffiths:** Diolch i'r Aelod am yr ymyriad hwnnw. Rwy'n ymwybodol o'r achos truenus hwn. Mae Jeff Cuthbert a chithau wedi ysgrifennu ataf am y mater a gallaf eich sicrhau y byddaf yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i wneud yn siŵr bod ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal.

Ar hyn o bryd, mae arwyddion clir yn dod i'r amlwg sy'n dangos effeithiau demograffig sylweddol ar wasanaethau'r GIG yng Nghymru. Y galw sylfaenol uwch newydd hwn sy'n arwain yn uniongyrchol at y pwysau sylfaenol a chynyddol a welwn ar y gwasanaeth ambiwlans, adrannau damweiniau ac achosion brys a rhannau eraill o'r GIG. Gan Gymru mae'r gyfran uchaf o bobl dros 85 oed o'i chymharu â gweddill y DU, a rhagwelir y bydd yn cynyddu'n ddramatig yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cael effaith ganlyniadol, sy'n creu mwy o alw ar y GIG, ac rydym eisoes yn gweld cyfrannau uwch o bobl hŷn yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Rydym yn gwybod eu bod yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty nag unrhyw grŵp oedran arall. Gall y lefel o angen iechyd a dibyniaeth yn y grŵp oedran hwn yn aml fod yn llawer uwch, sy'n cael effaith sylweddol ar y galw am wasanaethau ambiwlans a'r GIG yn gyffredinol.

Yn ogystal, mae'r data diweddaraf o Arolwg

Welsh Health Survey shows that over half of men and women are classified as overweight or obese. This increases the risk of developing a number of serious and potentially life-threatening diseases—issues that all play into the picture of the rising demand we are seeing. It is only fair then to view the current performance of WAST in the context of this rapidly increasing demand. Over recent months, the service is getting to more category A calls within eight minutes than ever before. Between January and September this year, there were 18,000 additional category A calls compared with last year. While it is obvious that there is now an increased baseline level of demand, it is vital that people take responsibility for using all health services appropriately.

**Kirsty Williams:** Will the Minister give way?

**Lesley Griffiths:** I cannot take any more interventions, I am sorry.

The ambulance service has met the 65% category A response standard in 11 of the last 17 months, and where it has been missed, this is often by less than 1%. However, I am determined to ensure WAST goes further to drive forward improvements to further support patient care. This includes the daily NHS executive teleconference calls. These provide an effective forum to enable collaboration and negotiation across health boards to respond to existing pressures as they arise. Thanks to this new joint initiative, in recent months there has been a 47% reduction in lost hours—those times when ambulances are held up at hospitals. This has improved significantly over the last three months. However, having laid out the context, I fully recognise there is still work to be done to raise the bar and improve overall response times.

Thirdly I would like to consider the role of the Ambulance service in the wider reconfiguration of NHS services. Members are aware that I have instigated a mid-year review of finance and performance alongside

Iechyd Cymru yn dangos bod dros hanner y dynion a'r merched yn cael eu dosbarthu'n rhy drwm neu'n ordew. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddatblygu nifer o glefydau difrifol a allai beryglu bywyd—problemâu sydd oll yn cyfrannu at y darlun o'r galw cynyddol a welwn. Mae ond yn deg ystyried perfformiad presennol yr ymddiriedolaeth yng nghyd-destun y galw sy'n cynyddu'n gyflym. Dros y misoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd mwy o alwadau categori A o fewn wyth munud nag erioed o'r blaen. Rhwng mis Ionawr a mis Medi eleni, cafodd 18,000 o alwadau categori A ychwanegol o gymharu â'r llynedd. Er ei bod yn amlwg bod galw sylfaenol ychwanegol bellach, mae'n hanfodol bod pobl yn cymryd cyfrifoldeb am ddefnyddio'r holl wasanaethau iechyd yn briodol.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog iddio?

**Lesley Griffiths:** Ni allaf dderbyn rhagor o ymyriadau, mae'n ddrwg gennyf.

Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi cyrraedd y targed ymateb o 65% ar gyfer galwadau categori A mewn 11 o'r 17 mis diwethaf, a lle mae wedi cael ei gollu, mae hyn yn aml o lai nag 1%. Fodd bynnag, rwy'n benderfynol o sicrhau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn hyrwyddo gwelliannau i wella cymorth gofal cleifion ymhellach. Mae hyn yn cynnwys galwadau telegynhadledd gweithredol y GIG bob dydd. Mae'r rhain yn cynnig fforwm effeithiol i alluogi cydweithio a chyd-drafod rhwng byrddau iechyd i ymateb i'r pwysau sy'n bodoli wrth iddynt godi. Diolch i'r gyd-fenter newydd hon, yn ystod y misoedd diwethaf, bu gostyngiad o 47% mewn oriau a gollwyd—yr adegau hynny pan fydd ambiwlansys yn gorfod aros mewn ysbytai. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol dros y tri mis diwethaf. Fodd bynnag, ar ôl nodi'r cyd-destun, cydnabyddaf yn llawn fod gwaith i'w wneud o hyd i godi'r safon a gwella amseroedd ymateb cyffredinol.

Yn drydydd, hoffwn ystyried rôl y gwasanaeth Ambiwllans yng nghyd-destun ad-drefnu gwasanaethau'r GIG yn ehangach. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol imi sefydlu adolygiad canol blwyddyn o gyllid a

this to assist my decision making. I can assure Members that WAST has been fully involved with local health boards in developing the service reconfiguration proposals. That reconfiguration is being undertaken to ensure that patients receive the right treatment at the right time in the right place, and I can assure you, as I have mentioned, that WAST has been fully involved in those plans.

Darren Millar and Russell George referred to the Wales Air Ambulance service, and of course we support it. It is greatly valued, and I would like to pay tribute to its volunteers. We fund the paramedics on the air ambulance, but the operational costs of the helicopters are funded through charitable donations. The charity has never requested additional financial assistance from the Welsh Government.

**Darren Millar** *rose*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. The Minister has said that she will not be taking any more interventions.

**Lesley Griffiths:** I have decided to undertake a review of the Welsh ambulance service. This will be a comprehensive review and will cover relationships with health boards, including funding arrangements, targets, structure, whether the current arrangements might be modified, and the relationship between emergency and non-emergency patient transport services. I will be asking officials to prepare terms of reference for the review, and I will share these with Assembly Members before the end of this month.

**Peter Black:** I only have three and a half minutes, so I will have to be succinct. I note that the Minister is announcing the ninth review in six years, I think—that is how we have added them up. If we have had eight reviews and we still cannot get it right, how will this ninth one make any difference? The Minister needs to get the basics right and make sure that the ambulance service delivers on what it is meant to be delivering, and has

pherfformiad ochr yn ochr â hyn i'm helpu i wneud penderfyniadau. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelodau fod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi bod yn ymwneud yn llawn â'r byrddau iechyd lleol i ddatblygu'r cynigion i ad-drefnu gwasanaethau. Ad-drefnir gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y driniaeth gywir ar yr amser cywir yn y lle cywir, a gallaf roi sicrwydd ichi, fel yr wyf wedi crybwyll, bod yr ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan lawn yn y cynlluniau hynny.

Cyfeiriodd Darren Millar a Russell George at wasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru, ac wrth gwrs rydym yn ei gefnogi. Mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr, a hoffwn dalu teyrnged i'w wirfoddolwyr. Rydym yn ariannu'r parafeddygon ar yr ambiwlans awyr, ond caiff costau gweithredol yr hofrenyddion eu hariannu drwy roddion elusennol. Nid yw'r elusen erioed wedi gofyn am gymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

**Darren Millar** *a gododd*—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'r Gweinidog wedi dweud na fydd yn derbyn rhagor o ymyriadau.

**Lesley Griffiths:** Rwyf wedi penderfynu cynnal adolygiad o wasanaeth ambiwlans Cymru. Bydd hwn yn adolygiad cynhwysfawr a bydd yn cynnwys y berthynas â'r byrddau iechyd, gan gynnwys trefniadau ariannu, targedau, strwythur, pa un a oes modd addasu'r trefniadau presennol, a'r berthynas rhwng y gwasanaeth cludo cleifion brys a'r gwasanaeth nad yw'n frys. Byddaf yn gofyn i swyddogion baratoi cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad, a byddaf yn ei rannu gydag Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd y mis hwn.

**Peter Black:** Dim ond tair munud a hanner sydd gennyf, felly bydd yn rhaid imi fod yn gryno. Nodaf fod y Gweinidog yn cyhoeddi'r nawfed adolygiad mewn chwe blynedd, fe gredaf—dyna'r cyfanswm sydd gennym. Os ydym wedi cael wyth adolygiad a'n bod yn methu o hyd i gael pethau'n iawn, sut y bydd y nawfed adolygiad yn gwneud unrhyw wahaniaeth? Mae angen i'r Gweinidog gael y pethau sylfaenol yn iawn a gwneud yn siŵr

the budget that it needs to do so.

Both Mike Hedges and the Minister said that the core budget was agreed in April this year. The Minister says that the discussion that took place at the trust meeting on 18 October was about in-year adjustments. She then went on to talk about the massive increase in demand for the ambulance service, indicating that those in-year adjustments will have to be quite massive if they are to get anywhere near meeting those pressures. Clearly, this core budget was fairly small to start with. If you look at the press release that was put out by the Welsh NHS Confederation on 2 November, it says that:

‘the Welsh Ambulance Service and the Local Health Boards in Wales have reached agreement on funding for the ambulance service in 2012-13 to meet service pressures and support the Trust in meeting its financial duties.’

That sounds pretty core to me. The Minister says that the core budget was set in April; what exactly is that about? At the meeting on 18 October, it was made clear in the public part of that meeting—and I have contemporaneous notes here—that the Welsh ambulance service trust had set a deadline of 13 June for the conclusion of budget negotiations and warned of the consequences of failure. Despite this clear warning, no settlement was forthcoming, and the chair indicated that, in his view, there were two factors at play here—the intransigence of the health boards and the unhelpfulness of the Minister. I have seen the letter that the Minister refers to, in which the chair denies making those comments, but it seems that the only note of that meeting is the one taken by my member of staff. There is not an official note of the meeting. You wonder what pressure was brought to bear on the chair to write that letter and subsequently deny that he made those remarks. He was clearly brought in to see the Minister or her advisers, and had the riot Act read to him on what had happened. I think that is unacceptable. What

bod y gwasanaeth ambiwlans yn cyflawni'r hyn y dylai ei gyflawni, a bod ganddo y gyllideb sydd ei hangen arno i wneud hynny.

Dywedodd Mike Hedges a'r Gweinidog y cytunwyd ar y gyllideb graidd ym mis Ebrill eleni. Dywed y Gweinidog fod y drafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfod yr ymddiriedolaeth ar 18 Hydref yn ymwneud ag addasiadau mewn blwyddyn. Yna aeth yn ei blaen i sôn am y cynnydd enfawr yn y galw am y gwasanaeth ambiwlans, gan awgrymu y bydd yn rhaid i'r addasiadau mewn blwyddyn fod yn eithaf mawr er mwyn dod yn agos at ymdrin â'r pwysau hynny. Yn amlwg, roedd y gyllideb graidd hon yn eithaf bach i ddechrau. Os edrychwch ar y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru ar 2 Tachwedd, dywed:

mae Gwasanaeth Ambiwllans Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru wedi dod i gytundeb ar gyllid ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yn 2012-13 i ymdrin â phwysau ar y gwasanaeth a helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswyddau ariannol.

Mae hynny'n swnio'n eithaf creiddiol i mi. Dywed y Gweinidog i'r gyllideb graidd gael ei phennu ym mis Ebrill; beth yn union yw ystyr hynny? Yn y cyfarfod ar 18 Hydref, fe'i gwnaed yn glir yn y rhan gyhoeddus o'r cyfarfod hwnnw—ac mae gennyf nodiadau a wnaed ar y pryd yma—bod ymddiriedolaeth gwasanaeth ambiwlans Cymru wedi gosod terfyn amser o 13 Mehefin ar gyfer dod â'r trafodaethau cyllidebol i ben ac wedi rhybuddio am yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai methiant i wneud hynny. Er gwaethaf y rhybudd clir hwn, ni chafwyd setliad, a dywedodd y cadeirydd y gellid priodoli hyn i ddau ffactor, yn ei farn ef—anhyblygrwydd y byrddau iechyd a methiant y Gweinidog i helpu. Rwyf wedi gweld y llythyr y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato, lle mae'r cadeirydd yn gwadu gwneud y sylwadau hynny, ond ymddengys mai'r unig nodyn o'r cyfarfod yw'r un a wnaed gan fy aelod o staff. Nid oes nodyn swyddogol o'r cyfarfod. Tybed pa bwysau a roddwyd ar y cadeirydd i ysgrifennu'r llythyr hwnnw ac yna wadu iddo wneud y sylwadau hynny. Mae'n amlwg iddo gael ei ddwyn gerbron y Gweinidog neu ei



we are getting here is confuscation and misdirection to try to distract us from the failures of this Government in relation to the Welsh ambulance service trust.

